Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN 29 IONAWR 2018 10.00 o'r gloch** | **MONDAY 29 JANUARY 2018 10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |

| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

John Griffith, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A ENWEBWYD GANDDO**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2017.

**4** **COFNODION - PANEL RHIANT CORFFORAETHOL** (Tudalennau 9 - 16)

Cyflwyno i'w mabwysiadu, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2017.

**5** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 17 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**6** **YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN – CYFRIFON A DIWEDDARIAD** (Tudalennau 33 - 66)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7** **STEM GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 67 - 158)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

(Cynllun Busnes - Fersiwn 6, Fersiwn 9 yn Saesneg).

**8** **A545 PORTHAETHWY I FIWMARES** (Tudalennau 159 - 162)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff.

**9** **CAEL GWARED AR Y ROVACABIN** (Tudalennau 163 - 166)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff.

**10** **NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR - DIRPRWYO I'R PENNAETH GWASANAETH (TAI)** (Tudalennau 167 - 184)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**11** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 185 - 186)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

**12** **TREFNIADAU DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (DOLS)** (Tudalennau 187 - 192)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

**13** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 193 - 194)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

**14** **UNEDAU DIWYDIANNOL** (Tudalennau 195 - 200)

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, John Griffith, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R G Parry, OBE, FRAgS |
| **WRTH LAW:** | Y Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Rheolwr Busnes (Gwasanaethau Tai) (NM)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Aled Morris Jones, Richard O. Jones, Bryan Owen, Shaun Redmond, Peter Rogers |

---

DRAFT

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Richard Dew ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 9 ar y rhaglen.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim i'w adrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd, 2017 i'w cadarnhau.

Yn codi o’r cofnodion -

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant fod penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn y cyfarfod uchod mewn perthynas â throsglwyddo Carchar a Llys Biwmares i Gyngor Tref Biwmares wedi cael ei alw i mewn gan bum aelod nad ydynt yn aelodau o’r Pwyllgor Gwaith. Dywedodd yr Aelod Portffolio fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi ystyried y mater a alwyd i mewn yn ei

gyfarfod a gynhaliwyd ar y dydd Iau blaenorol, sef 14 Rhagfyr, a'i fod yn deall (gan nad oedd wedi medru mynychu'r cyfarfod oherwydd ymrwymiad blaenorol) ei fod wedi ei wrthod.

Cadarnhaodd yr Arweinydd mai dyna oedd yr achos a bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi nodi ei fod yn fodlon â'r penderfyniad a wnaed. Felly, roedd penderfyniad y Pwyllgor Gwaith wedi dod i rym yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini ar 14 Rhagfyr, 2017.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd, 2017, fel cofnod cywir.**

**4. BLAENAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyflwynwyd, i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod o fis Ionawr, 2018 i fis Awst, 2018

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar newidiadau a wnaed i'r Flaenraglen Waith ers y cyfnod adrodd blaenorol fel a ganlyn -

**Eitemau sy'n newydd i'r Flaenraglen Waith**

- Eitem 2 – Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn – Cyfrifon a Diweddariad. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried yr eitem hon yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, 2018.
- Eitem 28 – Cynllun Llesiant – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried yr eitem hon yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, 2018. Bydd y mater hefyd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini a'r Cyngor Llawn.

Cyfeiriodd y Swyddog yn ychwanegol at y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a raglennwyd ar gyfer 19 Chwefror, 2018, a dywedodd mai'r bwriad bellach, oherwydd nifer yr eitemau ar y rhaglen waith ar gyfer y cyfarfod ym mis Chwefror, oedd cynnal dau gyfarfod ar 19 Chwefror, sef un yn y bore i ystyried y cynigion terfynol ar gyfer Cyllideb 2018/19 a'r llall yn y prynhawn i ystyried busnes rheolaidd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at eitem 13 ar y Rhaglen Waith – Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn – a gofynnodd iddo gael ei ddwyn i sylw'r Panel Sgriwtini Cyllid hefyd.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Flaenraglen Waith am y cyfnod Ionawr i Awst, 2018 yn amodol ar y newid ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

**5. ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN – RHEOLI'R TRYSORLYS 2017/18**

Cyflwynwyd, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn ymgorffori adolygiad canol blwyddyn o sefyllfa Rheoli Trysorlys 2017/18.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod yr adroddiad uchod ar yr adolygiad canol blwyddyn wedi cael sylw gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr, 2017. Wrth dderbyn yr adroddiad ac mewn perthynas â chyllido rhan y

DRAFT

Cyngor o’r gwariant ar y Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, argymhellodd y Pwyllgor y dylid mabwysiadau ymagwedd ragweithiol i sicrhau y gwerthir asedau yn amserol er mwyn lleihau angen y Cyngor i fenthyca a’r costau refeniw cysylltiedig.

Dywedodd yr Aelod Portffolio fod y Cyngor yn gweithredu cyllideb gytbwys, sy'n golygu’n fras bod arian parod a godir yn ystod y flwyddyn yn cwrdd â'i wariant arian parod. Mae rhan o’r gweithrediadau rheoli trysorlys yn sicrhau bod y llif arian hwn wedi'i gynllunio'n ddigonol, gyda gwargedau’n cael eu buddsoddi mewn gwrth bartïon risg isel, gan ddarparu hylifedd digonol cyn ystyried denu’r elw mwyaf o’r buddsoddiadau. Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli'r trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn rhoi syniad o angen y Cyngor i fenthyca, sef, yn y bôn, y cynllun llif arian hirdymor er mwyn sicrhau y gall y Cyngor gwrdd â'i weithrediadau gwariant cyfalaf. Gall rheoli arian tymor hwy olygu trefnu benthyciadau tymor hir neu dymor byr, neu ddefnyddio gwargedau llif arian tymor hwy ac, ar adegau, gellir aildrefnu dyled i gwrdd ag amcanion cost neu risg y Cyngor. Er gwaethaf cynnydd bychan yn y gyfradd fenthyca sylfaenol ym mis Tachwedd, 2017, mae cyfraddau llog wedi parhau i fod yn isel yn ystod y cyfnod o chwe mis y mae'r adroddiad yn cyfeirio ato – hanner ffordd drwy’r flwyddyn ariannol ni fu llawer iawn o newid yn y sefyllfa gyffredinol o gymharu â chwe mis yn ôl.

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 nad yw'r sefyllfa wedi newid rhyw lawer. Er bod y cyfraddau llog yn isel, strategaeth y Cyngor yw nad yw ond yn benthyca pan fo angen gwneud hynny a phan fo angen y cyllid arno. Oherwydd y bu llithriad yn y rhaglen gyfalaf, mae'r angen i fenthyca wedi bod yn llai na'r disgwyl pan osodwyd y gyllideb gyfalaf. Yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol, aeddfedodd dau fenthyciad tymor hir gyda'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, sef un am £2.5m ar gyfradd llog o 3.25% a'r ail am £3m ar gyfradd llog o 10.375 %. Gwnaed yr ad-daliadau hyn trwy ddefnyddio arian o'r balansau cyfredol ac ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau newydd i ariannu'r ad-daliad; felly, mae dau fenthyciad cyfradd llog uchel wedi'u tynnu o'r portffolio. Fodd bynnag, wrth i'r rhaglen gyfalaf fynd yn ei blaen, ac yn arbennig y Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, disgwylir y bydd angen benthyca arian i ychwanegu at falansau arian parod y Cyngor sydd wedi bod yn cael eu defnyddio i ariannu rhan o'r rhaglen gyfalaf. Mae Adran 9 yr adroddiad yn amlinellu gweithgarwch ers diwedd Chwarter 2, gan gynnwys y telerau ar gyfer £5m a fenthycir o Gronfa Bensiwn Tyne and Wear yn South Shields; gwneir y trefniant hwn i ychwanegu at falansau arian parod y Cyngor gyda'r bwriad o ostwng ymrwymiadau benthyca'r Cyngor a thrwy hynny gadw’r costau benthyca mor isel â phosib.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y wybodaeth a gyflwynwyd a hefyd sylw'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu mewn perthynas â’r angen i fod yn rhagweithiol o ran ceisio sicrhau cymaint o dderbyniadau cyfalaf â phosib er mwyn helpu i leihau'r angen i fenthyca ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain a’r costau sy’n gysylltiedig â benthyciadau o’r fath. Yn dilyn ymlaen o'r uchod, nododd y Pwyllgor Gwaith y pwyntiau isod ymhellach -

- Nododd y Pwyllgor Gwaith y cyfraddau llog ar y ddau fenthyciad hirdymor gyda'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a aeddfedodd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn. Gofynnodd am eglurhad ar gyfnod y benthyciad a oedd wedi arwain at y lefelau llog uchel ar y benthyciadau hyn, yn enwedig y gyfradd o 10.375% ar yr ail fenthyciad a aeddfedodd. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 fod y ddau fenthyciad dros gyfnod o 20 mlynedd o leiaf a’u bod

DRAFT

wedi eu trefnu pan oedd cyfraddau llog yn uwch. Er y rhoddir sylw'n rheolaidd i ad-dalu benthyciadau'n gynnar, nid yw gwneud hynny o fantais bob amser gan fod y cosbau am ad-dalu'n gynnar yn aml yn uwch na'r taliadau llog ar y benthyciad. Cedwir llygad ar y sefyllfa.

- Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith a yw'r Cyngor yn cynnal ymarferion cynllunio senarios yn barod ar gyfer effaith Brexit a hefyd yn sgil y  pwysau chwyddiant sy'n cynyddu a'r cynnydd pellach sy'n debygol o ddigwydd yn y gyfradd fenthyca sylfaenol.  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 y bu disgwyl i gyfraddau llog ddechrau codi ers peth amser; mae'r Cyngor yn edrych ar amseriad ei weithgareddau benthyca ac mae wedi osgoi benthyca oni bai pan fo angen arian arno at bwrpas arbennig. Fel arall, bydd y llog ar y benthyciad yn uwch nag unrhyw elw posib o fuddsoddi'r arian a fenthycwyd. Os bydd cynnydd sydyn yn y cyfraddau llog yna bydd y Cyngor yn ceisio clymu i mewn i gyfradd isel er mwyn cael y budd dros gyfnod y benthyciad. Mae chwyddiant a chyllido costau chwyddiant e.e. chwyddiant tâl, yn fwy o risg i'r Cyngor; mae hyn yn bwydo i mewn i'r Cynllun Ariannol Tymor Canol sy'n caniatáu i'r Cyngor gynllunio ymlaen llaw ar gyfer risgiau ariannol, gan gynnwys chwyddiant uwch.

**Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys 2017/18 ac anfon yr adroddiad ymlaen i'r Cyngor Llawn heb unrhyw sylw ychwanegol.**

**6.** **TRAWSNEWID Y GWASANAETH LLYFRGELL**

Cyflwynwyd, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Dysgu yn ymgorffori Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell ar gyfer 2017-2022.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant fod Cynllun Corfforaethol Ynys Môn ar gyfer 2013 i 2017 yn cynnwys nod i sicrhau gostyngiad o 60% yng nghostau cyffredinol y gwasanaethau hamdden, diwylliant a llyfrgelloedd yn ystod cyfnod y cynllun. Crynhodd y cyd-destun i gynhyrchu'r Strategaeth Llyfrgell Ddrafft gan ddechrau gyda'r Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgell a gynhaliwyd yn 2015 ynghyd â'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd wedyn ac y cafwyd 2,000 o ymatebion iddo. Yn dilyn yr ymgynghoriad, datblygodd y Gwasanaeth Llyfrgell Strategaeth Ddrafft i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgell, yr adroddiad ymgynghori a'r sefyllfa ariannol. Cyflwynwyd y Strategaeth Llyfrgelloedd Ddrafft wedyn i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror, 2017 a rhoddwyd awdurdod i'r Swyddogion fwrw ymlaen i drefnu ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Ddrafft honno. Mae'r Strategaeth yn cynnig model darpariaeth tair haen sy'n cynnwys llyfrgelloedd ardal; llyfrgelloedd a gefnogir gan y gymuned dan arweiniad y Cyngor gydag elfennau o gymorth cymunedol a llyfrgelloedd a gefnogir gan y gymuned dan arweiniad y Cyngor. Cedwir y gwasanaethau llyfrgell symudol yn amodol ar gynnal adolygiad llawn o'r llwybrau a'r arosfannau. Cynigiodd yr Aelod Portffolio argymhellion yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ynghyd ag Opsiwn C (yn hytrach nag Opsiwn B) fel yr opsiwn a ffafrir ar gyfer arbedion yn y strwythur staffio – roedd hyn o ganlyniad i adolygu'r risgiau ar ôl gohirio rhoi sylw i'r mater yn y cyfarfod blaenorol.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu wrth y Pwyllgor Gwaith fod y Gwasanaeth, ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd, wedi derbyn cadarnhad gan MALD (Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru) mewn perthynas â'r opsiynau dan ystyriaeth. Mae MALD yn pryderu am yr opsiwn sy'n cadw dim ond yr isafswm staff ac sy'n golygu colli'r holl oriau staff o'r llyfrgelloedd a fyddai'n cau (Opsiwn

DRAFT

B). Mae MALD o’r farn bod yr opsiwn hwn yn peri risg o ran gallu'r Gwasanaeth i barhau i ddarparu gwasanaeth llyfrgell ar y lefel ddisgwyliedig, o gofio bod y lefelau staffio cyfredol eisoes ar yr ochr isel o’r hyn y gellid ei ddisgwyl.

Fel Aelodau Lleol, dywedodd y Cynghorwyr Aled Morris Jones a Richard Owain Jones fod trafodaethau’n parhau gyda grwpiau a busnesau lleol i ddod o hyd i ddatrysiad cymunedol i sicrhau bod gwasanaeth llyfrgell yn parhau yng Nghemaes; byddai'r gymuned yn hoffi cael amser i allu datblygu'r syniadau hyn. Yng ngoleuni hynny, gofynnodd y Cynghorydd Aled Morris Jones am eglurhad ar yr amserlen weithredu yn ogystal â'r ddarpariaeth ariannol y byddai ei hangen fel isafswm i gadw gwasanaeth llyfrgell yng Nghemaes. Cadarnhaodd y Cynghorydd Richard Owain Jones fod nifer o opsiynau’n cael eu harchwilio gan gynnwys cysylltu gyda darpar ddatblygwr mawr yn yr ardal. Gofynnodd yr Aelodau Lleol am gael ailystyried unrhyw benderfyniad i gau Llyfrgell Cemaes os deuir o hyd i ddatrysiad cymunedol.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod y Gwasanaeth yn bwriadu gweithredu’r ailstrwythuro staff a’r trefniadau lleol yn ystod y cyfnod rhwng rŵan a mis Mai 2018. Cadarnhaodd y Swyddog ymhellach mai’r gost isaf o ran cadw Llyfrgell Cemaes ar agor fyddai tua £11,000 y flwyddyn.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Richard Dew, yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, fod Cyngor Cymuned Llanfaelog wedi mynegi diddordeb pendant mewn bod yn rhan o ddatrysiad cymunedol i gynnal Llyfrgell Rhosneigr a bod trafodaethau i'r perwyl hwnnw'n parhau.

Nododd a chydnabu’r Pwyllgor Gwaith yr ymateb cadarnhaol gan y cymunedau hynny a oedd wedi dod ymlaen i nodi eu parodrwydd i gydweithio gyda'r Gwasanaeth Llyfrgell i sicrhau darpariaeth yn eu hardaloedd a hefyd y cymunedau hynny sy’n dal i weithio i ddod o hyd i ddatrysiad lleol ac sy’n ymrwymedig i wneud hynny.

**Penderfynwyd -**

- **Mabwysiadu Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022**
- **Bod y newidiadau arfaethedig yn Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022 yn cael eu gweithredu fel a ganlyn -**
- **Cau Llyfrgell Cemaes, Llyfrgell Moelfre a Llyfrgell Niwbwrch gan barhau i ymchwilio i gamau lliniaru fel pwyntiau mynediad cymunedol a/neu gynyddu darpariaeth symudol yn yr ardaloedd a effeithir gan benderfyniadau i gau.**
- **Datblygu model cydweithredol gyda Chanolfan Biwmares o ran Llyfrgell Biwmares.**
- **Cael ymrwymiad cadarn gan Gyngor Cymuned Llanfaelog mewn perthynas â Llyfrgell Rhosneigr erbyn 31 Ionawr, 2018. Os na ddarperir unrhyw ymrwymiad cadarn, yna mynd ymlaen i’w chau fel yn y pwynt bwled cyntaf.**
- **Gweithredu Opsiwn C o fewn costau drafft y Gwasanaeth Llyfrgell (Atodiad 5 yr adroddiad) – cadw 22 awr, sef ⅔ y staffio o’r llyfrgelloedd a fyddai’n cau o fewn y strwythur staffio newydd i helpu i liniaru a chynnal perfformiad yn erbyn safonau staffio’r WPLS.**

DRAFFT

## 7. LLWYBR DATBLYGU AR GYFER TAI CYNGOR – PECYNNAU DYLUNIO AC ADEILADU GAN DDATBLYGWYR

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo datblygu tai cyngor newydd trwy becyn dylunio ac adeiladu gan ddatblygwyr sy'n dirfeddianwyr.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau fod prynu tai newydd a adeiladwyd gan ddatblygwyr preifat yn cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru fel dull derbyniol o ddatblygu tai cymdeithasol newydd ac fe'i defnyddir yn rheolaidd gan Gymdeithasau Tai. Ystyrir bod y dull hwn o weithredu'n ffordd o gyflenwi tai newydd yn gymharol gyflym lle mae'r risg sy'n gysylltiedig â datblygu tai newydd yn aros gyda'r datblygwr. Byddai'n ddull derbyniol o helpu'r Cyngor gyda'i raglen i ddatblygu 195 o dai Cyngor newydd dros y pedair blynedd nesaf. Bydd y Cyngor yn cytuno'r gofynion o ran dyluniad a manyleb unrhyw ddatblygiadau tai a byddai angen i unrhyw dai Cyngor newydd a brynir gydymffurfio â gofynion ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer tai cymdeithasol. Dyluniwyd canllawiau cost Llywodraeth Cymru i adlewyrchu prisiau tir a thai ledled Cymru a derbynnir ei fod yn darparu gwerth am arian ar gyfer y manylebau a nodir yn y gofynion ansawdd datblygu. Byddai unrhyw ddatblygiadau tai Cyngor a thai cymdeithasol newydd yn disgyn o fewn y Cyfrif Refeniw Tai; felly, dylid nodi yn y Cyfansoddiad y byddai'r Pennaeth Gwasanaethau Tai yn gyfrifol am unrhyw ychwanegiad at asedau o'r fath neu am gael gwared â nhw. Dylai'r Cyngor ddefnyddio ei gap benthyca – tua £13m – oherwydd fel arall mae risg y bydd Llywodraeth Cymru yn ei drosglwyddo i Awdurdod Lleol arall yng Nghymru.

Dywedodd Rheolwr Busnes y Gwasanaethau Tai fod y targed y mae'r Cyngor wedi'i osod iddo'i hun ar gyfer datblygu tai Cyngor newydd yn heriol ac yn un y bydd y Cyngor yn ceisio ei gyflawni nid yn unig trwy ddilyn y dull uchod ond hefyd trwy adeiladu ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor a thrwy brynu'n ôl rhywfaint o'r tai y bu'n berchen arnynt gynt. Mae prynu tai Cyngor newydd a adeiladwyd gan ddatblygwyr preifat trwy becynnau dylunio ac adeiladu yn gyfrwng gwerthfawr a llwyddiannus a ddefnyddir gan gymdeithasau tai i ddatblygu tai cymdeithasol newydd. Fodd bynnag, pe bai'r Cyngor yn mabwysiadu'r dull hwn o ddatblygu tai Cyngor, byddai angen diwygio Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn bodloni Gwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor bod yr Awdurdod yn dal i gydymffurfio â'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol. Byddai'r broses o ddewis safleoedd yn cael ei gweithredu mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Tiroedd ac Asedau a byddai'n rhan allweddol o gyflawni'r Strategaeth Siapio Lleoedd. Ar ôl nodi angen am dai newydd, gofynnid am arweiniad cyfreithiol i sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau'n cael eu gweithredu'n briodol wedyn.

Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith y cynnig a nododd y canlynol -

- Nododd y Pwyllgor Gwaith y bydd angen mewnbwn proffesiynol i weithredu'r cynnig, sef mewnbwn y mae'r Cyngor yn ei gomisiynu gan y sector preifat fel rheol, a hynny'n ôl fformiwla ar sail cost ganrannol o werth y prosiect. Er budd cael gwerth am arian, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith a oedd modd i'r Swyddog Adran 151 ymchwilio i ddichonoldeb cyflogi rhai gweithwyr proffesiynol o fewn yr adran e.e. Syrfewyr Meintiau

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 y bydd y Cyngor, ar ôl iddo wneud y gwaith i ddewis safleoedd mewn ymgynghoriad â'r Grŵp

Tiroedd ac Asedau, yn gallu gweld faint o ddiddordeb sydd gan gwmnïau / datblygwyr mewn gweithio gyda'r Cyngor i ddatblygu'r rhaglen adeiladau tai Cyngor newydd ac i lunio cynllun yn unol â hynny. Yn dibynnu ar y diddordeb a fynegir, gall y Cyngor wedyn asesu a oes digon o waith i gyfiawnhau cyflogi gweithwyr proffesiynol yn hytrach na thalu ffioedd proffesiynol i arbenigwyr o'r tu allan i'r Cyngor.

- Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith a fyddai'r rhaglen i ddatblygu tai Cyngor newydd yn y ffordd a gynigir yn golygu y byddai angen staff ychwanegol ar gost i'r gyllideb.

  Dywedodd Rheolwr Busnes y Gwasanaethau Tai fod tîm datblygu newydd wedi'i sefydlu eisoes yn y Gwasanaethau Tai dan arweiniad y Rheolwr Datblygu Tai. Mae swydd dechnegol nad yw wedi ei llenwi ar hyn o bryd o fewn strwythur staffio'r Gwasanaethau Tai sy'n gysylltiedig â datblygu tai Cyngor. Ystyrir bod digon o gapasiti o fewn y tîm hwn i allu arwain ar raglen ddatblygu fel yr un a gynigir. Mae costau strwythur y Gwasanaethau Tai wedi'u cynnwys o fewn y Cynllun Busnes 30 mlynedd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai; caiff y cynllun hwn ei gymeradwyo'n flynyddol. Cadarnhaodd y Swyddog na fyddai cymeradwyo'r cynnig uchod yn golygu costau staff ychwanegol – mae'r adnoddau staff ac ariannol eisoes yn eu lle i allu arwain ar y rhaglen hon.

- Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad ar y broses o ddewis safleoedd. Nododd y Pwyllgor Gwaith hefyd na ddylai cymeradwyo'r cynllun uchod wyro sylw'r Cyngor oddi wrth ddilyn yr opsiynau eraill sydd ar gael ar gyfer datblygu tai Cyngor e.e. trwy adeiladu ar ei dir ei hun, gan gynnwys defnyddio tir dros ben ar stadau tai a allai fod o gymorth mawr i helpu pobl leol sy'n dymuno byw o fewn eu cymunedau a hefyd trwy barhau i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

  Dywedodd Rheolwr Busnes y Gwasanaethau Tai fod y Gwasanaeth Tai wedi bod yn nodi ardaloedd lle mae angen tai fel rhan o'r Strategaeth Siapio Lle – y strategaeth hon fydd y ffactor sy'n dylanwadu ar benderfynu ym mha ardaloedd y dylid codi tai. Bydd rhaglen datblygu tai newydd y Cyngor yn cael ei lansio ar sail gwahodd cwmnïau a datblygwyr sy'n berchen ar dir / safleoedd mewn ardaloedd lle mae'r Cyngor wedi nodi bod angen tai i gysylltu â'r Gwasanaeth Tai i drafod y cyfleoedd. O ran eiddo gwag, mae'r Gwasanaeth wedi cyflogi ail Swyddog Cartrefi Gwag ac mae cynlluniau pendant ar waith i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd gan gynnwys trwy gynnig cymhellion i berchnogion eiddo. Cadarnhaodd y Swyddog ymhellach fod y Gwasanaeth Tai wedi nodi'r holl dir sydd ym mherchenogaeth y Cyngor, gan gynnwys lleiniau o dir ar stadau tai Cyngor. Byddai codi tai ar dir y Cyngor yn fwy cost-effeithiol a dyna yw bwriad y Gwasanaeth.

**Penderfynwyd -**

- **Cymeradwyo prynu tai newydd wedi'u hadeiladu gan ddatblygwyr preifat drwy becynnau dylunio ac adeiladu ar diroedd sydd ym mherchnogaeth datblygwyr preifat.**
- **Argymell i'r Cyngor Llawn bod Cynllun Hawliau Dirprwyol y Cyngor yn cael ei addasu i adlewyrchu'r hawliau ychwanegol y byddai eu hangen i weithredu trosgwlyddiadau o'r math hwn.**

DRAFT

**8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**Penderfynwyd peidio â chau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd bwriedir gohirio ystyried yr eitem ganlynol ar hyn o bryd.**

**9. MODERNEIDDIO YSGOLION – ARDAL LLANGEFNI: ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL / ACHOS BUSNES AMLINELLOL**

*Ar ôl datgan diddordeb sy'n rhagfarnu yn y mater hwn, gadawodd y Cynghorydd Richard Dew y cyfarfod.*

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant ei fod yn argymell gohirio rhoi sylw i'r mater hwn tan ddyddiad diweddarach yn sgil derbyn gwybodaeth newydd a fydd yn effeithio ar Achos Amlinellol Strategol Band B ac sy'n golygu bod angen adolygu'r achos.

**Penderfynwyd gohirio ystyried y mater hwn tan ddyddiad diweddarach.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**

DRAFT

# PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr, 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Dr Gwynne Jones (Prif Weithredwr) (Cadeirydd)<br><br>Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Cynghorydd Richard Griffiths (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)<br>Cynghorydd Margaret M. Roberts (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)<br>Dr Caroline Turner (Prif Weithredwr Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Fôn Roberts (Pennaeth Gwasanaethau Plant)<br>Llyr Bryn Roberts (Pennaeth Gwasanaeth – Corfforaethol a Phartneriaethau)<br>Gwyneth M. Hughes (Uwch Reolwr Safonau Ysgol a Chynhwysiant)<br>Rona Jones (Swyddog Adolygu Annibynnol)<br>Huw Owen (Swyddog Adolygu Annibynnol)<br>Dawn Owen (Arweinydd Ymarfer Tîm Lleoli Plant)<br>Dawn Hutchinson (Arweinydd Ymarfer Tîm Teuluoedd Gwydn)<br>Heulwen Owen (Swyddog Cyswllt Addysg PDG)<br>Llinos Edwards (Nyrs PDG – BIPBC)<br>Llinos Parry (Swyddog Recriwtio a Marchnata – Maethu)(ar gyfer eitem 3)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg), Cynghorydd Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau) Liz Fletcher (BIPBC), Douglas Watson (Cymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn). |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i’r cyfarfod hwn o’r Panel Rhiant Corfforaethol; estynnodd groeso arbennig i Dawn Hutchinson a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf o’r Panel fel Arweinydd Ymarfer yn y Tîm Teuluoedd Gwydn ac i Mr Fôn Roberts yn ei rôl newydd fel Pennaeth Gwasanaethau Plant.

### 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### 2 COFNODION CYFARFOD 10 GORFFENNAF, 2017

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2017 ac fe gadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

### 3 MATERION YN CODI

- **Recriwtio a Chadw Gofalwyr Maeth**

Rhoddodd Llinos Parry, Swyddog Recriwtio a Marchnata – Maethu, gyflwyniad a oedd yn darparu trosolwg o Wasanaeth Maethu Ynys Môn. Roedd y cyflwyniad yn

canolbwyntio ar y dulliau recriwtio ynghyd â strategaethau ar gyfer cadw y gofalwyr maeth cyfredol a phrofiadol yn y gwasanaeth.

Tynnodd y Swyddog sylw at yr ystyriaethau canlynol –

- Bod ymholiadau mewn perthynas â bod yn ofalwyr maeth wedi bod ar eu huchaf yn 2016/17 pryd gwelwyd cynnydd o 154% yn nifer yr ymholiadau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (129 o gymharu â 50 yn 2015/16). Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i'r hysbysebu ar-lein a ddigwyddodd am y tro cyntaf ac a arweiniodd at y ddau chwarter prysuraf i'r gwasanaeth.
- Yn hanesyddol, mae'r galw o ran ymholiadau gofal maeth yn amrywio – mae dechrau'r haf yn ystod y Bythefnos Gofal Maeth yn gyfnod prysur ar gyfer ymholiadau fel y mae dechrau'r hydref oherwydd y flwyddyn ysgol newydd, felly hefyd dechrau'r Flwyddyn Newydd.
- Bod y gostyngiad o ran ymholiadau hyd yma yn 2017/18 wedi ei ragweld; nid yw'r gwasanaeth wedi buddsoddi i'r un graddau ar hysbysebu ar-lein ac mae'r hyn y mae'r Gwasanaethau Plant yn canolbwyntio arno wedi symud i feysydd eraill.
- Bod ansawdd yr ymholiadau yr un mor bwysig â'r niferoedd. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn cynnal mwy o ymweliadau fesul ymholiad yn ystod 2017/18 gyda hynny'n trosi i 1 ymweliad ar gyfer pob 3.4 ymholiad (o gymharu ag 1 ymweliad ar gyfer pob 5.4 ymweliad yn 2016/17) ac 1 cais ar gyfer pob 15.5 ymholiad (o gymharu ag 1 cais ar gyfer pob 16.1 ymholiad yn 2016/17).
- Mae'r gwasanaeth wedi gweld symud i ffwrdd o'r dulliau holi mwy traddodiadol e.e. digwyddiadau wyneb yn wyneb megis Sioe Môn i ymholiadau ar-lein e.e. Facebook. Yn 2014/15, roedd 36% o ymholiadau yn rhai wyneb yn wyneb gyda'r elfen ar-lein yn cyfrif am 6% yn unig o ymholiadau. Fodd bynnag, yn 2016/17, roedd 5% o ymholiadau yn rhai wyneb yn wyneb a 57% yn rhai ar-lein. Mae'r datblygiad hwn mewn perthynas â dulliau ar-lein yn rhoi'r sgôp i'r ddatblygu mewn gwahanol ffyrdd drwy, er enghraifft, sefydlu gwefan unigol (yn hytrach na bod yn rhan o'r wefan gorfforaethol) yn amodol ar argaeledd adnoddau. Fel gyda gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol, mae asiantaethau maethu annibynnol yn symud i fod fwyfwy ar-lein ac yn symud oddi wrth y ffynonellau mwy traddodiadol o wybodaeth e.e. stondinau gwybodaeth.
- Bod yr awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru wedi creu ymgyrch recriwtio maethu yn cynnwys gwefan "drws ffrynt", tudalen Facebook a hysbysebion; hysbysebion Google; hysbysebion radio a datganiadau i'r wasg rhanbarthol mewn ymgais i greu diddordeb mewn maethu yn lleol. Y llynedd, canlyniad hyn oedd 114 o ymholiadau gyda 5 yn mynd ymlaen i gael eu hasesu a/neu eu cymeradwyo (graddfa drosiant o 4%) tra eleni cafwyd 75 o ymholiadau yn arwain at gynnal 1 asesiad. Er nad oes unrhyw geisiadau wedi'u cymeradwyo hyd yma, mae cyswllt yn cael ei gynnal gyda nifer o rai eraill a allai fod â diddordeb. O ran yr adborth o'r ymholiadau a wnaed, nid oedd tua ⅓ o'r rhai a fynegodd ddiddordeb yn gymwys am un rheswm neu'r llall – nid oeddent yn barod i fod yn ofalwyr maeth neu nid oedd ganddynt ddigon o le adref neu roeddent eisoes yn brysur â phlant ifanc. Roedd eraill yn rai a oedd yn holi am wybodaeth ac yn mynd drwy'r camau cyntaf o wneud ymholiadau. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn ceisio dod o hyd i gysylltiadau a bydd rhai ymholiadau'n cael eu dilyn i fyny o bryd i'w gilydd.
- Bod Ynys Môn yn un o 4 tîm maethu awdurdod lleol yng Nghymru a ddewiswyd i gymryd rhan yn y cynllun peilot recriwtio a chadw gofalwyr maeth – Prosiect Peilot TFN. Mae cynllun gweithredu'r prosiect yn cynnwys cynnal ymchwiliad; mabwysiadu agwedd Dull Gwerthoedd (agwedd lle bydd y boblogaeth yn cael ei rhannu yn ôl gwerthoedd a lle bydd 3 grŵp craidd yn cael eu hadnabod, pob un â'i nodweddion, gwerthoedd ac agweddau ei hun – arloeswyr, ymchwilwyr a setlwyr); sefydlu grŵp recriwtio Gofalwyr Maeth a chynllun cyfeillio.

- Mae'r heriau ar gyfer y Gwasanaeth Maethu yn amrywiol –

    - Mae angen y sgiliau a'r profiad priodol ar ofalwyr er mwyn iddynt allu bodloni anghenion y plant a'r bobl ifanc y byddant yn gofalu amdanynt;
    - Llai o gyfeiriadau ond ar gyfer lleoliadau sy'n gynyddol heriol;
    - Adnoddau prin
    - Dim cyllideb farchnata briodol ar gyfer recriwtio;
    - Angen i bartneriaid perthnasol ar draws y gwasanaeth "brynu i mewn" i hyn – gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr ac adrannau eraill.
    - Gallai cyfnod o drawsnewid a blaenoriaethau sy'n gwrthdaro â'i gilydd o fewn y Gwasanaethau Plant effeithio ar allu'r tîm i weithredu'r cynllun gweithredu.
    - Datblygu pwyslais lleol o ran recriwtio'r mathau cywir o ofalwyr maeth ar gyfer anghenion lleol. Yr hyn sy'n allweddol yw bod y Gwasanaeth Maethu yn dod o hyd i'r math cywir o bobl i fod yn ofalwyr maeth.
    - Sicrhau bod y Gwasanaeth yn gwneud popeth o fewn ei allu i gadw ei ofalwyr maeth presennol drwy eu trin fel cydweithwyr proffesiynol; cynnig hyfforddiant a chefnogaeth briodol a'u talu'n ddigonol. Gall tîm o ofalwyr maeth brwdfrydig hefyd fod y dull recriwtio gorau.
    - Angen sicrhau bod y gwasanaeth yn rhoi'r pecyn cymorth gorau posibl i ofalwyr maeth er mwyn gwella ffigyrau recriwtio a chadw.

Ystyriodd y Panel y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Nododd y Panel, mewn ardal fel Ynys Môn lle mae'r ddau oedolyn / rhiant yn gweithio am fod yn rhaid iddynt, ei bod hi'n anodd iawn darparu dewis o leoliadau lleol ac unigolion sy'n gallu maethu ar sail amser llawn. Dywedodd y Swyddog Recriwtio a Marchnata – Maethu bod deinameg newidiol y sefyllfa deuluol yn un o'r heriau y mae'r Gwasanaeth Maethu wedi ei gydnabod ac y mae'n ei wynebu. Mae angen cynnal trafodaeth am ffyrdd o gefnogi teuluoedd maeth mewn ffordd sy'n eu galluogi i fodloni anghenion y plant yn eu gofal tra'n sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn gost effeithiol. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant bod y Gwasanaeth yn edrych i ymchwilio i'r opsiwn o ofalwyr maeth cyflogedig sef trywydd sydd eisoes wedi'i dilyn gan ddau awdurdod lleol. Cyn hynny, bydd ymgyrch recriwtio arall yn ystod Pythefnos Maethu mis Mai, 2018 lle bydd yr holl adnoddau staff posibl yn cael eu defnyddio er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r hyn y mae maethu'n ei olygu a hynny er mwyn ennyn diddordeb ac annog gofalwyr maeth posibl i gysylltu.
- Nododd y Panel bod yn rhaid dod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o ddatrys y broblem o ddiffyg gofalwyr maeth ac er mwyn ceisio datblygu eu diddordeb ymhellach. Awgrymwyd fod angen gwneud gwell defnydd o deuluoedd maeth presennol er mwyn cynorthwyo recriwtio e.e. drwy sefydlu cylch o ffrindiau. Dywedodd y Swyddog Recriwtio a Marchnata – Maethu fod un o'r cynlluniau o dan y prosiect peilot a gyfeirir ato uchod yn seiliedig ar fuddion am "gyfeirio ffrind".
- Gofynnodd y Panel am gadarnhad o'r raddfa trosiant ar gyfer gofalwyr maeth mewnol ac a oedd hyn yn cyfrannu tuag at y diffyg o ofalwyr maeth addas. Dywedodd y Swyddog Recriwtio a Marchnata – Maethu nad oedd nifer y gofalwyr maeth a adawodd y gwasanaeth yn Ynys Môn wedi bod yn uchel iawn a bod y ffigwr yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ffigwr hwnnw wedi bod ychydig yn uwch eleni a hynny am amrywiaeth o resymau gan gynnwys trosiant naturiol o ganlyniad i oedran/ymddeoliad.
- Gofynnodd y Panel am gadarnhad o'r broses cymeradwyo gofalwyr maeth o ran hyd y broses o adeg dangos diddordeb i ddechrau i gael cadarnhad pendant. Dywedodd y Swyddog Recriwtio a Marchnata – Maethu mai'r nod yw na ddylai'r broses gymeradwyo

DRAFT

gymryd mwy na 6 mis ond bod gwaith dadansoddi wedi dangos y gall y broses gymryd ychydig o dan flwyddyn. Tra bo lle i wella, mae'r broses hefyd yn caniatáu ar gyfer amserlenni llysoedd ac ati.

- Nododd y Panel, er mwyn lledaenu'r neges am bwysigrwydd maethu a'r hyn mae gofalwyr maeth yn ei wneud, y byddai'n ddefnyddiol petai cyflwyniad tebyg yn cael ei roi yn un o'r sesiynau Briffio i Aelodau Etholedig yn ogystal â'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned. Byddai hyn o gymorth er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o faethu ac er mwyn lledaenu'r neges am faethu a'r gwahaniaeth y gall gofalwyr maeth ei wneud i fywydau plant yn eu gofal.

**GWEITHRED A GYNIGIR: Pennaeth Gwasanaethau Plant i drefnu bod y cyflwyniad ar recriwtio a Chadw Gofalwyr Maeth yn cael ei roi i Sesiwn Friffio i Aelodau Etholedig a chyfarfod o'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned.**

**4 TÎM TEULUOEDD GWYDN**

Rhoddodd Dawn Hutchinson, Arweinydd Ymarfer y Tîm Teuluoedd Gwydn gyflwyniad i'r Panel ar rôl a gwaith y Tîm Teuluoedd Gwydn.

Cyfeiriodd y Swyddog at yr ystyriaethau allweddol canlynol:

- Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn yn cynnwys Arweinydd Ymarfer, 2 Weithiwr Cymdeithasol a 2 Weithiwr Cymorth.
- Nod y tîm yw atal plant rhag dod yn blant sy'n derbyn gofal pan nad yw hynny'n angenrheidiol (e.e. ar drothwy gofal); dychwelyd plant i'w cartrefi yn ystod yr 8 wythnos gyntaf o ofal (ailuno); er mwyn adolygu dychweliad diogel plant mewn gofal hirdymor (cymorth ychwanegol yn dilyn ailuno), ac yn y dyfodol, lleihad o ran natur y llety/gofal a roddir i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal (e.e. o ofal preswyl i ofal maeth i ailuno â'r teulu).
- Bod y tîm yn ceisio cyflawni ei weledigaeth yn y ffyrdd canlynol -

  - Drwy gefnogi teuluoedd 7 diwrnod yr wythnos rhwng 07:00 a 22:00 drwy ymestyn oriau swyddfa presennol ac adlewyrchu'r ffaith nad yw anghenion yn stopio y tu allan i oriau swyddfa.
  - Drwy ymyrraeth ddwys (nid drwy ddal achosion ond drwy weithio ochr yn ochr â Gweithwyr Cymdeithasol sy'n dal achosion)
  - Drwy ymyrryd mewn argyfwng teuluol
  - Drwy ymgynghori er mwyn gweld a yw sefyllfa yn briodol ar gyfer ymyrraeth a natur yr ymyrraeth angenrheidiol.
  - Drwy gynnal asesiad cychwynnol 3 diwrnod er mwyn gwerthuso cymhelliant rhieni a'u gallu i newid ac ati, ac i ddilyn:
    - Cam 1 – 8-10 wythnos o ymyrraeth ddwys
    - Cam 2 – hyd at flwyddyn o'r pwynt ymgysylltu cychwynnol

- Bod arferion gwaith y tîm, yn seiliedig ar ba blant sydd ar drothwy gofal a'r tebygolrwydd o risgiau a asesir yn cynnwys datblygu meini prawf cymhwysedd gyda golwg ar sicrhau bod y teuluoedd cywir yn derbyn y gefnogaeth gywir ar yr amser cywir; ymgynghoriadau; dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt; casglu data sy'n dynodi pa mor dda y mae'r tîm yn gwneud ei waith yn ogystal â pholisïau, gweithdrefnau a phrotocolau.
- Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn newydd ei sefydlu ac mae'r staff yn y broses o sefydlu'n gadarn arferion a gweithdrefnau rheoli'r Awdurdod yn eu harferion gwaith eu hunain. Maent yn datblygu hunaniaeth ac yn datblygu perchnogaeth gadarnhaol o'r gwaith.
- Hyd yma, mae'r tîm wedi cynnal ymgynghoriad Teuluoedd Gwydn gyda 5 o deuluoedd ac 8 o blant, pob un ohonynt wedi ei hasesu fel rhai a oedd yn briodol ar

gyfer ymyrraeth oherwydd y dybiaeth eu bod mewn perygl o ddod yn blant sy'n derbyn gofal. Mae tri theulu a 5 o blant wedi derbyn ymgynghoriadau Therapiwtig. O ran ymyraethau, cafwyd 1 achos o ailuno o ofal maeth; 1 achos o ailuno o ofal preswyl; 1 achos o atal uwch-gyfeirio er mwyn sicrhau llety; 5 achos trothwy gofal (aros adref) ac 1 achos o fabwysiadu.

- O ran datblygiad parhaus y Tîm, bydd gweithgareddau'r dyfodol yn cynnwys adnabod a chyfnerthu'r defnydd o fodelau; adnabod a chadarnhau ymarfer; comisiynu pecynnau hyfforddiant ac ymgymryd â chynllun hyfforddiant; gwella ansawdd y ceisiadau ar gyfer Ymyraethau Teuluoedd Gwydn a gwella ansawdd asesiadau a dadansoddiadau deiliaid achosion yn arwain at benderfyniad i wneud cais am ymgynghoriad Teuluoedd Gwydn.
- O ran datblygiad parhaus y gwasanaeth, bydd gweithgareddau'r dyfodol yng nghyd-destun y Tîm yn cynnwys datblygu prosesau marchnata a chyfathrebu a hysbysu'r gweithlu ehangach ac asiantaethau partner am rôl y Tîm Teuluoedd Gwydn. Yng nghyd-destun y gwasanaeth ehangach ac arferion datblygu, bydd y Tîm yn ceisio datblygu, a gyda chymeradwyaeth Pennaeth y Gwasanaethau plant, gweithredu cynnig Cynllun Hyfforddi sy'n canolbwyntio ar Wasanaethau plant yn y lle cyntaf ond a fydd wedi hynny yn canolbwyntio ar adrannau eraill ac asiantaethau partner allanol.
- Mae nodau'r Tîm Teuluoedd Gwydn yn y dyfodol yn canolbwyntio ar osgoi costau, lleihau costau a darpariaeth amserol o wasanaeth arbenigol o safon uchel i blant a'u teuluoedd.

Dywedodd Arweinydd Ymarfer y Tîm Teuluoedd Gwydn fod ymagwedd y Tîm yn seiliedig ar drin unigolion fel "plant" yn hytrach nag "achosion" ac o geisio adeiladu teulu o amgylch plant sydd ar drothwy gofal fel y gallant gael yr un profiadau â'u cyfoedion.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant mai'r bwriad yw defnyddio rhywfaint o arian grant Llywodraeth Cymru i ariannu staff ychwanegol ar gyfer y Tîm Teuluoedd Gwydn yn ogystal â darparu cymorth cynnar ac amserol i deuluoedd i'w hatal rhag dod i mewn i'r system ofal ac mae'r Tîm hefyd yn gwneud gwaith i ddod â theuluoedd yn ôl at ei gilydd.

Nododd y Panel y wybodaeth a gyflwynwyd ac yn yr un modd â'r cyflwyniad blaenorol, argymhellodd y dylai'r cyflwyniad a wnaed gan Arweinydd Ymarfer y Tîm Teuluoedd Gwydn gael ei gyflwyno hefyd i Sesiwn Friffio ar gyfer Aelodau Etholedig er mwyn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Tîm Teuluoedd Gwydn a'i rôl yn y Gwasanaethau Plant. Nododd y Panel ymhellach y byddai'n ddefnyddiol datblygu cyswllt rhwng y Tîm ac ysgolion.

**CAMAU GWEITHREDU ARFAETHEDIG: Pennaeth y Gwasanaethau Plant i drefnu i'r cyflwyniad ar waith y Tîm Teuluoedd Gwydn gael ei wneud i Sesiwn Briffio Aelodau Etholedig.**

**5 ADRODDIADAU GWASANAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiadau gwasanaeth canlynol -

**5.1** Cyflwynwyd er sylw'r Panel, adroddiad y Swyddog Addysg LAC ar berfformiad dros y 6 mis blaenorol o fis Ebrill i fis Medi, 2017. Cyflwynwyd ar wahân ddata mewn perthynas â chanlyniadau diwedd cyfnod allweddol ar gyfer plant unigol yng ngofal yr Awdurdod.

Dywedodd y Swyddog fod y Dangosydd Perfformiad ar gyfer y cyfnod adrodd chwe mis y mae'r papur yn cyfeirio ato yn uchel iawn gyda 23 o blant wedi newid ysgolion ym mis Medi, 2017 am amryw resymau. Mater sy'n dod i'r amlwg hefyd yw'r oedi o ran sicrhau'r



DRAFT

ddarpariaeth addysgol iawn i blant yng ngofal yr Awdurdod sydd mewn lleoliadau mewn un neu ragor o ardaloedd yr awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru.

Ymhlith y pwyntiau cadarnhaol i'w nodi mae'r Gwobrau STAR a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd, 2017 a oedd yn dathlu llwyddiannau'r plant a'r bobl ifanc y mae'r Awdurdod yn gofalu amdanynt.

Ystyriodd y Panel y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaeth y pwyntiau canlynol:

- Nododd y Panel fod yr Awdurdod wedi cael ei ddewis i beilota'r Cynllun Blwch Llythyrau Porffor ar gyfer plant 5 oed (mae'r cynllun Blwch Llythyrau yn gynllun a gyflwynir ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Booktrust sydd, dros y blynyddoedd, wedi cynnwys dosbarthu pecynnau llyfrau codau lliw i blant 7 i 11 oed). Gofynnodd y Panel am eglurhad ynghylch a oedd trefniadau ar waith i fonitro canlyniadau'r cynllun. Hysbyswyd y Panel y bydd holiaduron "cyn" ac "ar ôl" yn cael eu hanfon at ofalwyr maeth mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal. Awgrymwyd hefyd y gallai fod yn ddefnyddiol nodi'r garfan hon o blant sy'n rhan o'r cynllun a gwneud darn o waith ar eu hagwedd tuag at ddysgu.
- O ran nifer y plant sydd wedi newid ysgolion yn ystod y cyfnod, nododd y Panel, ar ôl diystyru'r 6 unigolyn sydd wedi trosglwyddo o addysg gynradd i uwchradd a'r 3 unigolyn sydd wedi newid ysgolion oherwydd cau ysgol sy'n brofiadau cyffredin i unrhyw blant ysgol ac nid yn unigryw i blant sy'n derbyn gofal, bod y cyfanswm yn dod i lawr i 14 sy'n golygu bod y perfformiad canrannol yn erbyn y dangosydd yn well.
- Nododd y Panel y wybodaeth sy'n ymwneud â pherfformiad addysg y boblogaeth sy'n Derbyn Gofal mewn perthynas â phwyntiau cymhwyso a gofynnodd am eglurhad o'r disgwyliadau o ran pwyntiau ar gyfer plant sy'n derbyn o'u cymharu â'r rhai ar gyfer disgyblion prif ffrwd. Hysbyswyd y Panel bod galluoedd plant unigol yn y garfan sy'n derbyn gofal yn amrywio a bod raid ystyried hefyd lle mae pob plentyn yn dechrau; fodd bynnag, mewn termau addysgol yn unig, y targed ar gyfer cyrhaeddiad cyffredinol yw 5 TGAU. Mae'n deg nodi bod tystiolaeth yn dangos nad yw canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal cystal â rhai eu cyfoedion oherwydd bod eu profiadau bywyd wedi effeithio ar eu gallu i wneud y mwyaf o'u haddysg. Nododd y Panel ymhellach y byddai'n ddefnyddiol canfod i ba raddau y mae canfyddiadau adroddiad y Swyddog Cyswllt Addysg LAC yn cyd-fynd â disgwyliadau'r ysgol ar gyfer y grŵp hwn o blant.
- Nododd y Panel bod rhan o'r Grant Amddifadedd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael ei defnyddio i brynu 15 gliniadur i ddarparu cymorth addysgol. Gofynnodd y Panel am eglurhad o'r gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau bod y gliniaduron yn cael eu defnyddio'n ddiogel; roedd hefyd yn ceisio sicrwydd bod ganddynt feddalwedd diogelwch briodol a bod gofalwyr maeth yn cael cymorth i sicrhau bod y plant yn eu gofal yn parhau i fod yn ddiogel ar-lein. Hysbyswyd y Panel bod y 15 gliniadur wedi eu prynu trwy Wasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant Gwynedd a Môn. Mae cytundeb rhwng y gwasanaeth, gofalwyr maeth a'r plant sy'n eu gofal mewn perthynas â'u defnydd. Yn ogystal, mae Gofalwyr Maeth yn cael hyfforddiant ar dechnoleg trwy'r Gwasanaeth Lleoli Plant; yn y sesiwn ddiweddaraf, edrychwyd ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn ogystal ag 'apps' ar-lein - rhoddodd SCCH arweiniad ar yr 'apps' mwyaf poblogaidd gyda phlant a phobl ifanc a helpodd i nodi'r risgiau cysylltiedig. Mae deialog barhaus rhwng y gwasanaeth a'i Ofalwyr Maeth am y defnydd o dechnoleg a'r cyfrifoldebau priodol.
- Nododd y Panel y wybodaeth a ddarparwyd ar wahân o ran cyraeddiadau addysgol plant unigol sydd yng ngofal yr Awdurdod trwy Gyfnodau Allweddol 2, 3 a 4. Roedd y Panel wedi ei blesio gyda'r canlyniadau yn enwedig oherwydd y gwyddys bod bwlch cyrhaeddiad rhwng plant sy'n derbyn gofal a'u cyfoedion a bod llawer o bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant). Pwysleisiodd y Panel ei bod yn bwysig i'r Awdurdod, fel rhiant corfforaethol, barhau i ddarparu cefnogaeth a chyfleoedd i'r holl unigolion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad i'w

galluogi i barhau â'u haddysg neu yn achos y rhai yn CA4, i symud ymlaen i addysg bellach a / neu feysydd gyrfa o'u dewis.

**Cytunwyd i dderbyn adroddiad y Swyddog Cyswllt Addysg LAC ar gyfer Chwarter 2 2017/18.**

**CAMAU YCHWANEGOL A GYNIGIWYD: Y Cadeirydd ar ran y Panel Rhiant Corfforaethol i gydnabod llwyddiant yr unigolion hynny yn CA4 sydd wedi cwblhau eu TGAU ac i ddymuno'n dda iddynt yn eu llwybrau yn y dyfodol.**

**5.2** Cyflwynwyd er sylw'r Panel, adroddiad y Nyrs LAC ar gyfer Chwarter 2 2017/18.Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth ar sefyllfa Chwarter 2 mewn perthynas â chynnal asesiadau iechyd cychwynnol ac adolygu gofal iechyd.

Diweddarodd y Nyrs LAC y Panel ar y sefyllfa o ran trefniadau staffio yn y gwasanaeth iechyd, yn enwedig o safbwynt nyrsys ysgol a'r cynnydd o ran gweithredu'r llwybr iechyd emosiynol. Cadarnhaodd y Swyddog bod nifer yr apwyntiadau ymgynghori CAMHS gyda Dr Trish Girling (Seicolegydd Clinigol, CAMHS) yn parhau i fod yn dda. Cynigiodd y dylid gwahodd CAMHS i fynychu'r Panel Rhiant Corfforaethol yn flynyddol i roi diweddariad ar y gwasanaethau sydd ar gael yn lleol i blant sy'n derbyn gofal, pobl ifanc, gofalwyr a staff yr Awdurdod.

Nododd y Panel y wybodaeth a nododd hefyd y byddai'n fanteisiol sefydlu cyswllt rhwng CAMHS a'r Tîm Teuluoedd Gwydn newydd.

**Cytunwyd i dderbyn adroddiad y Nyrs LAC ar gyfer Chwarter 2 2017/18.**

**GWEITHREDU YCHWANEGOL A GYNIGIWYD:**

- **CAMHS i gael gwahoddiad i'r Panel Rhiant Corfforaethol unwaith y flwyddyn.**
- **Yr atodiad i adroddiad y Nyrs LAC: *Ymwneud yn Fwy – Canllaw ar gyfer Pobl Ifanc i Iechyd a Llesiant* i'w rannu er gwybodaeth gyda'r Aelodau Etholedig sy'n gwasanaethu ar y Panel Gwella Gwasanaethau Plant**

**5.3** Cyflwynwyd adroddiad Arweinydd Ymarfer y Tîm Lleoli Plant ar gyfer Chwarteri 1 a 2 2017/18 ar gyfer ystyriaeth y Panel. Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth am y sefyllfa o ran niferoedd, mathau a chyfeiriadau lleoliadau yn ystod y cyfnod, cynnydd o ran asesiadau, recriwtio a chadw gofalwyr maeth a gweithio rhanbarthol a hefyd y pwysau sydd ar y gwasanaeth, yn enwedig mewn perthynas â'r gallu i asesu.

Ystyriodd y Panel y wybodaeth a gyflwynwyd a rhoddodd sylw arbennig i'r sefyllfa o ran Gofalwyr Maeth gan wneud y pwyntiau canlynol -

- Nododd y Panel fod camddealltwriaeth wedi codi mewn perthynas â lwfansau gofalwyr maeth. Pwysleisiodd y Panel bwysigrwydd sicrhau cyfathrebu da rhwng yr Awdurdod a'i ofalwyr maeth a hefyd i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod yr Awdurdod yn ceisio cynyddu'r nifer o ofalwyr maeth sydd ganddo a'i fod yn edrych ar ffyrdd o wneud hynny. Byddai cael cefnogaeth Aelodau Etholedig yn hyn o beth yn ddefnyddiol, felly, mae angen sicrhau bod Aelodau Etholedig yn wybodus am drefniadau gofal maeth a'r trefniadau cysylltiedig.
- Nododd y Panel y gallai fod yn ddefnyddiol hefyd i geisio canfod a oes patrwm daearyddol mewn perthynas â recriwtio gofalwyr maeth, h.y. a yw gofalwyr maeth yn fwy tebygol o ddod o rai ardaloedd penodol o'r Ynys yn fwy nag eraill. Hysbyswyd y Panel bod prinder cyffredinol o bobl sy'n fodlon bod yn ofalwyr maeth; bydd gwaith prosiect peilot TFN yn cynnwys edrych ar fanylion i helpu'r Awdurdod i dargedu ymgyrchoedd recriwtio yn well ac i sicrhau'r bobl iawn ar gyfer y plant iawn.
- Nododd y Panel yr angen i sicrhau bod gofalwyr maeth yn cael eu talu'n briodol am y gwaith a wnânt a'u bod yn cael eu hystyried fel cyd-weithwyr proffesiynol.

DRAFT

- Nododd y Panel y defnydd cynyddol a wneir o’r ddarpariaeth cyfeillion a theulu. Hysbyswyd y Panel bod y plant sy’n cael gofal drwy’r ddarpariaeth hon bellach wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau ystadegol oherwydd fod gan yr Awdurdod gyfrifoldeb cyfreithiol amdanynt; mae'r rhain yn ychwanegu at y niferoedd er ei bod yn bosibl eu bod yn derbyn gofal o fewn eu cymunedau - os bydd y plant yn y lleoliadau hyn yn ogystal â'r rhai sydd mewn gofal seibiant yn cael eu diystyru (cyfanswm o 53 yn Chwarter 1 2017/18), mae nifer y plant sy'n derbyn gofal drwy ddarpariaeth arall yn dod i 87 yn y cyfnod hwn. Yn ogystal, mae nifer y lleoliadau ffrindiau a theulu yn Ynys Môn yn uwch yn draddodiadol. Mae'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol yn edrych ar briodoli statws gwahanol i ofalwyr ffrindiau a theulu i’r statws a roddir i ofalwyr maeth oherwydd bod eu hamgylchiadau a'u rhesymau dros faethu yn wahanol i'r rhai sy'n dewis maethu yn broffesiynol.
- Nododd y Panel fod y data yn awgrymu mai dim ond nifer gymharol fach o'r atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau dichonoldeb teuluol sy'n dwyn ffrwyth sy'n golygu bod adnoddau sylweddol yn cael eu defnyddio i gyflawni canlyniadau cyfyngedig. Hysbyswyd y Panel bod y Llysoedd yn mynnu bod awdurdodau yn asesu nifer o aelodau o deuluoedd y ddau riant a all arwain at yr angen i gynnal mwy o asesiadau. Yn ddelfrydol, dylai fod mecanwaith ar gyfer sgrinio darpar ofalwyr fel bod modd tynnu'r rhai nad ydynt yn amlwg yn cwrdd â'r meini prawf o'r broses ar y cychwyn, gan arbed amser ac adnoddau.

**Cytunwyd i dderbyn adroddiad Arweinydd Ymarfer y Tîm Lleoli Plant ar gyfer Chwarteri 1 a 2 2017/18.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**6 CYFARFOD NESAF Y PANEL**

Nodwyd bod cyfarfod nesaf y Panel wedi'i drefnu ar gyfer 2:00 pm ddydd Llun, 19 Mawrth, 2018.

**Dr Gwynne Jones**
**Cadeirydd**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **29 Ionawr 2018** |
| **Pwnc:** | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaenraglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaenraglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Chwefror – Medi 2018;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i chylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Bydd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn llywio rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith: Chwefror – Medi 2018. |

| **G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Chwefror – Medi 2018

Diweddarwyd 17 Ionawr 2018

Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaenraglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaenraglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Chwefror – Medi 2018** ar y tudalennau dilynol.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2018

Diweddarwyd 17 Ionawr 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Chwefror 2018** | | | | | | |
| 1 | **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig** | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Chwefror 2018 | |
| 2 | **Strategaeth Iechyd Meddwl – Bwrdd Iechyd** | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Chwefror 2018 | |
| 3 | **Dileu Dyledion sydd dros £5,000 mewn gwerth**<br><br>Cymeradwyo dileu dyledion. | Deilydd Portffolio Cyllid a'r Swyddog Adran 151 | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>28 Chwefror 2018 | |
| | | | | | | | |
| 4 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2018

Diweddarwyd 17 Ionawr 2018

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2017/18 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 6 | **Cyllideb 2018/19 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | 5 Chwefror 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | 28 Chwefror 2018 |
| 7 | **Ffioedd a Thaliadau 2018/19** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 8 | **Arian Wrth Gefn**<br><br>Diweddariad o'r sefyllfa mewn perthynas ag Arian Wrth Gefn. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2018

Diweddarwyd 17 Ionawr 2018

| | Y pwnc a'i *gategori **a** beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Polisi Rhyddhad Dewisol rhag y Dreth Fusnes**<br><br>Mabwysiadu polisi newydd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith o ran manylu ar y rhyddhad ychwanegol rhag y dreth fusnes i'w ddyrannu i elusennau a sefydliadau sydd ddim yn gwneud elw | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | 1 Rhagfyr 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 10 | **Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | 28 Chwefror 2018 |
| 11 | **Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl 2018/19**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 12 | **Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2018/19**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |

Tudalen 23

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2018

Diweddarwyd 17 Ionawr 2018

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2018/19**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 14 | **Rhenti 2018/19** | | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 15 | **Cynllun Rhanbarthol Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru**<br><br>Cymeradwyaeth. | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | Sesiwn Briffio Aelodau<br>(I'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018<br>(I'w gadarnhau) | |
| 16 | **Tai Gofal Ychwanegol, Seiriol** | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | 31 Ionawr 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018<br>(I'w gadarnhau) | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2018

Diweddarwyd 17 Ionawr 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Arolwg AGGCC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | 5 Chwefror 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 18 | **Strategaeth Taclo Tlodi**<br><br>Cymeradwyo strategaeth ddrafft ar gyfer mynd allan i ymgynghori. | | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 19 | **Moderneiddio Ysgolion – Adroddiad Cynnydd (gan gynnwys ysgolion hefo llai na 120 mewn nifer o ddisgyblion)**<br><br>Cytuno'r cyfeiriad strategol. | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | Sesiwn Briffio Aelodau<br><br>(I'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 20 | **Cynllun Iechyd a Diogelwch** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones<br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2018

Diweddarwyd 17 Ionawr 2018

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Mawrth 2018** | | | |
| 21 | **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2016/17**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio Gwasnaethau Cymdeithasol | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Mawrth 2018 | |
| | | | | | | | |
| 22 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 23 | **Cynllun Llesiant - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** | | Prif Weithredwr | Dr Gwynne Jones<br>Prif Weithredwr<br><br>Cyng Llinos Medi | 8 Mawrth 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | I'w gadarnhau |
| 24 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2017/18 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | 12 Mawrth 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Chwefror – Medi 2018

Diweddarwyd 17 Ionawr 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 | **Polisi Dewisol Taliadau Tai 2018/19**<br><br>Adrodd ar weinyddiaeth y polisi ac unrhyw newidiadau yr argymhellir – pennu polisi. | | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 26 | **Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn – Datganiad Cyfrifon 2016/17** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 27 | **Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid 2018 – 2021** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 28 | **Storfa Cynnal a Chadw Tai**<br><br>Derbyn cymeradwyaeth i symud ymlaen i arwyddo cytundeb gyda darparwr | Penderfyniad ynghlwm a Chynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018<br>(I'w gadarnhau) | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2018

Diweddarwyd 17 Ionawr 2018

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 29 | **Cynllun Comisiynu Rhaglen Cefnogi Pobl**<br><br>Cymeradwyaeth cyn ei gyrru ymalen i'r Pwyllgor Rhanbarthol | Cynllun Cefnogi Pobl yn fater statudol | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 30 | **Cynllun Busnes 30 mlynedd Cyfrif Refeniw Tai a rhaglen gyfalaf 2018-2019**<br><br>Cymeradwyaeth cyn ei gyrru ymlaen gyda chais am grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr i Lywodraeth Cymru | Cyfrif Refeniw Tai yn fater statudol | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 31 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni – Sylwadau yn dilyn yr ail ymgynghoriad** | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 32 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol** | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | 12 Mawrth 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 (I'w gadarnhau) | |

*  *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2018

Diweddarwyd 17 Ionawr 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 33 | **Cynllun Adfywio Gogledd Cymru a Chyllid TRIP**<br><br>Cefnogi cynigion gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Cefnogaeth y Pwyllgor Gwaith ei angen | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dewi Lloyd (Rheolwr Adfywio)<br><br>Cyng. Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| | **Ebrill 2018** | | | | | | |
| 34 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Ebrill 2018 | |
| | **Mai 2018** | | | | | | |
| 35 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | Mehefin 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2018 | |
| 36 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2017/18 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Mehefin 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Chwefror – Medi 2018

Diweddarwyd 17 Ionawr 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 37 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2017/18 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2018 | |
| 38 | **Arolwg AGGCC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2018 | |
| 39 | **Strategaeth Taclo Tlodi**<br><br>Cymeradwyaeth ar y ddogfen yn dilyn cyfnod o ymgynghori | O fewn rhaglen weithredu Cynllun Corfforaethol y Cyngor | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2018<br>(I'w gadarnhau) | |
| | | | | **Mehefin 2018** | | | |
| 40 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Mehefin 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH
Cyfnod: Chwefror – Medi 2018

Diweddarwyd 17 Ionawr 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gorffennaf 2018** | | | | | | |
| 41 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Gorffennaf 2018 | |
| | **Medi 2018** | | | | | | |
| 42 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Medi 2018 | |
| 43 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Mehefin 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2018 | |
| 44 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2018

Diweddarwyd 17 Ionawr 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 45 | **Arolwg AGGCC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2018 | |

Tudalen 32

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **29 Ionawr 2018** |
| **Pwnc:** | **Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2014/15 a 2015/16** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd John Griffith (Adnoddau)<br>Y Cynghorydd R G Parry OBE FRAgs (Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff) Y Cynghorydd R Meirion Jones (Dysgu)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **R MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Claire Klimaszewski (01248) 751865<br>ClaireKlimaszewski@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

- Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am 2014/15 a 2015/16 (Atodiadau A a B)

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae hwn yn fater sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**(mandadol) | 8 Ionawr 2018 |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Fel rhan o'r UDA 8 Ionawr 2018 |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| | **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| • Atodiad A – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2014/15<br>• Atodiad B - Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2015/16 |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| |

**Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn**

## 1. Pwrpas

**1.1** Yn yr adroddiad hwn, ceir trosolwg ar y cefndir i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Mae ynddo wybodaeth am statws cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth a'r gwahanol elfennau sy'n gysylltiedig â hi. Ceir crynodeb am berfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth. Pwrpas allweddol yr adroddiad hwn yw gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r Adroddiadau Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer blynyddoedd ariannol 2014/15 a 2015/16.

## 2. Cefndir

**2.1** Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys 3 cronfa: Cronfa Waddol David Hughes a Chronfa Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Chronfa Addysg Ynys Môn 2/3 sy'n darparu budd addysgol penodol.

### 2.1.1 Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol)

Mae'r waddol yn dyddio'n ôl i 1608 ac, ar hyn o bryd, mae'n cynnwys nifer o blotiau o dir mân-ddaliadau a bythynnod a buddsoddiadau eraill. Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'r eiddo y mae'n buddsoddi ynddynt a difidendau a llog ar fuddsoddiadau'r Gronfa Buddsoddi a reolir gan Reolwyr Cronfa Blackrock Investment. Caiff costau rheoli, ariannol a gweinyddol y stad eu tynnu o'r rhenti a geir er mwyn penderfynu ar yr incwm net y gellir ei rannu yn ystod y flwyddyn. Caiff chwarter unrhyw incwm net sydd dros ben ei dalu i elusen ddi-gyswllt, sef "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion", a hynny er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant. Mae'r incwm gweddilliol yn ffurfio Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn sydd wedi ei rhannu'n ddwy ran.

### 2.1.2 Cronfa Elusennol Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 (Cronfa Gyfyngedig)

Yn ychwanegol at yr incwm net o Stad Waddol David Hughes, mae'r ymddiriedolaeth hon hefyd yn derbyn incwm o fuddsoddiadau a reolir gan Blackrock mewn modd tebyg i Gronfa Waddol David Hughes. Caiff traean o Gronfa Addysg Bellach Ynys Môn ei neilltuo i ddarparu buddion arbennig o unrhyw fath, sef rhai nad ydynt fel arfer yn cael eu darparu gan yr Awdurdod, a hynny er mwyn cynorthwyo disgyblion hŷn i orffen eu cyrsiau mewn unrhyw un o'r ysgolion sydd wedi eu pennu yn y cynllyn, y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir. Ni chafodd unrhyw grantiau eu rhannu yn 2014/15 a 2015/16 oherwydd cynlluniau'r ymddiriedolaeth i atgyweirio'r Mân-ddaliadau yr oedd angen eu trwsio a'u gwella'n sylweddol.

### 2.1.3 Cronfa Elusennol Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 (Cronfa Gyfyngedig)

Mae'r elfen hon o'r ymddiriedolaeth yn derbyn incwm mewn ffordd debyg i'r uchod (2.1.2). Mae ddwy ran o dair sy'n weddill o Gronfa Addysg Bellach Ynys Môn ar gael i helpu pobl ifanc dan 25 oed sydd wedi mynychu unrhyw un o'r ysgolion a enwir yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd ac sydd angen cymorth ariannol i fynd ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant. Ni chafodd unrhyw grantiau eu rhannu yn 2014/15 a 2015/16 oherwydd cynlluniau'r ymddiriedolaeth i atgyweirio'r Mân-ddaliadau yr oedd angen eu trwsio a'u gwella'n sylweddol.

### 2.2 Statws Cyfreithiol

Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn elusen gofrestredig a Chyngor Sir Ynys Môn yw'r unig ymddiriedolwr. Nid oes unrhyw ddarpariaeth benodol sy'n dirprwyo cyfrifoleb i'r Cyngor llawn neu swyddog penodol mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth felly, mae'r penderfyniadau hynny wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. Mae rhai swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r ymddiriedolaeth wedi cael eu dirprwyo i swyddogion mewn ymgynghoriad â'r aelod portffolio perthnasol. Mae awdurdod mewn perthynas â grantiau addysgol wedi cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Dysgu Gydol Oes). Mae awdurdod mewn perthynas â chytuno ar denantiaethau, gosod rhenti a threfnu rhaglen gynnal a chadw ac atgyweirio wedi ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo). Mae'r awdurdod i lofnodi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr ymddiriedolaeth bob blwyddyn wedi ei ddirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151. Gall y Prif Weithredwr ymarfer unrhyw swyddogaeth sydd wedi cael ei dirprwyo i'r Penaethiaid Gwasanaeth.

## 3. <u>Perfformiad Ariannol</u>

**3.1** Mae'r Ymddiriedolaeth yn ennill incwm o'r rhenti a geir o Bortffolio Eiddo Ymddiriedolaeth Waddol David Hughes, difidendau o fuddsoddiadau ecwiti, llogau eraill a gwerthu buddsoddiadau. Mae'r gwariant yn gysylltgiedig â chynnal a chadw eiddo, cyfleustodau, dibenion elusennol, ffioedd llywodraethiant (archwilio) a ffioedd rheoli eiddo. Mae'r wybodaeth fanwl ynghylch incwm, gwariant ac asedau'r ymddiriedolaeth ynghlwm yn Atodiadau A a B, sy'n cynnwys cyfrifon ariannol yr Ymddiriedolaeth o 2014/15 a 2015/16. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cyfrifon hyn.

**3.2** Dengys dadansoddiad o'r cyfrifon ar gyfer 2014/15 warged net o £339,987 ar gyfer y flwyddyn ac mae £14,917 o'r swm hwnnw yn cynrychioli'r incwm gweithredol net am y flwyddyn. Fodd bynnag, yn 2015/16, mae diffyg net o £87,873 ac o'r swm hwnnw, mae £100,664 yn ddiffyg ar weithrediad dydd i ddydd yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn oherwydd cynnydd sylweddol yn y gwaith trwsio a chynnal a chadw a wnaed ar Stad Waddol David Hughes yn ystod y flwyddyn hon. Yn hanesyddol, nid oes digon o arian wedi cael ei fuddsoddi mewn gwaith trwsio a chynnal a chadw ar y Stad. Mae'r cyfrifon drafft ar gyfer 2016/17 yn dangos diffyg net dros dro o £343,342. Mae hyn oherwydd rhaglen drwsio ac adnewyddu eang a gwblhawyd i raddau helaeth yn 2016/17. Yn ogystal, fe brynodd yr Ymddiriedolaeth Fferm Hendre yn ystod y flwyddyn hon er mwyn ychwanegu gwerth at Bortffolio Mân-ddaliadau Stad Waddol David Hughes. Unwaith y bydd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2016/17 wedi cael eu harchwilio'n annibynnol, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith fel y gellir cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer y cyfnod hwn. Ceir yn yr adroddiad hwn hefyd ddiweddariad cynhwysfawr ar y gwaith adnewyddu, cynnal a chadw ac ailstrwythuro a wnaed mewn perthynas â Stad Waddol David Hughes.

**3.3** Mae cyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer 2015/16 yn dangos bod cyfanswm o £3,179,220 yng nghronfeydd yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2016 ac mai £792,324 o'r swm hwnnw oedd balans ariannol yr Ymddiriedolaeth ar y dyddiad hwnnw.

## 4. <u>Casgliad</u>

**4.1** Rhoddwyd trosolwg ar y cefndir i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Mae'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o statws cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth a pherfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r cyfrifon ariannol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2014/15 a 2015/16 wedi eu cynnwys yn atodiadau A a B ar gyfer eu cymeradwyo. Roedd cyfanswm o £3,179,220 yng nghronfeydd yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2016.

# CRONFA YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN

# CRONFA ADDYSG BELLACH YNYS MÔN

## ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

## ANNUAL REPORT AND ACCOUNTS

## *2014/2015*

**Rhif Cofrestru Elusen / Charity Registration No. 525254**

# ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU AR 31 MAWRTH 2015

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn diweddu 21 Mawrth 2015. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP) 'Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau' a gyflwynwyd ym Mawrth 2005.

## MANYLION CYFREITHIOL A GWEINYDDOL

**Rhif Cofrestru Elusen**:
525254

**Cyfeiriad y Brif Swyddfa:**
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

**Ymddiriedolwr:**
Unig ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yw Cyngor Sir Ynys Môn a gweinyddwyd gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar ei rhan gan y Cyngor Sir.

Yn ystod y cyfnod cyfrifo dyma gyfarwyddwyr y Cyngor Sir:

Prif Weithredwr – Richard Parry Jones
Dirprwy Brif Weithredwr – Bethan Jones
Dysgu Gydol Oes – Dr Gwynne Jones
Cymuned – Gwen Carrington
Datblygu Cynaliadwy – Arthur Owen
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 – (Dros Dro) Richard Micklewright

Pan baratowyd yr adroddiad hwn arweinwyr strategol y Cyngor Sir oedd:

Prif Weithredwr – Dr Gwynne Jones
Dirprwy Brif Weithredwr – Annwen Morgan
Dirprwy Brif Weithredwr – Caroline Turner
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 – Marc Jones
Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor a Swyddog Monitro – Lynn Ball

**Archwiliwr Annibynnol**

I G Jones & Co
10A Stryd Fawr
Llangefni
LL70 7LT

## STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

### Dogfen lywodraethu:

Rheolir yr elusen gan ei dogfen lywodraethu, gweithred ymddiriedolaeth, ac mae'n ymgorffori elusen anghorfforaethol.

Rheoleiddir Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn gan gynllun a wnaed gan y Bwrdd Addysg ar 23 Mawrth 1939 ac fe'i haddaswyd yn sylweddol gan gynllun a wnaed ar 18 Gorffennaf 1960. Mae'r rhain yn nodi'r dyletswyddau, y pwerau a'r amodau sy'n sail i'r Ymddiriedolaeth weithredu arni.

### Recriwtio a phenodi ymddiriedolwyr newydd:

Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn. Mae'r elusen yn cael ei rhedeg gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor.

Mae cyfarwyddwyr newydd yn cael eu briffio ynghylch eu cyfrifoldebau cyfreithiol o dan gyfraith elusen, cynnwys y ddogfen lywodraethu a'r broses gwneud penderfyniadau. Nodir ac ymdrinnir yn fewnol ag anghenion hyfforddiant gan gyfarwyddwyr presennol eraill.

### Strwythur y sefydliad:

Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn a gweinyddir gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar ei rhan gan y Cyngor Sir.

Dyma strwythur y sefydliad:-

- Mae Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn gweithredu fel yr Ymddiriedolwr.
- Mae gan Bennaeth Gwasanaeth (Dysgu Gydol Oes) y Cyngor ar y cyd â Deilydd Portffolio Dysgu Gydol Oes awdurdod dirprwyedig i ddyrannu grantiau blynyddol.
- Mae gan Bennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) y Cyngor ar y cyd â Deilydd Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo awdurdod dirprwyedig i reoli cytundebau tenantiaeth a gosod rhenti'r portffolio eiddo (Gwaddol David Hughes).
- Bydd Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn cymeradwyo cyfrifon yr Ymddiriedolaeth a dirprwyir awdurdod i arwyddo Cyfrifon Blynyddol yr Ymddiriedolaeth i Bennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151.
- Mae'r fframwaith llywodraethu'n cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn addas i ofynion Ymddiriedolaeth heddiw.

Nes bydd yr adolygiad hwnnw'n gyflawn bydd strwythur y sefydliad yn parhau fel yr oedd.

### Partïon cysylltiedig:

Oherwydd natur gwaith yr elusen a gan mai Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwyr yr elusen mae'n anochel y bydd trafodion busnes yn cael eu cynnal gyda sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r cyngor a'i staff. Cynhelir yr holl drafodion busnes sy'n ymwneud â sefydliadau y gallai Cyngor Sir Ynys Môn fod â diddordeb ynddynt hyd braich. Mae gan y cyngor bolisi sy'n nodi bod yn rhaid i bob cyfarwyddwr ddatgan diddordeb os bydd trafodion yn ymwneud â pharti cysylltiedig.

### Rheoli risg:

Adolygwyd y prif risgiau, y mae'r Ymddiriedolaeth yn agored iddynt, fel y nodwyd gan yr Ymddiriedolwr, a sefydlwyd systemau neu weithdrefnau i reoli'r risg.

## AMCANION A GWEITHGAREDDAU

### Nodau ac amcanion:

Mae'r Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach yn cynnwys tair cronfa: Gwaddol David Hughes; Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Chronfa Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 sy'n darparu budd addysgol penodol.

### Ystâd Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol):

Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti gan yr eiddo y buddsoddwyd ynddynt a llog ar ei fuddsoddiadau. Caiff costau rheoli a gweinyddu'r ystâd eu didynnu o'r rhenti a dderbynnir i gael yr incwm net am y flwyddyn y gellir ei ddosbarthu.

Gwneir taliad o chwarter yr incwm net i elusen heb gysylltiad, "Elusen y Tlodion David Hughes" i liniaru tlodi yng nghymuned Llantristant. Mae gweddill yr incwm yn mynd i Gronfa Addysg Bellach Ynys Môn:

### Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn:

Caiff traean o'r Gronfa Gyffredinol ei dyrannu i ddarparu budd arbennig o unrhyw fath, nad yw fel arfer yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod i helpu disgyblion hŷn i orffen eu cyrsiau yn unrhyw un o'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun – y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir. Daeth grantiau o'r gronfa hon i ben nifer o flynyddoedd yn ôl. Mae'r cyngor yn adolygu'r gronfa hon fel rhan o adolygiad llywodraethu parhaus yr elusen. Mae'r ddwy ran o dair sy'n weddill yn y Gronfa Gyffredinol ar gael i rai o dan 25 oed, sydd wedi mynychu unrhyw un o'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun, am o leiaf ddwy flynedd, ag angen cymorth ariannol arnynt ar gyfer Addysg Bellach neu Uwch neu hyfforddiant.

### Dyrannu grantiau:

Dyrennir grantiau i unigolion sydd wedi mynychu neu sy'n mynychu un o'r pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir.

### Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 1/3:

Daeth grantiau o'r gronfa hon i ben nifer o flynyddoedd yn ôl; mae'r cyngor yn adolygu'r gronfa hon fel rhan o adolygiad llywodraethu parhaus yr elusen.

### Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2/3:

Daeth grantiau o'r gronfa hon i ben nifer o flynyddoedd yn ôl; mae'r cyngor yn adolygu'r gronfa hon fel rhan o adolygiad llywodraethu parhaus yr elusen.

### Budd cyhoeddus:

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyfeirio at y canllawiau sydd yng nghanllaw cyffredinol Comisiynydd yr Elusen ar fudd cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion yr elusen ac wrth gynllunio gweithgareddau i'r dyfodol a phennu'r broses dyrannu grantiau.

## CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD

### Gweithgareddau elusennol:

Mae'r elusen wedi parhau i ddiogelu asedau'r ymddiriedolaeth.

Mae'r elusen wedi bod trwy gyfnod o atgyfnerthu ac mae wedi bod yn arbed arian i'w ail-fuddsoddi yn ei bortffolio eiddo sy'n mynd yn hŷn. Trwy gynnal y cyfnod atgyfnerthu hwn, bydd asedau'r elusen ar gael i ddarparu incwm am flynyddoedd i ddod i'w buddiolwyr yn y dyfodol.

## ADOLYGIAD ARIANNOL

### Perfformiad Ariannol:
Roedd gan yr elusen warged net o £28,087 yn ystod y flwyddyn

Cyfanswm cronfeydd ar 31 Mawrth 2015 oedd £3,267,093 gyda'r holl gronfeydd yn gyfyngedig.

### Prif ffynonellau ariannu:
Prif ffynonellau ariannu'r elusen yw incwm rhenti gan denantiaid ac incwm buddsoddi ar ffurf buddrannau, llog buddsoddiadau neu log ar adneuon.

### Polisi buddsoddi ac amcanion:
Mae gan yr elusen bortffolio eiddo sylweddol sy'n mynd yn hŷn a bydd angen buddsoddi'n sylweddol. Mae ymddiriedolwr yr elusen wedi bod trwy gyfnod atgyfnerthu er mwyn cynhyrchu'r cronfeydd ariannol angenrheidiol i ail-fuddsoddi yn ei hasedau.

## DATGANIAD CYFRIFOLDEB YR YMDDIRIEDOLWYR
Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu Cymeradwy'r Deyrnas Unedig).

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr, Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusen (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth fod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob flwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa bresennol yr elusen ac o'r adnoddau a dderbyniwyd ac o'r defnydd a wnaed o adnoddau, yn cynnwys incwm a gwariant, yr elusen am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, rhaid i'r ymddiriedolwyr:-

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna'n cymhwyso'n gyson;
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau;
- llunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn synhwyrol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen ac er mwyn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusen (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen a gan hynny am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Arwyddwyd gan Bennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 o dan awdurdod dirprwyedig ar ran yr ymddiriedolaeth:

……………………………………………….
**Mr R Marc Jones**
**Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151**

## ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL I'R YMDDIRIEDOLWYR O GRONFA ADDYSG BELLACH YNYS MÔN

Rwy'n adrodd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2015, a nodir ar dudalennau 8 i 15.

Priod gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwiliwr

Ymddiriedolwyr yr elusen sy'n gyfrifon am baratoi'r cyfrifon. Mae ymddiriedolwyr yr elusen yn ystyried nad oes angen archwiliad eleni o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (Deddf 2011) a bod angen cynnal archwiliad annibynnol. Mae'r elusen yn paratoi cyfrifon ar y cyd ac rwy'n gymwysedig i gynnal yr archwiliad gan fy mod yn aelod cymwysedig o Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr.

Fy nghyfrifoldeb yw:-

- archwilio'r cyfrifon o dan adran 145 o Ddeddf 2011:
- dilyn gweithdrefnau yn y Cyfarwyddiadau Cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol o dan adran 145(5) o Ddeddf 2011; a
- datgan p'un ai y tynnwyd fy sylw at faterion penodol.

Sail adroddiad yr archwilwyr annibynnol

Nid yw'r Ddeddf RhG yn gwahaniaethau rhwng gwybodaeth a grëwyd gan sefydliad a gwybodaeth a ddarperir gan drydydd parti. Yn gyffredinol, mae'r naill yr un mor rhwym â'r llall i ddarpariaethau'r Ddeddf RhG, felly os yw'r wybodaeth yng ngofal awdurdod cyhoeddus,  ni waeth o ble ddaeth y wybodaeth, bydd y wybodaeth honno'n ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf RhG a bydd rhaid i'r wybodaeth gael ei hasesu ar gyfer ei datgelu. Yr unig wahaniaeth wrth ymdrin â gwybodaeth trydydd parti yw'r angen am ymgysylltu â'r trydydd parti cyn ei rhyddhau er mwyn pennu pa bryderon allai fod ganddyn nhw ynglŷn â'r datgeliad. Nid yw hyn yn golygu bod gan y trydydd parti hawl i wahardd y datgeliad, gweithred o gasglu gwybodaeth ydyw yn syml fel bod unrhyw bryderon gan drydydd parti yn cael eu hystyried pan yw'r awdurdod cyhoeddus sy'n ymdrin â'r ceisiadau yn gwneud ei benderfyniadau terfynol ar y datgeliad.

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol

Adran 1 - **Maen Prawf Craidd: Addasrwydd Strategol**

- Maen Prawf Strategol Pellach: Themâu sy'n Trawstorri
- Maen Prawf Strategol Pellach: Addasrwydd y Buddsoddiad

Adran 2 - **Maen Prawf Craidd: Cyflawni**

- Maen Prawf Cyflwyno Pellach: Dangosyddion a Chanlyniadau
- Maen Prawf Cyflwyno Pellach: Rheoli Gweithrediad

Adran 3 - **Maen Prawf Craidd: Ariannol a Chydymffurfio**

- Maen Prawf Ariannol Pellach: Gwerth am arian
- Maen Prawf Ariannol Pellach: Cynaliadwyedd Tymor Hir

Adran 4 - **Atodiadau**

# Crynodeb Gweithredol

Mae STEM Gogledd yn ceisio am gefnogaeth ariannol yr UE gan Echel Flaenoriaeth 3 ESF: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc, Amcan Strategol 3, i gynyddu'r nifer sy'n dewis pynciau STEM, a'u cyrhaeddiad, ymysg plant 11-19 oed yng Ngogledd Orllewin Cymru, trwy amrywiaeth o ymyraethau fydd yn cyd-fynd â gwasanaethau prif lif, ond heb eu dyblygu.

**Dangosyddion Canlyniadau**

| Dangosydd | Targed |
|---|---|
| Pobl ifanc 11-19 sy'n parhau i astudio Mathemateg, Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - benywaidd | 106 |
| Pobl ifanc 11-19 sy'n parhau i astudio Mathemateg, Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - gwrywaidd | 86 |
| Pobl ifanc 11-19 sy'n cwblhau hyfforddiant mewn pwnc Mathemateg, Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - benywaidd | 197 |
| Pobl ifanc 11-19 sy'n cwblhau hyfforddiant mewn pwnc Mathemateg, Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - gwrywaidd | 161 |

The **Buddiolwyr targed** y prosiect hwn yw pobl ifanc rhwng 11-19 oed sy'n byw yn siroedd Môn, Gwynedd, Conwy a Dinbych yng Ngogledd Orllewin Cymru. Mae'n debygol y bydd crynswth y gwaith yn targedu carfan hŷn yr ystod oedran (14-19), ond yn sgil natur drawsffurfiol y prosiect, a'i neges allweddol, rydym yn awyddus i weithio gydag unigolion iau i ddechrau'r broses cyn gynted ag y bo modd.

Yn y Rhaglen Weithredol, fe noda, "Fel amlinellwyd yn y Strategaeth, mae ceisiadau TGAU mewn pynciau STEM yng Nghymru wedi gostwng gan 12% mewn blynyddoedd diweddar[1] gyda gostyngiad cyffelyb mewn lefelau cyrhaeddiad yn ystod cyfnod 2008-2013". Rydym felly wedi seilio ein targed ar y cysyniad hwn. Roedd cyfanswm o 4,383 disgybl 15 oed ym mlwyddyn academaidd 2014/15 ledled Gogledd Orllewin Cymru, felly, mae gweithrediad STEM Gogledd yn bwriadu gweithio gyda 12% o'r garfan, sef 550 disgybl, gyda chyfran o 55% yn Fenywaidd a 45% yn wrywaidd.

| Cyfanswm Targed | **550** |
|---|---|
| **Cyfranogwyr Benywaidd** | 302 |
| **Cyfranogwyr Gwrywaidd** | 248 |

Adnabuwyd y buddiolwyr ar gyfer y gweithgaredd hwn trwy asesiad manwl o ddata Gogledd Orllewin Cymru. Seiliwyd y wybodaeth isod ar ein set o ddata cyfredol, ond fe all newid os ydym yn derbyn set newydd o ddata gan ein partneriaid ar gyfer y flwyddyn academaidd ddiweddaraf.

---

1 Llywodraeth Cymru (2012) Gwyddoniaeth Dros Gymru, Rhaglen strategol ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesi yng Nghymru

Caiff buddiolwyr targed eu hadnabod trwy'r tri rhesymwaith a ganlyn (ceir dadansoddiad llwyr ar gyfer y rhesymwaith yn *c. Maen Prawf Strategol Pellach: Addasrwydd y Buddsoddiad: Angen am y Gweithrediad: Cyfranogwyr Targed*):

1. Pobl ifanc mewn addysg y mae'r athrawon/penaethiaid wedi adnabod eu bod mewn perygl o gael graddau C/D mewn pynciau gwyddoniaeth penodol ac a fydd yn elwa o weithgareddau ymgysylltu gwerth ychwanegol cymhelliannol i wella graddau tybiedig.
2. Pobl ifanc mewn addysg y mae'r athrawon/Cynghorwyr Gyrfa wedi adnabod y buasent yn elwa o weithgareddau ychwanegol dan gymhelliant STEM i'w helpu i benderfynu ar ddewis opsiynau STEM ôl-14, ôl-16 ac/neu ôl-17.
3. Pobl ifanc sy'n methu cael mynediad i brofiad gwaith sy'n benodol gysylltiedig â STEM.

**Disgrifiad o'r gweithrediad** (gweler adran **Dewis a Ffafrir gan STEM Gogledd ar gyfer Cyflwyno** am y manylion llawn)

I gyfoethogi a hyrwyddo cynnig cwricwlwm pynciau craidd STEM mewn ysgolion, trwy amrywiaeth o ymyraethau penodol fydd yn cyd-fynd â gwasanaethau prif lif, ond heb eu dyblygu na'u disodli. Cynhaliwyd dadansoddiad o ddarpariaeth prif lif gyda chydweithrediad llwyr y bartneriaeth sy'n ymwneud â chyflwyno a chefnogi prosiectau STEM eraill. Mae'r prosiect hwn yn benodol ei natur yn dilyn canfyddiadau Archwiliad STEM, trafodaethau ac ymgysylltu gyda phartneriaid yn y Grŵp Datblygu Prosiect a bydd yn cyflwyno gwasanaeth ble, ar hyn o bryd, mae bwlch yn narpariaeth STEM yn rhanbarthol. Mae Datblygiad y Prosiect wedi sicrhau nad yw gwasanaethau prif lif yn cael eu dyblygu.

Bydd STEM Gogledd yn cyfrannu at Weledigaeth Twf y Rhanbarth a'i Gynllun Sgiliau a Chyflogaeth Ranbarthol i ddatblygu gweithlu bywiog ac ymatebol i ddiwallu gofynion sgiliau'r rhanbarth yn y dyfodol. Nod y gweithrediad fydd cynyddu dewis a chyrhaeddiad mewn pynciau STEM ymysg pobl 11-19 oed yng Ngogledd Orllewin Cymru, gan arwain at bobl ifanc sy'n parhau i astudio pynciau STEM ar ôl 16 oed, a phobl ifanc sy'n cwblhau hyfforddiant mewn pynciau STEM. Er mwyn cyflawni hyn, bydd prosiect STEM Gogledd yn cynnig y tri phrif lwybr (dwyieithog) a ganlyn, ond byddant yn cael eu teilwra ar gyfer darpariaeth benodol:

1. Swyddogaeth Gydlynol - penodi cydlynwyr STEM ar gyfer y rhanbarth.
2. Hwb STEM Rhithwir - Hwb STEM rhyngweithiol ar y we
3. Mentoriaid STEM - Cefnogaeth a gwybodaeth bersonol o fewn STEM.

**Rheoli a Chyflwyno**

Rheolir y prosiect gan Gyngor Gwynedd. Bydd y tri Awdurdod Lleol arall yng Ngogledd Orllewin Cymru a chyflogwyr lleol yn bartneriaid ar y prosiect. Bydd y partneriaid yma yn cyfrannu arian cyfatebol ar gyfer y prosiect, yn rhan o’r Bwrdd Rheoli Rhanbarthol, ynghyd a cefnogi llwyddiant y prosiect.

Bydd gan y Prif Fuddiolwr a'i bartneriaid oll brofiad sylweddol a helaeth ym maes cyflawni prosiectau pwysig, gan gynnwys y rhai a ariannwyd trwy'r Cronfeydd Strwythurol.

Bydd pencadlys Tîm STEM Rhanbarth y Gogledd yng Ngwynedd ac fe'i sefydlir i reoli, cydlynu a goruchwylio'r prosiect ym mhob un o ardaloedd y Buddiolwyr. Bydd y tîm bychan hwn â'i ffocws pendant yn cynnwys Rheolwr Prosiect, Swyddog Ariannol a Swyddog Monitro.

Tîm cyflwyno rhanbarthol fydd yn cyflwyno gwasanaethau'r prosiect ar draws y rhanbarthau. Ceir manylion y tîm cyflwyno yn yr Adran Rheoli'r Gweithrediad. Mae'r tîm cyflwyno yn cynnwys:

- Cydlynydd STEM
- Mentoriaid STEM

**Rhwystrau a Risgiau Allweddol**

Gellir dadansoddi'r **rhwystrau allweddol** sy'n wynebu cyfranogwyr sydd wedi'u hadnabod fel a ganlyn:

- Diffyg ymwybyddiaeth o gyfleoedd y farchnad lafur a chyfleoedd llwybr STEM.
- Diffyg gweithgareddau STEM sy'n ysbrydoli.
- Diffyg cydlyniad STEM.
- Argaeledd adnoddau yn y Gymraeg.

Er mwyn rheoli'r **risgiau** yn y gweithrediad hwn, mae cofrestr risg fanwl wedi'i datblygu; gweler drafft yn Atodiad 3. Bydd y Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n gyson. Mae'n seiliedig ar y Cynllun Rheoli Risg 11-24 TRAC a bydd yn mynd i'r afael â'r elfennau a ganlyn sy'n adnabyddus fel y rhai â'r risg uchaf (mae risgiau eraill wedi'u sgorio a'u hadnabod ar sail RAYG):

- Rhesymoliad Awdurdod Lleol - Gallu i ddarparu ar waethaf y rhaglen o doriadau, galw cynyddol ar sefydliadau i resymoli cyllidebau.
- Llinell Amser Caffael - potensial na fydd llawer yn cymryd y cyfle caffael.
- Ansawdd y Ddarpariaeth - darpariaeth o safon isel a darpariaeth anghyson ledled y rhanbarth.
- Ymgysylltu - diffyg ymgysylltiad neu gefnogaeth ar gyfer y gweithrediad.
- Diogelu - lefel y broses ddiogelu a'r protocolau nad ymlynir atynt. Risg posib i gyfranogwyr.
- Gweithio mewn partneriaeth - anawsterau wrth reoli amrywiaeth o wahanol wasanaethau ar lefel ranbarthol/genedlaethol. Gall arwain at fethu cyflawni'r allbynnau.
- Cyfathrebu - sicrhau bod sianeli cyfathrebu clir yn bodoli rhwng Prif Noddwyr a Chyd Noddwyr, sicrhau bod sianeli cyfathrebu clir yn bodoli rhwng rhan-ddeiliaid gwahanol, gan gynnwys adrodd i WEFO mewn da bryd.
- Recriwtio - Materion staffio.
- Allbynnau - methu cyflawni allbynnau prosiect.
- Arian Cyfatebol - methu dangos tystiolaeth o arian cyfatebol digonol.
- Strategaeth Gadael - cynaliadwyedd y prosiect.

**Proffil Ariannol**

- Prosiect tair blynedd Ebrill 2017 - Mawrth 2020
- Cyfanswm cost y Prosiect £2,084,765.00
- ESF £1,459,338.00
- Cyfanswm Arian Cyfatebol £625,427.00

  Rydym, ar hyn o bryd, yn chwilio am arian cyfatebol posib ar gyfer y prosiect. Mae STEM Gogledd yn rhagweld y bydd arian cyfatebol ar gyfer STEM Gogledd yn dod gan

gyflogwyr lleol a'r pedwar Awdurdod Lleol. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Cysylltwyd â Chyflogwyr Lleol trwy lythyr ffurfiol a anfonwyd ar 21 Tachwedd 2016, mae e-byst a galwadau ffôn dilynol yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd, gyda chyfarfodydd wyneb yn wyneb yn digwydd i gytuno ar yr arian cyfatebol. Gweler Atodiad 21 am restr o'r Cyflogwyr Lleol y cysylltwyd â nhw ynghyd â chopi o'r Llythyr Cais am Arian Cyfatebol a anfonwyd yn Atodiad 22.

# Adran 1

## a. Maen Prawf Craidd: Addasrwydd Strategol

**Amcan Penodol 3**

Mae amcanion Rhaglen Weithredol ESF ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, 2014-2020, yn cydredeg yn agos iawn gydag amcanion y gweithrediad hwn. Bydd STEM Gogledd yn ymdrin ag amcan Echel Flaenoriaeth 3 ESF: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc. Ymhellach, bydd yn ymdrin ag Amcan Penodol 3, i gynyddu'r nifer sy'n dewis pynciau STEM, a'u cyrhaeddiad, ymysg plant 11-19 oed yng Ngogledd Orllewin Cymru, trwy amrywiaeth o ymyraethau fydd yn cyd-fynd â gwasanaethau prif lif.

**Cyd-destun Buddsoddi Ehangach**

**Y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd[2]**

Mae STEM Gogledd wedi cael ei ddatblygu yn unol ag egwyddorion allweddol y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd, a'i nod yw cefnogi twf economaidd yng Ngogledd Orllewin Cymru. Mae'r gweithrediad yn glynu'n agos at egwyddorion arweiniol rhaglen ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Echel Flaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc, Amcan Penodol 3: Cynyddu nifer y bobl 11-19 oed sy'n dewis ac yn llwyddo mewn pynciau STEM yng Ngogledd Orllewin Cymru, gan hynny gyfrannu at uchafu effaith arian yr UE yng nghyd-destun y buddsoddiadau ehangach sy'n cael eu gwneud yn economi Gogledd Cymru ac y rhagwelir y byddant yn gyrru twf economaidd a swyddi yn y rhanbarth.

Mae'r gweithrediad hefyd yn mynd ati i ymdrin â her allweddol i sgiliau a chyflogaeth yn rhanbarth Gogledd Cymru, fel adroddwyd yng Nghynllun Sgiliau a Chyflogaeth Ranbarthol BUEGC (2016), trwy gyfrannu at *'gynyddu'r niferoedd sy'n dewis pynciau sy'n gysylltiedig â STEM a'u hyrwyddo, a sgiliau sy'n cymhwyso gofynion cyflogwyr'*. Mae'r Cynllun, sy'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru, wedi adnabod cyfres o ofynion parthed sgiliau STEM a chyflogaeth a fydd yn angenrheidiol er mwyn diwallu gofynion economi Gogledd Cymru sy'n tyfu. Mae'r rhain yn berthnasol iawn i dri sector economaidd allweddol: Ynni a'r Amgylchedd, Cynhyrchu Uwch, a Deunyddiau ac Adeiladu; yn ogystal â'r pedwar sector twf sef Digidol Creadigol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Twristiaeth a Lletygarwch, a Chynhyrchu Bwyd a Diod.

Bydd y gweithrediad yn parhau i weithio'n agos gyda Grŵp Sgiliau a Chyflogaeth BUEGC - y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol - er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n unol â'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol ac yn ychwanegu gwerth penodol a phriodol i gyfleoedd

2 http://gov.wales/docs/wefo/publications/150615theeconomicprioritisationframeworkv3.pdf

economaidd rhanbarthol ac anghenion galw a chyflenwi'r farchnad lafur a adnabuwyd ar gyfer Gogledd Cymru. Bydd STEM Gogledd hefyd yn cadw llygad ar ddatblygiadau mewn Ffrydiau Gwaith BUEGC eraill megis cadwyni cyflenwi ac isadeiledd fel y gellir gwireddu unrhyw fuddion posib.

Mae BUEGC wedi sefydlu grŵp Arweinwyr Prosiect ESF fydd yn cyflwyno gwybodaeth yn uniongyrchol i Grŵp Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol BUEGC fel corff swyddogol Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol LlC dros Ogledd Cymru. Gyda'r niferoedd uchel o fynychwyr ar hyn o bryd a'r amser trafod cyfyngedig yn y Grŵp Sgiliau Rhanbarthol BUEGC, cytunwyd gyda chefnogaeth BUEGC a LlC i grŵp prosiectau ESF neilltuedig gael ei sefydlu er mwyn galluogi trafodaeth lawn a thryloywder ar faterion, meysydd cydweithio, a rhannu gwybodaeth bellach posib i gefnogi cleientiaid wrth gyflwyno. Bydd y grŵp penodol hwn o bob Arweinydd Prosiect ESF Rhanbarthol yn cwrdd yn fisol i ddechrau wrth i gynlluniau busnes gael eu cwblhau / gwaith ddechrau ar brosiectau ac ati. Y nod, maes o law, yw creu fforwm drafod tryloyw ac agored i rannu heriau, syniadau, a gwybodaeth ychwanegol fel prosiectau unigol sydd, gyda'i gilydd, yn creu cyfres o brosiectau rhanbarthol sy'n seiliedig ar sgìl ar gyfer Gogledd Cymru.

Yn wahanol i brosiectau cenedlaethol tebyg, bydd STEM Gogledd yn ymgysylltu ac yn gweithio'n rhagweithiol gyda budd-ddeiliaid BUEGC sy'n cynnwys Partneriaethau Datblygu Economaidd, Fforymau Cyflogwyr o bob cwr o Ogledd Cymru i: adnabod cyfleoedd rhanbarthol sy'n cymhwyso gweithrediadau ehangach ESF gyda'r gweithredoedd buddsoddi hyn; sicrhau gwerth ychwanegol i'r rhaglen sgiliau rhanbarthol; a chefnogi Buddsoddiadau ERDF. Gweithio ochr yn ochr ag unrhyw ddatblygiadau ERDF rhanbarthol er mwyn elwa o unrhyw gyfleoedd a allai fod ar gael i bobl ifanc. Gan mai nod y gweithrediad yw gweithio gyda chyfranogwyr â sgiliau STEM eang (cymwysterau lefel mynediad i raddedigion) fe allai, yn y bôn, gyflenwi unrhyw ofynion sgiliau. Mae hyn yn ategu'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol sy'n adnabod fod "*Angen paratoadau wedi'u cydlynu'n well i ddiwallu anghenion sgiliau sectorau twf rhagamcanedig*"

O wneud hyn, bydd y gweithrediad rhanbarthol-benodol yn ceisio gweithio gyda gweithrediadau cenedlaethol eraill sy'n cyflwyno mewn rhai ardaloedd yng Ngogledd Cymru fel STEM Cymru a Technocamps, ynghyd ag unrhyw weithrediadau eraill sy'n cyflwyno yn y rhanbarth. Trwy hyn gellir sicrhau bod y cynnig ar draws y rhanbarth yn gytbwys ac yn seiliedig ar anghenion a adnabuwyd. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy baneli ar lefel sirol a pherthnasau cydweithio agos gyda phartneriaid sydd wedi'u hymsefydlu ers tro. Mae digonedd o botensial a chwant i geisio cael trawsgyfeirio rhwng prosiectau STEM cenedlaethol eraill unwaith bydd y broses o adnabod anghenion wedi'i sefydlu er mwyn diwallu anghenion cyfranogwyr yn llawn, rhoi gwerth ychwanegol, a sicrhau canlyniadau da.

Bydd cyfleoedd pellach ar gael y tu hwnt i'r rhanbarth gyda Gogledd Cymru mewn man buddiol dros ben gerllaw Pwerdy'r Gogledd. Fe ddaw datblygiad isadeiledd y Gogledd â buddion arwyddocaol i'r rhanbarth. Bydd yn bwysig i'r ymgyrch i sicrhau bod y gwerth ychwanegol hwn yn cael ei ystyried. Mae'r EPF yn sylweddoli bod hyn yn arwyddocaol iawn gyda chyfleoedd cyflogaeth allweddol megis uwch-gynhyrchu a'r sector ynni ar droed, yn arbennig gyda rhagdybiaethau bod Gogledd Cymru yn mynd i elwa o 40,000 o swyddi newydd. Bydd nifer o'r swyddi hyn yn gofyn am sgiliau sy'n cyd-fynd â phynciau megis

meddygaeth, peirianneg a thechnoleg, gwyddorau cyfrifiadurol, creadigol, celf a dylunio a'r gwyddorau ffisegol. Trwy greu'r swyddogaethau newydd hyn, bydd angen sicrhau yn gynyddol bod pobl ifanc yn aros yn y rhanbarth yn hytrach nag yn gadael y rhanbarth mewn niferoedd uchel fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Bydd hefyd angen edrych ar sut i lenwi'r gagendor, yn y bôn, trwy ôl-lenwi swyddi a chyfleoedd a allai hefyd gael eu creu yn y cadwyni cyflenwi. Mae angen mwy o bwyslais er mwyn cael cynllunio olyniaethol cryf yn y rhanbarth.

Mae sectorau twf eraill fydd y gweithrediad yn ystyried eu cefnogi fel y'u hadnabuwyd yn yr EPF yn cynnwys Digidol Greadigol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Twristiaeth a Lletygarwch, a Chynhyrchu Bwyd a Diod.

Mae gan STEM Gogledd botensial amlwg i gyfrannu'n uniongyrchol i bob un o'r cyfleoedd economaidd thematig yn yr EPF o safbwynt y gefnogaeth fydd y gweithrediad yn ei rhoi wrth 'wella cyfranogaeth ym mhynciau STEM ymysg pobl ifanc, yn arbennig merched ifanc' ac wrth gefnogi 'datblygiad gweithlu galluog, hyblyg a gwydn yn y dyfodol' yng Ngogledd Orllewin Cymru. Ymddengys bod cydberthynas amlwg rhwng nifer y gyrwyr galw allweddol a adnabuwyd yn sgil y cyfleoedd hyn a'r galluoedd sydd eisoes yn bodoli mewn cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc gyda'r sgiliau STEM priodol, yn arbennig yn y sector Ynni (datblygiadau Ynys Ynni Ynys Môn), er enghraifft; Bwyd a Ffermio (cynhyrchu bwyd a diod); Newid Hinsawdd ac Effeithlonrwydd Adnoddau (buddsoddi ym Mharthau Menter Môn ac Eryri a'r Ganolfan Dechnoleg Amgen); Elwa o Asedau a Chyfleoedd TGCh yn y Farchnad Ddigidol (datblygiadau'r Diwydiant Creadigol yng Ngogledd Cymru); Uwch-gynhyrchu (Parth Menter Eryri - Canolfan a Pharc Menter Awyrofod Llanbedr)

Er bod cyfleoedd economaidd sylweddol ar hyd coridor yr A55, bydd angen sicrhau bod cysylltiadau eglur hefyd yn cael eu sefydlu gydag unrhyw ddatblygiadau sy'n deillio o'r Cynllun Datblygu Gwledig, sy'n rhan arwyddocaol o bedair sir Gogledd Orllewin Cymru. Yn ogystal â'r sectorau a grybwyllwyd uchod, mae'r Sector Adeiladu hefyd yn ddiwydiant arwyddocaol yn y rhanbarth ond mae pryderon cynyddol ynghylch poblogaeth waith Gogledd Cymru sy'n heneiddio o ystyried y buddsoddiad posib a'r cyfleoedd economaidd sydd ar y gweill yn yr ardal. Yn ôl rhagdybiaethau cyfredol mae 50,000 o weithwyr â sgiliau, gan gynnwys syrfewyr meintiau, peirianwyr siartredig a phenseiri, ar fin ymddeol o'r diwydiant ledled y DU yn ystod y 12 mis nesaf. Gallai hyn greu gagendor mawr na fydd yn hawdd i'w lenwi oni bai bod camau'n cael eu cymryd.

Bydd y gweithrediad yn glir yn ei ddarpariaeth i fod yn flaengar wrth annog a blaenoriaethu cefnogaeth a defnydd o'r Iaith Gymraeg yn yr amgylchedd gwaith sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Iaith Gymraeg sy'n adnabod yr angen *"am gynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc ac i gynyddu'u hymwybyddiaeth o werth yr iaith"* ac mae hefyd yn adnabod bod Cymru'n colli rhwng 1,200 a 2,200 o siaradwyr Cymraeg rhugl bob blwyddyn ar hyn o bryd.

Nod sylfaenol STEM Gogledd yw gweithio gyda 550 o bobl ifanc mewn 33 ysgol uwchradd yng Ngogledd Orllewin Cymru, a datblygu camau / datrysiadau arloesol nad sy'n rhai craidd a sgiliau STEM sy'n canolbwyntio ar y rhanbarth. Diben hyn yw ysgogi a chymell mwy o bobl ifanc i ddewis gyrfaoedd STEM sy'n gysylltiedig â chyfleoedd a adnabuwyd yng Nghynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru ac sy'n seiliedig ar anghenion cyflogwyr yn awr ac i'r

dyfodol. Rhagwelir y bydd y gweithrediad hefyd yn cyfrannu tuag at wella cyfleoedd pobl ifanc yng Ngogledd Orllewin Cymru a'u helpu i gael cyfleoedd gwaith cynaliadwy o werth uchel yn eu hardaloedd lleol, gan helpu cyfyngu'r llif o bobl ifanc talentog allan o'r rhanbarth. Anelir y camau / datrysiadau arloesol nad sy'n rhai craidd, a sgiliau STEM a ddatblygwyd ac a gyflwynwyd yn rhanbarthol, ac a gefnogir gan STEM Gogledd at gyfoethogi, hyrwyddo ac ychwanegu gwerth i bynciau cwricwlaidd craidd STEM sydd ar gael ar hyn o bryd mewn ysgolion a cholegau ac nid dyblygu darpariaeth.

**Polisïau Eraill y Llywodraeth**

Bydd ymgyrch STEM Gogledd yn cefnogi cyfres o bolisïau ehangach y llywodraeth, gan gynnwys:

**Datganiad Polisi ar sgiliau -** Diben cyffredinol y datganiad hwn yw rhoi trosolwg tymor hir a strategol o'r modd y bydd angen i'r system sgiliau yng Nghymru esblygu. Mae'r datganiad hwn yn trafod pedwar maes blaenoriaeth Llywodraeth Cymru:

1. Sgiliau ar gyfer Swyddi a Thwf - mae hwn yn canolbwyntio ar sut y gall Cymru ysgogi galw am gymdeithas fwy galluog sy'n medru gyrru'r economi yn ei flaen er mwyn gwaith a thwf.
2. Sgiliau sy’n ymateb i anghenion lleol - mae hyn yn disgrifio'r modd y mae'n rhaid i Gymru ddatblygu system sgiliau sy'n adlewyrchu anghenion cymunedau lleol, gan gynnwys darparu cynnig taclus a hygyrch i'r unigolyn a chyflogwyr.
3. Sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi - mae hwn yn adnabod pwysigrwydd ymgysylltu â chyflogwyr i gymryd rhan yn y system sgiliau ac mae'n disgrifio'r lefel o gyd-fuddsoddi sydd ei hangen ynghyd â'r Llywodraeth os yw Cymru am barhau i fod yn gystadleuol.
4. Sgiliau ar gyfer Gwaith - mae hwn yn archwilio swyddogaeth y system sgiliau mewn darparu'r gefnogaeth waith angenrheidiol i helpu unigolion gael gwaith ac i symud ymlaen yn eu gwaith. Dyma ddau beth sy'n ganolog i'r rhaglen gorchfygu tlodi yng Nghymru.

**Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg** - Mae'r strategaeth hon yn rhoi braslun o'r camau ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg iaith Gymraeg. Mae'r strategaeth yn adnabod bod angen sefydlu prosesau ar gyfer cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg; bod angen cynllunio'r gweithlu yn well a rhoi cefnogaeth i ymarferwyr; bod angen sicrhau bod gan bobl ifanc hyder i ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg ym mhob rhan o'u bywydau.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg -** Mae'r archwiliad dilynol hwn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru'n galw am 'gymryd camau mwy strategol a chyd-gysylltiedig i ymyrraeth yn y pynciau STEM amrywiol, yn seiliedig ar well dealltwriaeth a gwerthusiad o'u hardrawiad."

Cydnabuwyd graddfa'r her ym mhob sefyllfa addysgol a'r gymuned i ysgogi'r newid diwylliannol angenrheidiol er mwyn gweld STEM fel peth cadarnhaol, a niwtral o safbwynt rhyw. Nododd yr archwiliad hefyd bod "Cymru angen ymdrechu dros gyflawni rhagoriaeth mewn STEM o'r dechrau i'r diwedd - o'r cwricwlwm a chymwysterau sydd ar gael yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd, mewn colegau a phrifysgolion, i gyngor gyrfaoedd a phrofiad gwaith, ac i gyflogaeth ystyrlon a chynaliadwy."

Galwodd yr EBC am gynllun eglur ar gyfer hyrwyddo, monitro a gwerthuso gweithgaredd cyfoethogi STEM trwy'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol (NSA), a thrwy Lywodraeth Cymru ar ei hyd.

"Mae adroddiad yr EBC yn amlygu'r lefelau uchel o weithgaredd addysg a hyfforddiant STEM, ond mae'n nodi bod cynnydd mewn cyrhaeddiad sgiliau STEM wedi parhau'n rhy araf."
Caiff 14 o argymhellion eu gwneud gan yr archwiliad, gyda sawl un yn arbennig o berthnasol i ddatblygiad prosiect STEM Gogledd.

- Argymhelliad 4: Annog ysgolion i gymryd rhan fwy gweithgar wrth ddisodli'r gwasanaethau oedd gynt yn cael eu darparu gan Gyrfa Cymru, a'u cefnogi nhw wrth ymgysylltu gyda chyflogwyr a threfnu lleoliadau STEM perthnasol, amserol ac ystyrlon i bobl ifanc.
- Argymhelliad 6: Targedu ymyraethau o saith oed ymlaen, fel bod myfyrwyr yn derbyn cyngor cywir a diduedd ar yrfaoedd cyn bod rhaid iddynt wneud dewisiadau pynciau allweddol, a sicrhau bod cyngor yn cael ei roi i bob person yn ogystal ag ar-lein trwy wefan Gyrfa Cymru sydd bellach yn llawer gwell. Mae STEM Gogledd yn bwriadu datblygu adnodd ar-lein, bydd Hwb STEM yn rhoi hawl i gyfranogwyr fynychu "siop-un-stop" gyda holl ddarpariaeth gwybodaeth STEM yng Ngogledd Orllewin Cymru gan gynnwys cyfleuster cyfeirio ble ceir dolenni i adnoddau darparwyr eraill gan gynnwys Gyrfa Cymru .
- Argymhelliad 14. Ymdrin â'r diffyg argaeledd mewn adnoddau dysgu STEM yn Gymraeg.

Mae rhaglen STEM felly'n hanfodol bwysig i Gymru, a bydd yn dod yn fwyfwy pwysig yn y dyfodol gyda'r cynnydd mewn galw am gyfleoedd gwaith STEM. Mae hyn yn gofyn am ymdriniaeth fwy strategol a chyd-gysylltiedig o'r ymyraethau yn y pynciau STEM amrywiol, un sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth a gwerthusiad o'u hardrawiad. Ymyraethau i ennyn diddordeb pobl ifanc yn STEM, merched yn arbennig, ac mae'n rhaid dylanwadu ar y dylanwadwyr, rhieni ac athrawon, cyn gynted â phosib.

Mae'n adnabod yr angen am newidiadau yn y cwricwlwm STEM i ganolbwyntio ar anghenion cymwysterau'r person ifanc yn ei yrfa ddewisedig neu lwybr dysg, nid beth all fod yn gyfleus neu'n ddeniadol i'r ysgol.

**Cyflwyno Gwyddoniaeth i Gymru 2015/16: Adroddiad blynyddol ar Strategaeth Wyddoniaeth yng Nghymru -** "Cyhoeddwyd adroddiad gan y grŵp 'Merched mewn Gwyddoniaeth' sef Merched Galluog er Cymru Lwyddiannus ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched - 8 Mawrth 2016. Ei nod yw gwneud argymhellion ymarferol i leihau'r rhwystrau ar bob lefel, o addysg i recriwtio, cadw a dyrchafu, gan gynnwys: **Cysylltiadau cryfach o gwmpas STEM**, rhwng ysgolion, colegau a'r gymuned fusnes." (TUDALEN 3) "Yn ffodus, mae **nifer o fentrau defnyddiol** i gynyddu'r nifer o **ferched sy'n dewis pynciau STEM-berthnasol penodol** ond nid oes **diffyg adnoddau olrhain hydredol i bennu eu heffaith**." (TUDALEN 17)

**Merched Galluog er Cymru Lwyddiannus: adroddiad ar addysg, recriwtio, cadw a dyrchafu merched mewn astudiaethau a gyrfaoedd sy'n ymwneud â STEM** - Mae'r adroddiad yn argymell ffyrdd o ymdrin â'r tan-gynrychiolaeth a'r anallu i ddal gafael ar ferched mewn STEM yng Nghymru, ac mae'n seiliedig ar bedwar prif thema - addysg, recriwtio, cadw a hyrwyddo. Mae'r tan-gynrychiolaeth o ferched yn y gweithlu STEM yn fater allweddol yng Nghymru. Bydd ymdrin â'r ffactorau sy'n effeithio ar benderfyniadau merched i ymgymryd ag addysg a gyrfaoedd STEM, aros ynddynt neu ddychwelyd atynt, yn cael effaith ddwys ar y ddawn sydd ar gael i fusnesau a'r gymuned ymchwil yng Nghymru, a thrwy hynny, les a ffyniant ein cymdeithas. Mae plant yn dechrau creu syniadau am eu rhyw o oedran ifanc iawn, ac fe all y syniadau hynny fod yn gymharol sefydlog erbyn oedran 10-14. Galwodd Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru am 'ymdriniaeth fwy strategol a chydgysylltiedig i ymyraethau yn y gwahanol bynciau STEM' a nododd bod 'ennyn diddordeb pobl ifanc mewn STEM, yn arbennig... angen dechrau cyn gynted â phosib.' Byddai gwell cyswllt rhwng diwydiant ac ysgolion yn fuddiol, felly hefyd y byddai rhoi caniatâd i blant fedru cyrchu amrywiaeth eang o eilunod benywaidd/arwresau mewn gyrfaoedd STEM, ar bob lefel. Rhaid gwella addysg gyrfaoedd a gwybodaeth a ddarperir yn amgylchedd yr ysgol neu'r coleg a dylid ei chynnig heb duedd tuag at un rhyw yn benodol, er mwyn galluogi i blant archwilio'r cyfoeth o gyfleoedd STEM sydd ar gael iddynt. Rhaid rhoi cyfle i bob plentyn ddod i gysylltiad â'r hyn sy'n ddifyr a boddhaol ynglŷn â STEM yn y byd o'u cwmpas.

**Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) mewn addysg a hyfforddiant[3] -** Ceir gweledigaeth eglur yng nghyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru 'Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) mewn addysg a hyfforddiant - cynllun cyflawni i Gymru', sy'n rhoi datblygu sgiliau a gwybodaeth STEM yng nghanol eu cynllun gwella addysg. STEM hefyd yw sylfaen arloesi mewn busnes a diwydiant ac mae'n hanfodol er datblygu economi wybodaeth ffyniannus a chynaliadwy. Mae cyhoeddiad amserol y cynllun cyflwyno hwn i Gymru wedi galw am adolygu cyfeiriad y cynnig STEM Gogledd gwreiddiol. Diben hynny fydd ymlynu'n well at gyfeiriad y polisi strategol cenedlaethol a'i ategu, a thrwy hynny, ymateb i rai o'r prif heriau lleol a chenedlaethol, a dechrau mynd i'r afael â nhw.

**Adolygu Cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru** - Mae Adolygiad Cymwysterau i blant 14-19 yng Nghymru yn egluro gweledigaeth y 'cymwysterau sy'n ddealladwy ac sy'n cael eu gwerthfawrogi ac sy'n diwallu angen ein pobl ifanc ac economi Cymru'. Mae'r adolygiad yn rhestru'r canlyniadau ac mae ganddo 42 argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Mae argymhelliad 17 yn datgan "y dylai Darparwyr ymgysylltu'n fwy effeithiol gyda phartneriaid megis cyflogwyr er mwyn darparu cymwysterau mewnol ynghyd ag elfennau o Fagloriaeth Cymru gan gynnwys profiad gwaith, addysg sy'n berthnasol i waith, elfennau sy'n seiliedig ar sgil, neu elfennau mentergarwch. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r fath gydweithio."

**Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru[4] -** Bydd STEM Gogledd yn ychwanegu gwerth i Yrfaoedd a Byd Gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11-19 oed

3 http://gov.wales/docs/dcells/publications/160311-stem-delivery-plan-cy-v2.pdf

4 http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130722-careers-world-of-work-cy.pdf

yng Nghymru trwy hyrwyddo profiadau dysg STEM trwy'r cwricwlwm cyfan. Nid oes gan y cwricwlwm hwn ofynion penodol i ysgolion parthed cyswllt gyda chyflogwyr a phrofiad o ymgysylltu gyda chyflogwyr. Gellir cyflawni'r deilliannau dysg trwy brofiadau hypothetic a ffug, ymchwil, dadansoddi data, dadansoddi storïol a chyflwyniadau. Bydd STEM Gogledd yn rhoi cyfle i ysgolion sefydlu perthynas wirioneddol rhwng cyflogwyr, pynciau STEM a fframwaith Gyrfaoedd a Byd Gwaith sy'n seiliedig ar alw a chyfle'n rhanbarthol. Mae budd gwerth ychwanegol posib i'w gael trwy STEM Gogledd, trwy'r disgwyliad i wella ymwybyddiaeth ymysg dysgwyr o 'Agwedd a Gwerthoedd (11-19)' sy'n tanategu'r paratoadau at fyd gwaith.
Er bod y Fframwaith Gyrfaoedd a Byd Gwaith yn orfodol ymhob ysgol, mae modd dehongli'r manylion o fewn y fframwaith yn eang o ysgol i ysgol. Er enghraifft, nid oes gofyn hanfodol na statudol i sicrhau bod profiad gwaith gwirioneddol y tu allan i'r ysgol yn digwydd. Canlyniad hyn yw bod amrywiaeth eang o arferion wedi datblygu ledled y rhanbarth ynglŷn â phrofiadau gwaith gwirioneddol y mae disgyblion yn eu cael.

**Bagloriaeth Cymru -** Mae Bagloriaeth Cymru'n cael ei ddefnyddio ym mhob ysgol uwchradd yn ardal yr ymgyrch ac mae'n cynnwys y cyfle i ddisgyblion ddewis 'Her Menter a Chyflogadwyedd'. Mae hwn yn ddewisol ac nid yw'n rhagnodol. Bydd STEM Cymru'n cynnig hwyluso hyn fel rhan o'r Ddewislen Gwasanaethau ac yn cynnig cydlynu gweithgareddau STEM gyda phartneriaid megis GwE, y Consortiwm Addysg rhanbarthol i ychwanegu gwerth i weithgareddau sy'n perthyn i STEM fel rhan Fagloriaeth Cymru. Gall STEM Gogledd ychwanegu gwerth i Fac Cymru. Trwy gysylltu ysgolion y rhanbarth gyda chyflogwyr a chanddynt gysylltiad STEM ac sydd â'r gallu gwirioneddol i ddatblygu sgiliau a nodweddion dysgwyr bydd sgiliau gwaith cyffredinol a throsglwyddadwy'r disgyblion yn gwella. Ar yr un pryd, bydd cynnydd yn eu hymwybyddiaeth o gyflogwyr a gwelliannau wrth gyflawni deilliannau'r cymhwyster. Gellir cynnal y berthynas a sefydlir rhwng yr ysgol a chyflogwyr a'i hehangu i brosiectau a gyrfaoedd eraill a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar fyd gwaith. Byddai hyn yn seiliedig ar angen a'r galw rhanbarthol, ac fe'i hwylusir gan brosiect sydd â dealltwriaeth ranbarthol a lleol gwirioneddol o'r gyrwyr allweddol a pherthnasol.

**Cynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau - Cyflwyno'r datganiad polisi ar sgiliau[5]** - Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer sgiliau hwn wedi cael ei ddatblygu i drwytho gweithgarwch yn y dyfodol mewn perthynas â sgiliau ôl-19 a pholisi cyflogaeth. Mae'r cynllun yn olynu'r datganiad polisi ar sgiliau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2014. Nod y cynllun yw manylu ar y camau y dylid eu cymryd gan Lywodraeth Cymru pan fydd yn gweithio gyda chyflogwyr, unigolion, undebau llafur a phartneriaid cyflwyno.

Fel y'i cyflwynid yn y datganiad polisi ar sgiliau, ein nod parhaus yw datblygu system sgiliau yng Nghymru sy'n ategu ein gallu cystadleuol yn y dyfodol, sy'n ein helpu i esblygu yn gymdeithas alluog, yn ogystal â mynd i'r afael â thlodi, ac a fydd yn gynaliadwy ar waethaf prinder cynyddol adnoddau. Byddwn yn canolbwyntio fwyaf ar gynyddu cynhyrchiant, lleihau rhwystrau i waith a chefnogi pobl i gael gwaith cynaliadwy. Bydd y camau a ddisgrifir yn egluro'r sylfaen ar gyfer datblygu system sgiliau cynaliadwy yng Nghymru sydd â'r gallu i ymateb i farchnad sgiliau sy'n dod yn fwyfwy fyd-eang, a pharatoi'r sylfeini ar gyfer amodau

5 http://gov.wales/docs/dcells/publications/140714-skills-implementation-plan-cy.pdf

y tu hwnt i'r cylch nesaf o arian Ewrop. Gan adeiladu ar ein datganiad polisi ar sgiliau, mae ein rhagolygon tymor hir ar gyfer sgiliau yn canolbwyntio ar: Sgiliau ar gyfer swyddi a thwf sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau lefel uwch trwy'r gweithlu, gan sicrhau bod dewisiadau galwedigaethol yn cael eu gwerthfawrogi, a chefnogi cyflogwyr i weithio gyda'i gilydd wrth ymateb i'w hanghenion sgiliau. Sgiliau sy'n ymateb i anghenion lleol gan ddarparu cynnig sgiliau a chyflogaeth sy'n integredig, yn daclus ac yn hygyrch. Hefyd, datganoli cyfrifoldeb i bartneriaid cyflwyno er mwyn datblygu ymateb hyblyg sy'n seiliedig ar anghenion mewn cymunedau lleol. Sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi. Gweithio gyda chyflogwyr i ddatblygu cymwysterau galwedigaethol i oedolion a fframweithiau prentisiaeth a chefnogi'r cyflogwyr hyn i ddefnyddio sgiliau eu gweithlu i'r eithaf trwy ddatblygu diwylliant o waith o safon uchel, a buddsoddi mewn sgiliau ochr yn ochr â'r llywodraeth. Sgiliau ar gyfer cyflogaeth. Rhoi cefnogaeth i unigolion fynd i weithio trwy roi mynediad i wybodaeth am sgiliau a chyfleoedd profiad gwaith, a chreu dyhead bod gan bob oedolyn sy'n gweithio'r gallu mewn llythrennedd, rhifedd a sgiliau TGCh o lefel benodol er mwyn cefnogi trywydd eu gyrfa.

**WISERD -** Mae AddysgWISERD yn brosiect gwerth £1m sy'n dilyn hynt 1,200 o ddisgyblion 5-17 oed wrth iddynt symud ymlaen drwy eu haddysg. Nod AddysgWISERD yw cryfhau ymchwil i addysg yng Nghymru, ac fe'i hariannir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Yn ystod mis Ebrill a mis Gorffennaf 2014, cynhaliodd WISERD arolwg o dair carfan, sef disgyblion blwyddyn 7, blwyddyn 9 a blwyddyn 11.
Y casgliad y daethpwyd iddo yn sgil canfyddiadau Blwyddyn 11, oedd "mai athrawon oedd y grŵp mwyaf dylanwadol o ran dylanwadu ar eu meddyliau ynglŷn â gyrfaoedd ac addysg bellach", o'u cymharu ag Athrawon Gyrfaoedd, Gyrfa Cymru, Asiantaethau Cyflogi, Athrawon, Cyfeillion a Brodyr a Chwiorydd.

**Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes**[6] - Mae Cwricilwm newydd i Gymru yn cael ei ddatblygu, gyda'r nod i fod ar gael yn yr ysgolion erbyn mis Medi 2018. Bydd y cwricilwm newydd yn gosod mwy o bwyslais ar baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd. Bydd yn cynnwys 6 maes dysgu gan gynnwys "Mathemateg a Rhifedd" a "Gwyddoniaeth a Thechnoleg". Mae'r Grwp Datblygu Prosiect STEM Gogledd yn cynnwys Cydlynnwyr 14-19 lleol, GwE ac athro. Mae sylwadau parhaus aelodau'r Grwp Datblygu an y sector addysg yn cael ei cynnwys wrth i'r prosiect barhau i ddatblygu. Bydd STEM Gogledd yn brosiect hyblyg fydd yn gallu ymateb i newidiadau yn y cwricilwm a'i flaenoriaethau yn ystod y flwyddyn, gan gymryd cyngor gan ein partneriaid addysg rhanbarthol. Byddem yn croesawy unrhyw gyfle i gydweithio gyda Ysgolion *Pioneer* yn y rhanbarth.

**Datganiad Gweinidog "Bydd rhwydwaith Cenedlaethol er rhagoriaeth mewn gwyddoniaeth a thechnoleg yn cael ei sefydlu**"[7] - Ar 7 Ionawr, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, y byddai dros £4m yn cael ei fuddsoddi i sefydlu rhwydwaith newydd fydd yn anelu at wella sgiliau athrawon mewn gwyddoniaeth a thechnoleg ac yn gwella profiad disgyblion yn y pynciau hynny pan ydynt yn yr ysgol. Yn ei sgil, bydd ysgolion

---

6 http://gov.wales/docs/dcells/publications/151021-a-curriculum-for-wales-a-curriculum-for-life-w.pdf
7 http://gov.wales/newsroom/educationandskills/2017/new-national-network-of-excellence-for-science-and-technology-to-be-established/?lang=cy

yn gweithio gydag adrannau gwyddoniaeth a thechnoleg mewn prifysgolion, consortia addysg, addysg bellach ac arbenigwyr eraill. "Bydd y rhwydwaith rhagoriaeth Gwyddoniaeth a Thechnoleg newydd yn:

- Dwyn ynghyd wybodaeth flaenllaw ar arferion dysgu mewn gwyddoniaeth a thechnoleg ar gyfer disgyblion 3 i 18.
- Cydlynu datblygiad a chyflwyniad datblygiad proffesiynol gwyddoniaeth a thechnoleg gydnabyddedig i athrawon, yn seiliedig ar dystiolaeth fyd-eang a lleol ar yr hyn sy'n llwyddiannus.
- Gwella profiadau disgyblion o wyddoniaeth a thechnoleg mewn ysgolion ledled Cymru.
- Galluogi ysgolion i gydweithio i ddatblygu cyrsiau, adnoddau dysgu a gwaith ymchwil yn y dosbarth."

**Cyfoethogi a gwella** – Mae'r dystiolaeth yma yn awgrymu fod gweithgareddau cyfoethogi a gwella yn cynnyddu cymhelliant ac ymgysylltiad disgyblion mewn gwyddoniaeth. Nodwyd fod gweithgareddau sy'n cyfoethogi a gwella cymhelliant STEM yn cael ei cynnig gan nifer o asiantaethau, gan gynnwys darparwyr addysg uwch, awdurdodau lleol, cyrff cenedlaethol a chwmniau bach, sydd yn rhoi ystod eang o opsiynau ar gyfer athrawon. O'r ymchwil yma mae'n amlwg fod gweithgareddau gwahanol yn apelio at ddisgyblion gwahanol, bydd y Mentoriaid STEM yn gallu cefnogi unigolion drwy ddatblygu cynllun dysgu unigryw.

**<u>Polisïau'r DU</u>**

**Y Gymdeithas Frenhinol: Cynyddu'r Pŵl Gwyddoniaeth -** Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y 'pŵl' o ddisgyblion 16-19 oed yn y DU sy'n astudio cyfuniadau gwyddoniaeth a mathemateg prif lif sy'n eu cymhwyso i fynd i addysg uwch. Mae'r Gymdeithas Frenhinol wedi adnabod swyddogaeth gwyddoniaeth yn nhwf economaidd y DU. Mae busnesau'n galw am fwy o weithwyr a chanddynt well sgiliau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg. Mae nifer annigonol o raddedigion STEM i ddiwallu anghenion addysg uwch a chyflogaeth. Er mwyn ymdrin â'r materion hyn a adnabuwyd, mae'r Gymdeithas Frenhinol yn nodi y dylid ymdrin â'r hyn a ganlyn:

1. Mae angen cynyddu maint y 'pŵl', sef nifer a chyfran y disgyblion 16-19 oed sy'n astudio at gymwysterau gwyddoniaeth a mathemateg prif lif yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.
2. Rhaid i'r wybodaeth, y cyngor a'r cyfarwyddyd sydd ar gael i'r 'pŵl' yma o ddisgyblion 16-19 oed eu galluogi i ddewis pynciau fydd yn eu helpu i drosglwyddo'n rhwydd i gyrsiau addysg uwch STEM.

**Y weledigaeth ar gyfer Addysg Gwyddoniaeth a Mathemateg** - Yn yr adroddiad hwn ceir y weledigaeth ar gyfer Gwyddoniaeth a Mathemateg erbyn 2030, ac mae'n cynnwys cynllun 20 mlynedd. Mae'r weledigaeth yn amlygu'r angen i gysylltu dysg a sgiliau pobl gydag anghenion yr economi yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r weledigaeth yn cydnabod pwysigrwydd dealltwriaeth myfyrwyr o arwyddocâd STEM. Cyflawnir hyn trwy well ymwybyddiaeth a chyfarwyddyd gyrfaol. Argymhellir bod gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn dod yn rhan hanfodol o'r wythnos ysgol/coleg o'r cyfnod cynharaf yn yr ysgol uwchradd. Yn ogystal â hyn, mae'n amlygu'r angen am godi ymwybyddiaeth ymysg rhieni o sut gall STEM gynnig cyfleoedd gwaith niferus ac amrywiol i bob plentyn. Noder yn y weledigaeth, os yw ysgolion am gynnig cyngor gyrfaoedd a phrofiad gwaith rhagorol, bod rhaid iddynt feithrin

perthynas well gyda chyflogwyr. Dylai profiad gwaith gael ei gynllunio a'i ddarparu gyda chyd-destun lleol yr ysgol a'r farchnad lafur mewn golwg. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at bwysigrwydd a thwf y cyfryngau cymdeithasol ymysg pobl yn eu harddegau, ac mae'n awgrymu ffordd newydd ac arloesol o ddarparu cyngor gyrfaoedd. **Twf Trwy Bobl -** Ynghlwm â'r blaenoriaethau gweithredu yn y ddogfen, datgenir "y dylai bod gwell cysylltiad rhwng addysg a chyflogwyr".

Rhaid cynyddu'r lefel o ymgysylltu rhwng addysg a busnesau. Dylai bod byd gwaith a chyswllt â'r byd hwnnw'n rhan ganolog o brofiad addysgol pob person ifanc. Ynghyd â gwybodaeth gadarn a hygyrch am y farchnad lafur, dyma gadernid y cynnig gyrfaoedd safon uchel i bobl ifanc. "Mae profiad o waith a gwybodaeth o safon uchel am yrfaoedd yn hanfodol wrth baratoi pobl ifanc ar gyfer gweithio ac wrth fynd i'r afael ag arwahanu galwedigaethol. Rhaid i ysgolion hefyd gymryd rhan wrth herio'r ystrydebau rhyw, gan weithio gyda chyflogwyr a chynrychiolwyr dysg undebau i wneud hynny." Gail Cartmail, Ysgrifennydd Cyffredinol Cynorthwyol, Undeb Unite.

Er mwyn cysylltu addysg a chyflogwyr yn well, mae angen yr hyn a ganlyn:

- I greu llwybrau newydd i waith, rhaid cychwyn yn llawer cynharach. Mae pobl ifanc yn gweld eu rhieni fel modelau rôl sydd â rhan hanfodol yn eu dewis o yrfa, ond mae angen addysgu rhieni ynghylch yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys mynediad i wybodaeth am y farchnad lafur, profiad gwaith ac ymgysylltu gyda chyflogwyr. Dylid rhoi cefnogaeth i golegau addysg bellach weithio gyda chyflogwyr i ddarparu addysg technegol a phroffesiynol lefel uwch i ddiwallu'r bylchau yn sgiliau technegol y DU.

Mae cydweithio mwy clòs rhwng cyflogwyr, colegau a phrifysgolion yn hanfodol i sicrhau bod cyfleoedd di-dor ar gael i weithio a dysgu trwy gydol gyrfaoedd sy'n parhau'n hirach.

***Making it all add up*, Blaenoriaethau busnes ar gyfer rhifedd a mathemateg CBI**[8] - Mae'r astudiaeth hon yn amlygu nad oes digon o bobl ifanc, ar hyn o bryd, yn gadael ysgol a choleg gyda'r sgiliau rhifedd a mathemateg sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwaith a bywyd. Mae'r astudiaeth yn dweud bod angen i'r DU wneud mwy i wella hyn, gan gynnwys: "Dylai pobl ifanc adael addysg ffurfiol gyda'r hyder a'r gallu i ddefnyddio rhifedd a sgiliau mathemateg a'u rhoi ar waith yn y gweithle neu yn eu hastudiaethau pellach; Dylid annog mwy o bobl ifanc i ddal ati gyda'u haddysg rhifedd a mathemateg ar ôl 16, er mwyn diwallu'r angen yn y DU am dechnegwyr a gweithwyr sy'n rhugl mewn rhifedd ac y mae ganddynt sgiliau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM)". Er mwyn cyflawni'r deilliannau hyn, ymysg pethau eraill, argymhellir "sicrhau bod pob person ifanc yn dal ati gyda rhifedd a mathemateg mewn addysg a hyfforddiant ôl-16; rhaid i fusnesau chware eu rhan mewn hyrwyddo pwysigrwydd rhifedd a mathemateg."

**Pam y dylai eich busnes ddychwelyd i'r ysgol: Sut allwch chi ysbrydoli'r genhedlaeth STEM nesaf, *Project Enthuse*[9]** - Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad i fusnesau a sefydliadau sydd

---

8 www.cbi.org.uk

9 https://www.stem.org.uk/elibrary/resource/169379/project-enthuse-why-your-business-should-go-back-school-how-you-can-inspire

eisiau rhoi cefnogaeth ac ysbrydoliaeth ynghylch gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg mewn ysgolion. Datblygwyd y canllaw yn dilyn ymgynghoriad gydag athrawon. Y nod yw dangos y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc os ydynt yn astudio pynciau STEM, a'u hannog i ddal ati gyda gwyddoniaeth a mathemateg ar ôl 16. "Mae ymchwil yn dangos ein bod yn medru gwneud hyn trwy helpu busnesau i ddod â'r cyd-destun byd go iawn ac ysbrydoliaeth i'r dosbarth mewn ffordd sy'n mynd i gael effaith wirioneddol. Rydym yn gwybod bod rhoi addysg yn ei chyd-destun ac ehangu gorwelion myfyrwyr trwy gynnwys enghreifftiau o sut mae gwybodaeth a sgiliau STEM yn cael eu defnyddio mewn cymdeithas ac yn y gweithle yn cael effaith bositif ar ymgysylltu a chyflawni." Mae'r canllaw yn awgrymu y dylai busnesau ddarparu enghreifftiau o bobl y gellid eu hefelychu ar bob lefel er mwyn i bobl ifanc gael gweld yn union beth sy'n digwydd mewn gwaith sy'n gysylltiedig â STEM.

**Addysg gyrfaoedd: *International literature review*, (Gorff 2016)[10]** - Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r dystiolaeth sy'n sylfaen i addysg gyrfaoedd a'i heffaith ar sgiliau a chanlyniadau disgyblion. Mae'r adroddiad yn dangos bod mentora'n medru arwain at ganlyniadau gwell a chadarnhaol mewn addysg.

**Strategaethau Rhanbarthol a Lleol**

**Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol BUEGC[11]** - Cafodd y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth ei ddatblygu gan Grŵp Llywio Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru, sy'n is-grŵp i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r grŵp bellach wedi cael cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru fel Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru swyddogol, ac mae wedi derbyn cefnogaeth gan y Gweinidog am ei fod yn rhoi asesiad o'r materion sy'n wynebu Gogledd Cymru ar hyn o bryd parthed sgiliau a llafur. Mae'r Cynllun Sgiliau Rhanbarthol yn adnabod yn glir beth yw'r gofynion sgiliau a llafur yn y rhanbarth yn awr ac yn y dyfodol, ac mae'n rhoi braslun o'r ymyraethau rhanbarthol sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r rhain.

Nod tymor hir y cynllun yw creu marchnad lafur gystadleuol yn y rhanbarth, gyda chyflenwad o sgiliau lefel uchel, yn arbennig mewn sectorau twf allweddol. Cael lefelau rhagorol o sgiliau ymhob oedran, a system addysg sy'n cael ei thywys gan alw a chyda blaenoriaethau cyflogwyr yn cael eu hadlewyrchu yng nghwricwlwm addysg y rhanbarth. Bydd hyn yn galluogi i'r farchnad lafur sicrhau meddiant o'r sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen i gael swyddi wrth iddynt gael eu creu.

Y sectorau blaenoriaeth a adnabuwyd fel rhan o'r Cynllun yw Ynni a'r Amgylchedd, Uwch-gynhyrchu a Deunyddiau, ac Adeiladu, yn ogystal â'r sectorau twf a ganlyn: Creadigol a Digidol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Twristiaeth a Lletygarwch, a Chynhyrchu Bwyd a Diod.

Un o'r risgiau a adnabuwyd yw'r farchnad lafur yng Ngogledd Cymru, gyda chyfuniad o boblogaeth sy'n heneiddio, diffyg cynllunio olynol gan gyflogwyr, mewnlifiad o bobl sydd wedi ymddeol, a'r heriau ynghylch cadw pobl ifanc yn yr ardal ar ôl iddynt orffen astudio.

---

10 https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Publications/Careers_review.pdf

11 http://issuu.com/nweab/docs/skills_plan_final_web_file

Mae'r cynllun yn adnabod yr angen i gefnogi cysylltiadau mwy clòs gyda chyflogwyr a'n darparwyr addysg er mwyn ymdrin â'r risg posib nad yw'r sgiliau priodol yn bodoli yn y rhanbarth i fanteisio ar gyfleoedd cyflogi posib.

Gyda thoriadau i Gyrfa Cymru yn y rhanbarth, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion gael profiad gwaith a lleoliadau wedi cael eu heffeithio'n arw. O ganlyniad, nid oes cysondeb bellach yn bodoli wrth fynd ati i gefnogi pobl ifanc a chyflogwyr. O ystyried y twf rhagdybiedig i'r economi, mae gan bob darparwr addysg waith i'w wneud i gefnogi gwell cysylltiadau gyda chyflogwyr. Mae angen cychwyn y gwaith o dargedu'n benodol mewn ysgolion o oedrannau iau, yn ogystal ag ymdrin â'r diffyg mewn arweiniad gyrfaoedd a phrofiad gwaith ymysg ysgolion ledled y rhanbarth.

Mae heriau wedi'u hadnabod ymhob un o'r sectorau blaenoriaeth:

- Ynni a'r Amgylchedd - angen ehangu darpariaeth addysg a sgiliau yn rhanbarthol i ysgogi ac ysbrydoli llwybrau gyrfaol y dyfodol yn y sector mewn ymateb i'r gweithlu presennol sy'n heneiddio. Mae hefyd angen sgiliau technegol gwell sy'n gysylltiedig â STEM i ddiwallu'r galw gan gyflogwyr ac yn dechnolegol.
- Uwch-gynhyrchu a Deunyddiau - codi ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc, yn arbennig merched, o'r cyfleoedd sy'n bodoli yn y sector. Fe wnaiff hyn gynorthwyo i newid agwedd am y diwydiant a mynd i'r afael â bylchau sgiliau'r dyfodol.

Un her ychwanegol a adnabuwyd yw bod angen i'r rhanbarth hyrwyddo'r cynnydd yn y niferoedd sy'n astudio pynciau STEM. Diben hyn yw diwallu anghenion sectorau allweddol megis Ynni, Cynhyrchu ac Adeiladu; mae cymwyseddau STEM hefyd yn gynyddol angenrheidiol yn ein sectorau twf megis Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Creadigol a Digidol, Bwyd a Diod, yn ogystal ag yn elfennau twf y Diwydiant Twristiaeth.

Fe wnaeth ymchwil a gafodd ei gomisiynu gan y Cynllun Sgiliau Rhanbarthol o fewn BUEGC ar Weithgareddau STEM ledled Gogledd Cymru amlygu'r diffyg cydlynu a darpariaeth anfynych, yn aml gan asiantaethau darparu cenedlaethol neu brosiectau sydd heb ymwybyddiaeth economaidd ranbarthol o gyfleoedd yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â STEM. Mae ymchwil yn datgan yn eglur bod angen ymdriniaeth gydlynol wrth hyrwyddo'r sgiliau cyflogadwyedd ychwanegol sy'n ddisgwyliedig yn y gweithle.

Mae'r cynllun yn adnabod bod yr Iaith Gymraeg yn ased allweddol ac yn gryfder i'r farchnad lafur yng Ngogledd Cymru, a dylid annog a datblygu cyrsiau cyfrwng Cymraeg i'r rhai sy'n 16 neu'n hŷn ymhellach er mwyn rhoi cefnogaeth i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.

**Prosiect Wylfa Newydd: Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned**[12] - Bydd Prosiect Wylfa Newydd yn dod â buddsoddiad a buddion arwyddocaol i economi Ynys Môn a Gogledd Cymru. Amcangyfrifir y bydd angen 8,000 i 10,000 o adeiladwyr yn ystod y cyfnodau prysuraf. Bydd hyn yn cynnwys adeiladwyr ar Safle'r Atomfa, yng Nghyfleusterau'r Orsaf Bŵer oddi ar y Safle, a Datblygiadau Cysylltiedig. Bydd y prosiect hefyd yn creu ac yn cefnogi

12 http://consultation.horizonnuclearpower.com/hafan

cyflogaeth bellach a chyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi mewn gwasanaethau a diwydiannau cefnogol. Unwaith bydd yr Orsaf Bŵer yn gweithio, rhagdybir y bydd 850 o swyddi parhaol yn cael eu creu, a bydd yn cynnwys amrywiaeth o swyddogaethau.

**Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd 2013-2017[13] -** Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â nifer o faterion pwysig, cymhleth a hirdymor. Nod y cynllun yw creu economi sy'n fwy ffyniannus a chynaliadwy. Cyflawnir hyn trwy wella perfformiad economaidd a sgiliau i greu/cynnal swyddi; gan sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bobl ifanc. Mae rhestr o egwyddorion wedi'i chynnwys yn y cynllun, gan gynnwys: sicrhau gweithlu galluog - trwy ddatblygu sgiliau pobl fel eu bod yn medru gwneud yn fawr o'r cyfleoedd gwaith a allai ddatblygu yn y dyfodol.

- Economi - gwella sgiliau'r boblogaeth fel bod cyfleoedd yn economi'r dyfodol yn medru cael eu cymryd; cefnogi a gwella cyfleoedd busnes a thwf cyflogaeth amrywiol; datblygu sgiliau i ddiwallu anghenion cyflogwyr. Diben y nod hwn yw sicrhau bod pobl yn meddu ar yr addysg a'r sgiliau angenrheidiol i sicrhau cyflogaeth.
- Addysg - meithrin diwylliant o gyflawni uchel ac uchelgais mewn ysgolion, colegau a lleoliadau hyfforddi. Y nod o gyflawni hyn yw y bydd graddau TGAU pobl ifanc yn gwella.

<u>Gwynedd</u>

**Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-17[14] -** Mae STEM gogledd Cymru yn ymdrin yn uniongyrchol â Blaenoriaethau'r Thema Plant a Phobl Ifanc: Codi Safonau Addysgiadol Plant a Phobl Ifanc, Paratoi Pobl Ifanc yn Well ar gyfer Byw a Gweithio'n Lleol; a Blaenoriaethau yn y Thema Economi, gan wella cryfder a chadernid busnes a chadw'r budd economaidd yn yr economi lleol.
Deilliannau disgwyliedig ar gyfer thema Plant a Phobl Ifanc yw Canran y disgyblion 16 oed sy'n cyrraedd Trothwy Lefel 2 (5 Gradd A* - C) neu gyffelyb
Deilliannau disgwyliedig ar thema'r Economi yw'r nifer o swyddi gwerth uchel sydd wedi'u creu; Y nifer o swyddi newydd sydd wedi eu creu gyda chymorth y Cyngor.

**Strategaeth Ansawdd Addysg Gwynedd** - Mae Strategaeth Ansawdd Addysg Gwynedd wedi ei hanelu at sicrhau bod gan ysgolion y ddarpariaeth i alluogi i blant a phobl ifanc gyrraedd y lefel uchaf, a meithrin y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fyw a ffynnu'n lleol. Mae'r strategaeth yn nodi bod angen gwella safonau Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 4.

<u>Ynys Môn</u>

**Cynllun Corfforaethol Ynys Môn 2013-2017[15] -** Nod y cynllun yw y bydd Cyngor Sir Ynys Môn, erbyn 2017, yn gyngor proffesiynol sy'n cael ei redeg yn dda, yn arloesol ac yn edrych tuag allan o ran eu dull sydd wedi ymrwymo i ddatblygu eu pobl a'u partneriaethau er mwyn cyflwyno gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd da. Ceir blaenoriaethau o fewn

13 http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2014/08/28/d/y/f/Cynllun-Integredig-Sengl.pdf

14 https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-Strategol-2016-17-(f3).pdf

15 http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2014/04/02/u/s/p/corporate-plan-2013-2017.pdf

Cynllun Corfforaethol Ynys Môn, gan gynnwys Adfywio Cymunedau a Datblygu'r Economi; Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio Ysgolion.

Mae'r economi yn fater arwyddocaol i lawer gyda chreu swyddi'n rhan hanfodol er mwyn darparu sail gadarn i wella ansawdd bywyd. Mae'r Rhaglen Ynys Ynni a'r statws Ardal Fenter a ddynodwyd yn ddiweddar yn rhoi cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu swyddi newydd sylweddol o ganlyniad i'r buddsoddiad sydd wedi'i gynllunio a photensial twf y sector ynni carbon isel. Bydd y Cyngor yn edrych ar ddatblygu cynlluniau fydd yn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc, yn gwella isadeiledd ac yn cefnogi'r gadwyn gyflenwi. Y gobaith yw y bydd hyn yn arwain at gynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth, yn enwedig yn y sector ynni carbon isel, a gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n mudo o'r ardal.

Mae'r Cyngor yn dymuno gweld pob plentyn, person ifanc, a dysgwr, waeth lle y maent ac waeth beth fo'u cefndir a'u hamgylchiadau, yn cyflawni eu potensial llawn a chwarae rhan weithredol fel dinasyddion cyfrifol a phencampwyr cymunedol yn y dyfodol. I'r perwyl hwn, blaenoriaeth gydnabyddedig ar gyfer y Cyngor yw herio'r meddylfryd presennol, annog arloesi a datblygu isadeiledd ysgolion fydd yn gwella safonau dysgu a chyrhaeddiad, gostwng niferoedd y llefydd gwag, gwella deilliannau addysgiadol i blant a phobl ifanc a bod yn ymatebol i'n rhaglen wella gymdeithasol-economaidd a chymunedol. Mae'r Cyngor yn addo parhau i godi safonau mewn cyrhaeddiad addysgiadol, cyfraddau a phresenoldeb; mabwysiadu a chyflwyno strategaeth sgiliau rhanbarthol sy'n galluogi i Ynys Môn a Gogledd Cymru i uwch-sgilio ei weithlu ac alinio ei hun â'r cyfleoedd fydd ar gael yn y dyfodol.

**Cyfle Posib Ynys Ynni a'r Effaith Economaidd[16] -** Gweledigaeth Ynys Ynni yw creu canolfan ragoriaeth fyd-enwog ar gyfer cynhyrchu, arddangos a gwasanaethu ynni carbon isel. I wireddu'r Ynys Ynni, mae angen canolbwyntio ar nifer cyfyngedig o gyfleoedd a all gyflwyno'r cyfuniad cywir o uchelgais, effaith a phroffil. Gall hyn chwarae rhan arwyddocaol mewn dyfodol economaidd mwy gwydn, amrywiol a ffyniannus ar gyfer Ynys Môn a Gogledd Orllewin Cymru. Y cyfle hanfodol yw'r potensial i gyflwyno datblygiad economaidd ac adfywio drwy ddatblygu'r economi carbon isel, mae hyn yn golygu cofleidio swyddi, ymgysylltu a chysylltu unigolion a chymunedau i swyddi drwy addysg ac hyfforddiant a gosod Cymru'n lleoliad arweiniol ar gyfer ymchwil i ynni. Dylid cefnogi ail-hyfforddi a sgilio'r gweithlu posib ar gyfer y gwaith adeiladu newydd a'r farchnad ynni ehangach er mwyn gwneud y mwyaf o'r buddion i'r ardal leol yn y dyfodol agos a thymor hir.

Sir Ddinbych

**Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2012-17[17]** - Ymysg Blaenoriaethau Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2012-17 mae datblygu'r economi lleol; gwella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion. Fel rhan o ddatblygu'r economi lleol, bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol i ddeall y gofynion sgiliau gan fusnesau yn Sir Ddinbych ac yn y farchnad ehangach, gan gynnwys yn y Parthau Menter yng Nglannau Dyfrdwy ac Ynys Môn. Byddwn yn sicrhau cyflwyniad cwricwlwm ysgolion perthnasol ac o

---

16 http://www.anglesey.gov.uk/Journals/public/attachments/126/Energy_Island_Exec_Summary_english.pdf

17 https://www.denbighshire.gov.uk/en/your-council/strategies-plans-and-policies/corporate-strategies/corporate-plan-2012-17-en.pdf

ansawdd uchel a darparu cefnogaeth i bartneriaid i greu galw a chyfleoedd am hyfforddiant, prentisiaethau, addysg bellach ac addysg uwch. Drwy wella perfformiad mewn addysg, bydd myfyrwyr yn cyflawni eu potensial llawn, bydd y Cyngor yn cefnogi ac yn herio ysgolion er mwyn codi safonau a gwella'r profiadau addysgiadol i bawb, a sicrhau fod y cynnig dysgu a'r cyfleoedd sydd ar gael yn galluogi i'r holl fyfyrwyr ym mhob cam o'u haddysg wneud eu gorau glas.

**Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol 2013 – 2023: Datblygu Cyfleoedd, Magu Hyder[18] -** Mae datblygiad economaidd wedi cael ei nodi fel un o brif flaenoriaethau Sir Ddinbych yn eu cynllun corfforaethol. Y disgwyliad yw y gall twf economaidd lleol arwain at well deilliannau i'n trigolion ac mae'n seiliedig ar Fodel economaidd sy'n cysylltu llwyddiant busnes â mwy o gyfleoedd am waith, gan arwain at lefelau incwm uwch a mwy o rym gwario fydd yn ei dro yn helpu i gynnal trefi a chymunedau bywiog. Mae pobl ifanc, yn enwedig rhai rhwng 18 a 25 mlwydd oed, yn tueddu i adael Sir Ddinbych, yn aml ar gyfer gwaith neu addysg bellach/uwch. Er mwyn i economi ffyniannus weithredu'n effeithiol, mae angen digon o bobl o oedran gweithio gyda'r sgiliau cywir ar gyfer ei farchnad lafur. Mae mynediad i waith, cyfleoedd dysgu a hyfforddiant addas a chyfleoedd am dai fforddiadwy yn ffactorau allweddol wrth ddenu a chadw'r boblogaeth weithio iau mewn ardal. Mae perfformiad awdurdod addysg Sir Ddinbych yn uchel ac mae ysgolion yn cefnogi pobl ifanc i gael cymwysterau da; fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi adnabod y niferoedd bychan o bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol heb gymwysterau ffurfiol fel maes sydd angen ei wella.

Fel rhan o Thema 4 er mwyn cyflawni gweithlu o ansawdd uchel, cefnogi a herio Gyrfa Cymru i wella'r cyngor Gyrfaoedd sydd ar gael i bobl ifanc mewn ysgolion, gwella amrediad, ansawdd ac argaeledd cyfleoedd am brofiad gwaith. Datblygu sgiliau uwch ar gyfer twf, adnabod a hyrwyddo llwybrau gyrfa mewn sectorau twf, gan ganolbwyntio'n benodol ar Weithgynhyrchu a Thechnolegau Ynni ac Amgylcheddol, ymchwilio i sut y gellir gwella ymgysylltiad â chyflogwyr i ddeall anghenion/bylchau sgiliau, sicrhau fod yr uwch sgiliau sydd eu hangen ar gyfer sectorau twf yn cael sylw effeithiol drwy gwricwlwm ysgolion/colegau.

Conwy

**Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2012-17[19]** - Un deilliant ar gyfer y cynllun yw fod pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu a bod ganddynt sgiliau. Y nod yw gwella cyfleoedd cyflogaeth lleol a gostwng y nifer o bobl ifanc sy'n mudo o'r ardal, gwella sgiliau ar gyfer cyflogaeth a gwella cyrhaeddiad addysgiadol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy weithio ar y cyd gyda phartneriaid i gyflwyno'r agenda gwella ysgolion rhanbarthol i wella safonau ar gyfer cyrhaeddiad mewn Sgiliau Allweddol a Phynciau Craidd TGAU. Ynghyd â chefnogi datblygiad cyrsiau Gwyddoniaeth a Thechnoleg priodol mewn ysgolion i helpu pobl ifanc i ennill sgiliau a chymwysterau i wella eu cyfleoedd cyflogaeth.

Grŵp Llandrillo Menai

18 https://www.denbighshire.gov.uk/en/your-council/strategies-plans-and-policies/corporate-strategies/economic-and-community-ambition-strategy-en.pdf

19 http://www.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/593/conwy_cbc_corporate_plan_201217_summaryfinal.pdf

**Cynllun Strategol 2015-2018[20] -** Mae Cynllun Strategol Grŵp Llandrillo Menai yn nodi sut fydd y sefydliad yn cael ei redeg yn ystod cyfnod 2015-2018. Mae GLlM wedi ymrwymo i ysbrydoli a symbylu eu myfyrwyr i lwyddo gyda chyfleoedd, cyflogaeth a ffyniant yn y rhanbarth. Fel rhan o'r Cynllun, mae GLlM wedi gosod eu Hamcanion Strategol:

- Cyflawni llwyddiant gwych i fyfyrwyr - drwy gynyddu cyfradd y myfyrwyr sy'n bwrw ymlaen i gyflogaeth, prentisiaethau neu ddysgu uwch.

Cefnogi anghenion sgiliau cyflogwyr mewn economi sy'n tyfu yng Ngogledd Cymru - drwy weithio gyda chyflogwyr i adnabod gofynion sgiliau a hyfforddiant.

Gyrfa Cymru (weler atodiad 31)

Cylch gwaith Gyrfa Cymru yw creu capasiti mewn ysgolion a cholegau gyda phwyslais ar dargedu'r rhai mewn swyddi Cydlynydd Gyrfaoedd. Mae tystiolaeth o arolwg barn ymysg dysgwyr rhanbarthol a phryder cynyddol o'r anhawster mewn darparu gwybodaeth gyfredol am yrfaoedd perthnasol a'r farchnad lafur er mwyn cyrraedd pobl ifanc mewn ysgolion nad oes ganddynt y rolau Cydlynwyr Gyrfaoedd traddodiadol hynny mwyach, yn bennaf yn sgil newid mewn adnoddau. Mae Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi cyfeirio at hyn.
http://regionalskillsandemploymentplan2016.co.uk/

Bydd STEM Gogledd yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at gynnig Gyrfa Cymru mewn ysgolion ac yn cynyddu'r gwerth drwy gynnig cefnogaeth mentora parhaus i'r bobl ifanc a'r Cydlynwyr Gyrfaoedd mewn ysgolion sy'n dymuno ymgysylltu â darpariaeth STEM estynedig. Gall Gyrfa Cymru ymgorffori Cydlynydd STEM y gwaith hwn i ddarparu gwybodaeth ranbarthol am y farchnad lafur a chysylltiadau gyda chyflogwyr rhanbarthol gan gysylltu â thwf a sectorau blaenoriaeth y rhanbarth. Mae Gyrfa Cymru yn bartner gwerthfawr sy'n rhan lawn yng Ngrŵp Datblygu Prosiect STEM Gogledd ac maent wedi darparu datganiad clir yn cefnogi datblygiad STEM Gogledd a'i gyflwyniad yn y rhanbarth i ategu gwasanaethau craidd Gyrfa Cymru.

**Astudiaeth i Weithgareddau sy'n ymwneud â STEM yng Ngwynedd a Môn[21] -** Comisiynwyd Dateb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gasglu tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n cael ei wneud i hyrwyddo ac annog astudio pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) ymysg pobl ifanc (7-18 oed) yng Ngwynedd a Môn ac adnabod unrhyw ddyblygu neu fylchau yn natur y gweithgareddau ymgysylltu â STEM sy'n cael eu cynnal. Argymhelliad allweddol yr astudiaeth oedd nad oes gan un sefydliad unigol yr adnoddau i gydlynu'r gwaith o hyrwyddo STEM a gweithgareddau ehangu ar y cwricwlwm a nododd y cyfranwyr i'r gwaith fod pethau'n tueddu i ddigwydd mewn dull heb ei gydlynu ac 'ad-hoc'.

20 https://www.gllm.ac.uk/policies/

21 Astudiaeth i Weithgareddau sy'n ymwneud â STEM yng Ngwynedd a Môn - Adroddiad Terfynol, 10 Mawrth 2011

Mae nifer o weithgareddau cysylltiedig â STEM wedi'u dylunio i 'fagu diddordeb' pobl ifanc ynghylch STEM mewn modd haniaethol ac nid ydynt o reidrwydd yn ceisio hyrwyddo astudio pynciau STEM yn yr ysgol na hybu cysylltiad rhwng sgiliau cysylltiedig â STEM a chyfleoedd gyrfa. Mae nifer o weithgareddau cysylltiedig â STEM sy'n cael eu cyflwyno yn yr ardal leol yn ddigwyddiadau 'unwaith ac am byth', sy'n golygu, o bosib, nad yw'r negeseuon sy'n cael eu cyfleu yn cael eu hatgyfnerthu. Dros y blynyddoedd, dim ond drwy gyfrwng y Saesneg mae nifer o raglenni hyrwyddo STEM neu ehangu'r cwricwlwm wedi bod ar gael, ac mae hyn wedi golygu nad ydynt wedi bod yn addas ar gyfer rhai ysgolion. Yn gyffredinol, credir fod amrediad eang o weithgareddau hybu STEM neu ehangu'r cwricwlwm ar gael ar draws yr holl Gyfnodau Allweddol, ond nad yw ysgolion o reidrwydd mewn sefyllfa i adnabod yr hyn sydd fwyaf addas at eu hanghenion.

**<u>Integreiddiad</u>**
**Cronfeydd Strwythurol ESF:**

Bydd STEM Gogledd yn gweithio law yn llaw â gweithrediadau eraill sydd yn eu lle, yn benodol y rhai sy'n bodoli'n barod megis STEM Cymru a'r Technocamps fydd yn cael eu datblygu yn y man, ynghyd â gweithrediadau eraill sy'n cyflawni yn y rhanbarth; gan sicrhau bod cynnig cytbwys ar gael ledled y rhanbarth yn seiliedig ar yr angen sydd wedi'i adnabod.

**STEMCymru II –** Mae STEMCymru II yn weithrediad sydd wedi hen ennill ei blwyf sy'n cael ei gyflwyno yn yr ardaloedd Cydgyfeiriant yng Nghymru gan Gynllun Addysg Peirianneg Cymru (EESW) Mae STEMCymru II yn adeiladu ar lwyddiant y prosiect STEMCymru gan barhau i annog pobl ifanc i gynyddu lefelau astudio a chyrhaeddiad mewn pynciau STEM. Mae STEMCymru II yn cyflwyno amrediad o ymgysylltiadau a gweithgareddau STEM sy'n gysylltiedig â chyflogwyr yn y diwydiant.

Mae'r Swyddogion o Gyngor Gwynedd sy'n arwain ar weithrediad STEM Gogledd wedi cyfarfod â Rheolwr STEMCymru II ar ddau achlysur er mwyn amlinellu'r gweithrediadau, trafod unrhyw gydweithio, sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu, ond sicrhau y gall y gweithrediadau ategu ei gilydd. Gwahoddwyd cynrychiolydd STEMCymru II i gyfarfod o Grŵp Datblygu Prosiect STEM Gogledd er mwyn ei gyflwyno i'r gweithrediad, er mwyn sicrhau fod holl aelodau PDG yn gwbl ymwybodol wrth ddatblygu gweithrediad STEM Gogledd. Mae gan STEMCymru II gynrychiolydd ar Grŵp Datblygu Prosiect STEM Gogledd ac mae hyn yn sicrhau fod y ddau weithrediad yn rhoi diweddariad rheolaidd i'w gilydd ar faterion.

Mae STEM Gogledd a STEMCymru II wedi adnabod y gall y ddau brosiect ategu ei gilydd. Gan y bydd gan STEM Gogledd gyswllt uniongyrchol gydag ysgolion drwy'r rolau Mentor STEM, gallai hyn fod yn ddull o gyfeirio cyfranogwyr cymwys ymlaen i STEMCymru II drwy'r Hwb STEM. Drwy hyn, bydd y ddau brosiect yn ychwanegu gwerth at ei gilydd ac yn hyrwyddo cydweithio.

**Technocamps: Ehangu Cyrhaeddiad STEM -** Mae'r gweithrediad Technocamps yn bwriadu ehangu at gyrhaeddiad STEM, yn dilyn llwyddiant y gweithdai a'r dosbarthiadau meistr Technocamps i gynyddu niferoedd y disgyblion o Gymru sy'n astudio Gwyddorau Cyfrifiadurol ar lefel uwch. Bydd y gweithrediad yn canolbwyntio ar ymgysylltiad estynedig, gyda chyfranogwyr sydd wedi derbyn ymyrraeth sylweddol gan y prosiect, sy'n cael ei annog drwy ymgysylltiad parhaus i ddewis astudio pynciau STEM ar lefel ôl-16. Mae'r Technocamps yn bwriadu gweithio â chyfranogwyr o ysgolion nad ydynt yn cynnig Gwyddorau Cyfrifiadurol fel dewis TGAU ar hyn o bryd, yn ogystal â'r rhai nad ydynt ond wedi dechrau ei gynnig ond sy'n cael anawsterau recriwtio a chyflwyno'r cwrs.

Mae cynrychiolydd o Techniquest Glyndŵr yn rhan o Grŵp Datblygu Prosiect STEM Gogledd; mae'r swyddog wedi cael rôl weithredol i ddatblygu'r cynllun busnes gan gyfrannu at weithgareddau gweithdy, ynghyd a darparu arweiniad clir ar sut all STEM Gogledd weithio gyda ac ategu ei gweithgareddau heb ddyblygu. Bydd STEM Gogledd yn cyfeirio ysgolion/disgyblion at ddarpariaeth STEM a cyfleoedd sy'n berthnasol i'w anghenion er mwyn cyfoethogi'r cynnig cwricilwm a profiad y dysgwr.

**Rhaglenni eraill:**

Techniquest Glyndŵr - Mae'r Ganolfan wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam. Mae'n cael ei gweithredu gan Wyddoniaeth Gogledd Cymru, ac mae ganddi'r prif amcanion a ganlyn:

- Hyrwyddo dyrchafiad addysg a dysgu, yn enwedig ymysg plant, mewn gwyddoniaeth a thechnoleg ac yn enwedig (heb gyfyngu cyffredinoldeb hynny) i wneud hynny drwy gynnal arddangosfa i ymchwilio i gysyniadau gwyddonol amrywiol a sicrhau ymwybyddiaeth ymysg plant ynghylch arwyddocâd gwyddoniaeth a thechnoleg mewn cymdeithas;
- Hyrwyddo dealltwriaeth cyhoeddus ynghylch gwyddoniaeth a thechnoleg drwy gyflwyno rhaglenni addysgiadol, gwyliau gwyddonol a gweithgareddau eraill o'r fath fel bo'r angen ym marn y cwmni.

Mae cynrychiolydd o Techniquest Glyndŵr yn rhan o Grŵp Datblygu Prosiect STEM Gogledd; mae'r swyddog wedi cael rôl weithredol i ddatblygu'r cynllun busnes gan gyfrannu at weithgareddau gweithdy.

Mae ymarferiad mapio arall wedi'i gynnal, er mwyn mapio gweithrediad arfaethedig STEM Gogledd gyda'r ddarpariaeth STEM allweddol arall yng Ngogledd Cymru. Gweler Atodlen 4.

**Llysgennadon STEM –** Mae STEMNET yn creu cyfleoedd i ysbrydoli pobl ifanc mewn STEM, gweithi gyda ysgolion, colegau a cyflogwyr STEM. STEMNET sydd yn rhedeg rhydwaith o Lysgennhadon STEM, gyda dros 30,000 o wirfoddolwyr. Mae Llysgennhadon STEM yn gwirfoddoli ei amser ac yn cefnogi hyrwyddo pynciau STEM.

Mae Grwp Datblygu Prosiect STEM Gogledd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Llysgennhadon STEM sef Keith Jones, mae wedi cyfrannu ei arbenigedd a profiad wrth ddatblygu'r prosiect er mwyn sicrhau fod y prosiect yn cwrdd ac angenion rhanbarthol y sector. Bydd STEM Gogledd yn ychwanegu gwerth ac ategu rol y Llysgenhadon STEM, heb ddyblygu darpariaeth. Mae STEM Gogledd wedi adnabod bylchau mewn darpariaeth, er enghraifft nid yw'r

Llysgenhadon STEM yn darparu cefnogaeth ar ffurf grwpiau bach nac un-i-un. Bydd STEM Gogledd yn ddarpariaeth i gydlynu a chydgysylltu darpariaeth STEM ar gyfer cyfranogwyr yn unol ac ymateb i anghenion yr economi ranbarthol.

**Nid oes unrhyw weithgaredd trawsgenedlaethol wedi'i gynllunio fel rhan o'r gweithrediad hwn.**

**<u>Ymgysylltiad hyd yma</u>**
Mae'r gwaith o gynllunio'r prosiect wedi'i wneud yn uniongyrchol ac ar y cyd ledled y rhanbarth gyda phartneriaid eraill sy'n rhan o gyflwyno'r gwasanaethau craidd a'r prosiectau eraill sy'n gysylltiedig â STEM. Mae natur y Grŵp Datblygu Prosiect yn seiliedig ar dryloywder, ymgynghori, ymglymiad uniongyrchol, dylanwadu, awgrymu ac adborth. Cynhaliwyd ymgynghoriadau ar lefel ranbarthol, gyda'r 4 awdurdod lleol (gan gynnwys ysgolion, Rhwydweithiau 14-19, Timau Adrannau Addysg a Datblygiad Economaidd), Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Cambria, Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Gyrfa Cymru, GwE a chyflogwyr.

Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda phobl ifanc yn nigwyddiad Sgiliau Cymru ar 08/10/2016 yn Venue Cymru, Llandudno; gweler canlyniadau llawn yr ymgynghoriad yn Atodlen 5. Cymerodd dros 30 o bobl ifanc ran drwy gwblhau holiadur ar-lein, gyda nifer gyfartal o ferched a bechgyn yn ymateb. Roedd pob cyfranogwr yn ddisgybl ysgol, gyda'r mwyafrif naill ai ym Mlwyddyn 10 neu 11. Bu i ddisgyblion o ardaloedd ar draws y rhanbarth gymryd rhan. Nododd 61% o'r cyfranogwyr nad ydynt yn ymwybodol o'r cyfleoedd cyflogaeth cysylltiedig â STEM sydd ar gael yn lleol. Dim ond 42% o'r cyfranogwyr nododd fod eu hysgolion yn cynnig lleoliadau profiad gwaith gyda chyflogwyr STEM. Mae Cwestiwn 15 yn ymgynghori ar y math o gyfleoedd y byddai pobl ifanc yn dymuno cael eu cynnig yn y dyfodol, er mwyn cefnogi'r gyfres hon o gyfleoedd byddai modd i ni gasglu fod angen rôl gydlynu ledled y rhanbarth. Byddai'r gofyn hwn yn cynnig gwasanaeth sydd lawer mwy na'r hyn sy'n cael ei gynnig gan Gyrfa Cymru ar hyn o bryd. Byddai'r rôl Gydlynu yn cefnogi i reoli perthnasedd, amseriad a swmp y wybodaeth mewn cysylltiad â STEM a phynciau ysgol er mwyn derbyn gwybodaeth am gyfleoedd yn y dyfodol. Mae'r ymgynghoriad a'r dystiolaeth yn awgrymu fod angen cysylltiadau cryfach a chliriach gyda'r pynciau cwricwlwm STEM fel rhan o'r swyddogaeth gydlynu.

**Ymgysylltu â Buddiolwyr ar y Cyd**
Mae'r pedwar awdurdod lleol wedi bod yn arwain ar y gwaith o ddatblygu'r gweithrediad hwn, ar y cyd â'r colegau AU, Colegau AB a Gyrfa Cymru yn y rhanbarth, ac mae'n cael ei arolygu gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae pob buddiolwr sy'n rhan o'r prosiect hefyd wedi ymgysylltu a chysylltu ag amrediad o bartneriaid ym mhob ardal leol.

Cyngor Gwynedd yw'r Buddiolwr Arweiniol. Mae'r pedwar awdurdod lleol arall yn fuddiolwyr ar y cyd.

**Awdurdodau Lleol**
Mae'r holl Awdurdodau Lleol yn bodloni diffiniad WEFO o Fuddiolwr ar y Cyd. Mae gan ALl gyfrifoldeb statudol am ddarparu addysg o ran addysg hyd at 16 oed. Mae STEM Gogledd yn ceisio annog mwy i astudio pynciau STEM. Mae'r holl ALl wedi bod yn rhan o ddatblygu'r gweithrediad hwn. Mae pob un yn cyfrannu at reoli'r gweithrediad.

Mae'r Gweithrediad wedi sefydlu Grŵp Datblygu Prosiect STEM Gogledd ac mae'r aelodaeth yn cynnwys y rhai a ganlyn:

| **Grŵp Datblygu Prosiect STEM Gogledd** | |
|---|---|
| **ENW** | **SEFYDLIAD** |
| Iwan Thomas | Cadeirydd y Grŵp<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Ali Hunt | NSAN |
| Catrin Thomas | Cyngor Gwynedd |
| Nia Medi Williams | Cyngor Gwynedd |
| Christine Wynne | Cyngor Conwy |
| John Gambles | Cyngor Sir Ddinbych |
| Aled Davies / Jayne Marr | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dave Perkins | Prifysgol Bangor |
| Scot Owen | Prifysgol Glyndŵr (Techniquest) |
| Catrin Williams | Grŵp Llandrillo Menai |
| Rhian Lloyd Thomas | Gyrfa Cymru |
| Hayley Dunne | Chwarae Teg |
| Claire Burgess | Horizon |
| Elfed Morris | Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd a Môn |
| Ian Connor / Paula Griffiths | Ymestyn yn Ehangach |
| Keith Jones | STEMnet |
| John Hughes | STEM Cymru |
| Peter Maddocks / Nicola Jones | GwE |
| Richard Harries | Llywodraeth Cymru |
| Dyfrig Jones | Ysgol Tryfan, Adran Addysg Gwynedd |
| Ffion Jones | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Dylan Herbert | SP Energy Networks |
| Pryderi ap Rhisiart | M-Sparc |
| Jo Swanston | Siemens |

Gweler Atodlen 7 am strwythur llywodraethu manwl, ac Atodlen 8 ar gyfer y Flaenraglen Waith.

Nod y Grŵp Datblygu Prosiect (PDG) yw cyfeirio datblygiad y gweithrediad gan wneud y defnydd gorau o adnoddau rhanbarthol er budd y gweithrediad; sicrhau fod buddiolwyr yn mabwysiadu dull o weithio mewn tîm a gweithio ar y cyd tuag at ddatblygu STEM Gogledd; sicrhau ei fod yn bodloni anghenion pobl ifanc yn y rhanbarth, a chyflawni'r buddion disgwyliedig; ystyried prosiectau blaenorol, modelau, ymgynghoriadau, gwersi a ddysgwyd, ymarfer gorau a'r holl faterion eraill fydd yn berthnasol i greu gweithrediad sy'n addas i bwrpas, gan sicrhau hefyd fod y wybodaeth hon yn cael ei rhannu ymysg partneriaid, er budd datblygu prosiect a chymryd rôl weithredol mewn rheoli perfformiad cyflwyniad y gwaith o ddatblygu'r cynnig prosiect nes ei fod yn dwyn ffrwyth.

Log Rhyngweithiadau STEM Gogledd
Mae log rhyngweithiadau manwl wedi'i ddatblygu ar gyfer y gweithrediad; mae hwn yn arddangos yr ymgysylltiad hyd yma. Gweler copi o'r Log Rhyngweithiadau yn Atodlen 19.

**Dadleoliad Sector Preifat**
Nid oes darpariaeth sector preifat gyfwerth ar gyfer dull STEM cydlynus i ehangu a hyrwyddo'r cynnig cwricwlwm y pynciau STEM craidd mewn ysgolion, sy'n cysylltu â'r dull partneriaeth gyda'r awdurdod lleol, ysgolion a darparwyr STEM.
Bydd y gweithgarwch prosiect sydd wedi'i gynnwys yn yr Hwb STEM o ganlyniad i Archwiliad STEM Gogledd Orllewin Cymru i sicrhau fod yr holl gyfleoedd a'r gweithgareddau ar gael i gyfranogwyr.

## a. Maen Prawf Strategol Pellach: Themâu sy'n Trawstorri

Er mwyn ychwanegu gwerth a chodi ymwybyddiaeth, bydd y gweithrediad yn edrych i fabwysiadu dulliau o ymarfer gorau drwy weithredu a monitro Themâu sy'n Trawstorri, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â; Cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd, Cefnogi'r iaith Gymraeg, Datblygiad Cynaliadwy, Trechu Tlodi ac Eithrio Cymdeithasol.

Yng Ngogledd Cymru, mae cyrff sector cyhoeddus wedi ymrwymo i'r **Amcanion Cydraddoldeb a Rennir: Prosiect cydweithio rhwng sefydliadau Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru**[22], sy'n cynnwys amcanion i leihau deilliannau anghyfartal mewn; iechyd, addysg a mynediad i wybodaeth.

Fel y sefydliad arweiniol, mae cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth galon gwerthoedd sefydliadol Cyngor Gwynedd.

Cyfrifoldeb y Rheolwr Rhanbarthol fydd cyfnerthu a bydd rheolwyr lleol yn cyflawni yn erbyn yr Amcanion Themâu sy’n Trawstorri.

Mae gan bob buddiolwr bolisi cyfle cyfartal grymus a bydd yr egwyddorion yn amlwg ynddo drwyddo draw, gan gynnwys rheoli a chyflwyno. Bydd y gweithrediad hwn yn cael ei ddatblygu yn unol â'r arweiniad sy'n ymwneud yn benodol â'r blaenoriaethau ar gyfle cyfartal, ynghyd â'r ddogfen canllawiau allweddol (gan gynnwys pwyslais ar ddarpariaeth ddwyieithog).

Bydd STEM Gogledd yn darparu cyfleoedd i'r holl gyfranogwyr cymwys, waeth beth fo'u hil, iaith, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, oedran, crefydd neu gred a bydd yn edrych ar weithio gyda chyfranogwyr i oresgyn unrhyw rwystrau a allai eu hatal rhag ymgysylltu â phynciau cysylltiedig â STEM mewn ysgolion a cholegau.

Bydd y gweithrediad yn edrych ar ddatblygu ffyrdd i dargedu, ymgysylltu ac annog pobl ifanc i ddilyn pynciau sy'n gysylltiedig â STEM mewn ysgolion a cholegau. Mae'r gweithrediad yn bwriadu gweithio'n agos â GwE[i] a Chydlynwyr 14-19, i fynd at ysgolion sy'n tangyflawni yn

22 http://www.gwegogledd.cymru/about-us/about-gwe

eu graddau A*-C yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16 i gynnig bwydlen o wasanaethau STEM Gogledd i'r ysgolion hyn fydd yn eu cynorthwyo i ychwanegu gwerth at y pynciau a'r gwersi Cwricwlwm Cenedlaethol drwy ategu perthnasedd galwedigaethol a negeseuon allweddol sy'n gysylltiedig â phynciau STEM y tu hwnt i'r cwricwlwm ac yng nghyd-destun dyfodol y rhanbarth a chyflogaeth gyfredol. Bydd y cyd-destun hwn yn ceisio darparu ysgogiad ac ysbrydoliaeth bellach i'r athrawon a'r disgyblion i gynyddu cyrhaeddiad a'r niferoedd sy'n astudio pynciau STEM mewn ysgolion, mewn AB, AU a gyrfaoedd gydol oes.

Bydd rôl y Cydlynwyr STEM a'r Mentoriaid STEM yn allweddol i lwyddiant y gweithrediad. Bydd y wybodaeth fydd ar gael drwy bartneriaid yn GwE, y Cydlynwyr 14-19, AB ac AU, yn cynorthwyo'r Cydlynwyr STEM a'r Mentoriaid STEM i adnabod y cyfranogwyr sy'n fwyaf tebygol o fod angen cefnogaeth gan y prosiect, er enghraifft: hwyluso mynediad i wybodaeth llwybr STEM personol estynedig, canllawiau a chefnogaeth o ran eu dewis STEM galwedigaethol, addysgiadol; Codi ymwybyddiaeth o ofynion y farchnad lafur leol a'r cyfleoedd cyflogaeth drwy ymgysylltu â chyflogwyr yn y sectorau sy'n gysylltiedig â sgiliau STEM, ynghyd â, chefnogi cyfranogwyr drwy'r pwyntiau trosglwyddo allweddol yn ystod y cylch academaidd mewn perthynas â hybu ymgysylltiad a pharhau â STEM, yn enwedig o ran ôl-16. Yn ogystal, bydd pwyslais sylweddol ar ymyraethau fydd yn annog mwy o ferched i ddilyn gyrfaoedd STEM.

Mae gan bob buddiolwr bolisi cyfle cyfartal a bydd yr holl weithgareddau a'r cyfathrebiadau sy'n gysylltiedig â'r gweithrediad yn glynu atynt.

Bydd cyfranogiad mewn gweithgareddau yn cael eu monitro drwy ffurflenni cyfle cyfartal i gael gwybodaeth ynghylch nodweddion cyfranogwyr. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd i sicrhau cynnig cytbwys ac adnabod unrhyw grwpiau nad oes darpariaeth ddigonol ar eu cyfer.
Bydd yr holl recriwtio a wneir fel rhan o STEM Gogledd ar gael i bawb, gan gynnwys y rhai gyda nodweddion gwarchodedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

## Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd

### Arwahanu rhywedd

Rydym yn ymwybodol y bydd angen defnyddio dull gwahanol i annog ymgysylltiad gan gyfranogwyr gwrywaidd a benywaidd. Bydd STEM Gogledd yn cynnig cefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer cyfranogwyr fydd yn seiliedig ar angen. Bydd cynnig cymharus, waeth beth fo rhyw y cyfranogwyr, yn dod ar gael i bawb. Bydd y ddarpariaeth yn edrych i alinio gydag ardaloedd penodol i sector megis peirianneg / adeiladu a gofal, sy'n gysylltiedig yn hanesyddol gyda rolau rhywedd ystrydebol.

Yn ogystal, yn ystod cyfnod byddino'r gweithrediad, bydd digwyddiadau anwytho yn cael eu cynnal gyda'r staff fydd wedi'u recriwtio er mwyn codi eu hymwybyddiaeth ynghylch cydraddoldeb rhywedd.

Yn yr un modd â phob Themâu sy'n Trawstorri, bydd hyn yn cael ei fonitro drwy gydol y gweithrediad. Bydd y gweithrediad yn monitro yn erbyn cynnydd gan gynorthwyo cyfranogwyr i wneud dewisiadau gyrfa perthnasol i STEM nad ydynt yn cael eu hystyried yn draddodiadol - drwy fonitro lleoliad/deilliannau'r cyfranogwyr a'r gweithgarwch monitro sy'n cael eu hystyried yn rhai sy'n cyfrannu at y sectorau/rolau hynny. Bydd hyn yn cael ei grisialu drwy roi ffurflenni monitro yn eu lle fel rhan o'r gweithrediad, e.e. ffurflen ymadael.

**Grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig**

Bydd y gweithrediad yn ceisio herio ystrydebau wrth gyflwyno a sicrhau mynediad cyfartal i bawb. Os oes gan gyfranogwr Saesneg fel Ail Iaith, gallai hyn gynnwys darparu mynediad i ESOL.

**Pobl Anabl/Cyflyrau Iechyd sy'n Cyfyngu ar Waith**

Bydd y gweithrediad yn ceisio cyflwyno cefnogaeth a gwasanaethau i gyfranogwyr sy'n cael gwared ar rwystrau sy'n eu hatal rhag ymgysylltu a chymryd rhan yn y gweithrediad neu unrhyw weithgareddau sy'n cael eu cyflwyno ar ran y gweithrediadau. E.e. rhwystrau ffisegol, darpariaeth o ddeunyddiau hygyrch a gweithio gyda grwpiau/sefydliadau anabledd (pan fo'n briodol).

**Cefnogi'r Iaith Gymraeg**

**Iaith a Hygyrchedd**

Hyrwyddo Blaenoriaethau Polisi Comisiynydd y Gymraeg[23] creu gweithlu ar gyfer y dyfodol a all wasanaethu Cymru ddwyieithog; a hefyd gefnogi'r Polisïau Iaith Gymraeg sy'n bresennol yn holl sefydliadau'r Buddiolwyr ar y Cyd a'r Buddiolwr Arweiniol (Gweler ATODLEN 24 ar gyfer polisi Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd). Mae polisi pob buddiolwr yn adnabod ymrwymiad i'r iaith Gymraeg, a'r gallu i recriwtio a chyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg. Ble bo'n briodol o fewn y rhanbarth, bydd swyddi'n nodi fod y Gymraeg yn ofyn hanfodol neu ddymunol, yn ddibynnol ar y cymunedau y byddant yn eu gwasanaethu (Er enghraifft yng Ngwynedd, bydd yr holl swyddi yn rhai ble mae'r Gymraeg yn hanfodol).
Bydd STEM Gwynedd hefyd yn edrych i gynyddu ymwybyddiaeth o fuddion yr iaith Gymraeg ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth a datblygiad economaidd i'r dyfodol.

Bydd y gweithrediad yn sicrhau fod yr holl ddeunyddiau, a'r cyhoeddusrwydd, wedi'u hanelu at y cyhoedd ar gael mewn ffurfiau dwyieithog hygyrch. E.e. Cymraeg/Saesneg

**Datblygiad Cynaliadwy**

Gyrwyr economaidd allweddol yng Ngogledd Cymru yw Ynni a'r Amgylchedd, Gweithgynhyrchu Uwch a Deunyddiau ac Adeiladu, ynghyd â'r pedwar sector twf o Digidol Greadigol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Twristiaeth a Lletygarwch a Chynhyrchu Bwyd a

---

23 http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/English/Policy,%20research%20and%20data/Policy%20priorities/Pages/Education-and-skills.aspx

Diod gan ddefnyddio LMI lleol a rhanbarthol i sicrhau fod cyfranogwyr wedi'u harfogi i wneud dewisiadau gwybodus a datblygu sgiliau STEM priodol i ddatblygiad llwybr gyrfa i gyflawni cyfleoedd mewn sectorau twf allweddol, e.e. darparu dull wedi'i dargedu i gyfranogwyr yn y sector carbon isel gyda chyfleoedd i gael gwybod am weithgarwch dilynol mewn naill ai amgylchedd academaidd neu alwedigaethol.

Mae gan yr holl fuddiolwyr sy'n bartneriaid ddull positif o ymdrin ag ymddygiad amgylcheddol positif, a bydd hyn yn cael ei annog drwy gydol y gweithrediad ble bo modd. Er enghraifft i gynnwys; ble bo modd, bydd gweithgaredd yn cael ei leoli mewn ardaloedd er mwyn atal teithio diangen, ailgylchu, arbed ynni a dŵr, rhannu cludiant a rheoli teithio effeithiol.

Er mwyn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy, bydd y gweithrediad yn ymrwymo i gynhyrchu:

- Cynllun Teithio; fydd yn hyrwyddo mentrau cludiant cynaliadwy sydd ar gael yn y rhanbarth; bydd hyn yn cynnwys rhannu ceir, ble bo'n briodol.
- Cod Eco; fydd yn hyrwyddo mesurau effeithiolrwydd adnoddau a chodi ymwybyddiaeth ynghylch sut fydd hyn yn cael ei gyflawni.

Bydd y ddwy ddogfen ar gael ar wefan y gweithrediad sy'n cael ei llwyfannu ar wefan y buddiolwr arweiniol, er dibenion cyfeirio ar gyfer budd-ddeiliaid. Gofynnir i'r holl staff sy'n gysylltiedig â'r gweithrediad ddarllen a chwblhau cydnabyddiaeth wedi'i lofnodi yn dweud eu bod wedi darllen y dogfennau.

**Trechu Tlodi ac Eithrio Cymdeithasol**

Mae STEM Gogledd yn canolbwyntio ar gefnogaeth wedi'i thargedu i ddileu rhwystrau i annog cyfranogiad a chodi lefelau cyrhaeddiad mewn pynciau STEM mewn Ysgolion fydd yn unol â [24] gwelliant cyffredinol Llywodraeth Cymru a chyfrannu at '*leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgiadol ac arfogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial a sicrhau cyflogaeth gynaliadwy.*

Mae gweithrediad STEM Gogledd yn bwriadu gweithio gyda chyfranogwyr i waredu'r rhwystrau allweddol sy'n ymwneud â'r diffyg ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth cysylltiedig â STEM ym marchnad lafur Gogledd Orllewin Cymru a gofynion llwybrau STEM priodol er mwyn cyflawni eu cyflogaeth o ddewis; drwy sicrhau fod gweithgareddau STEM sy'n cael eu cynnal yng Ngogledd Orllewin Cymru yn addas i bwrpas, ac yn ysbrydoli pobl ifanc i ddilyn y llwybr gyrfa priodol ac ennill y sgiliau STEM perthnasol i fodloni gofynion cyflogwyr a'u disgwyliadau eu hunain.

Bydd STEM Gogledd yn rhoi cefnogaeth i'r bobl ifanc mewn ysgolion ac ysgolion gyda lefelau cyrhaeddiad isel mewn pynciau STEM. Mae gweithgareddau'r gweithgarwch wedi'u hanelu at ychwanegu gwerth at bynciau a gwersi'r Cwricwlwm a gwella cyrhaeddiad.

24 http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/socialjustice/120625tackpovplanen.pdf

Mae partneriaid y gweithrediad yn cydnabod pryder y genhedlaeth diwylliant budd-daliadau a byddant yn gweithio i atal cenedlaethau'r dyfodol rhag tlodi: creu cyfleoedd cynnydd a helpu pobl i gael mynediad at y cyfleoedd hynny fydd yn arwain at gyflogaeth gynaliadwy. Bydd y gweithrediad yn mynd i'r afael â themâu allweddol y **Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016**[25] yn enwedig yr angen i helpu pobl i wella eu sgiliau ac ehangu perthnasedd eu cymwysterau i godi pobl allan o dlodi. Bydd hyn yn cynnwys:-

- creu swyddogaeth broceriaeth newydd er mwyn i bobl ifanc dderbyn cefnogaeth sydd wedi'i chydlynu'n briodol drwy Gydlynwyr STEM a Mentoriaid STEM;
- sicrhau fod y ddarpariaeth wedi'i hanelu at gefnogi pobl ifanc yn effeithiol o ran darparu'r gefnogaeth maent ei hangen;
- cryfhau sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd am waith;
- canolbwyntio cefnogaeth ar yr unigolion hynny sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf; fydd yn ei dro yn effeithio ar symudedd cymdeithasol.

Bydd STEM Gogledd yn cyfrannu at y nodau a ganlyn yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[26]:

- **Cymru ffyniannus** - bydd cyfranogwyr yn cael eu cefnogi drwy'r Mentor STEM a'r Hwb STEM i gael mynediad at wybodaeth llwybr gyrfa, ynghyd â chyfleoedd profiad gwaith ac felly gyfrannu at yr economi a ffyniant Cymru.
- **Cymru gydnerth** - Bydd STEM Gogledd yn cefnogi cyfranogwyr i oresgyn y rhwystrau a nodwyd, gan wella'r niferoedd sy'n astudio ac yn llwyddo mewn Pynciau STEM.
- **Cymru iachach** - Bydd Mentoriaid STEM yn ymgysylltu â chyfranogwyr a hyrwyddo ffordd o fyw iach ble bo'n briodol.
- **Cymru fwy cyfartal** - Bydd STEM Gogledd yn cynnig darpariaeth i'r holl gyfranogwyr cymwys o bob cefndir.
- **Cymru o gymunedau cydlynus** - Bydd STEM Gogledd yn cynnig darpariaeth mewn ysgolion a'r gymuned leol, ac yn hyrwyddo llwybrau gyrfa a chyfleoedd lleol.
- **Cymru ag iddi ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus** - Bydd cyfranogwyr STEM Gogledd yn cael eu cefnogi yn eu dewis iaith, gyda'r holl weithgareddau a'r deunyddiau ar gael yn ddwyieithog.
- **Cymru sy'n gyfrifol am y ddaear** - Bydd STEM Gogledd yn cyfrannu at economi leol sy'n ffynnu, ac yn ystyried unrhyw gyfraniad cadarnhaol ar lesiant byd-eang.

### Amcanion, Dangosyddion a thargedau cysylltiedig

## Uchafu potensial i gyfrannu at amcanion Themâu sy'n Trawstorri

Bydd STEM Gogledd wedi ymrwymo i adnabod, cefnogi a datblygu'r llwybrau priodol i alluogi cyfranogwyr i gael mynediad at yr addysg sgiliau STEM briodol i gyflawni sgiliau sy'n

25 http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/socialjustice/120625tackpovplanen.pdf

26 http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-en.pdf

berthnasol i'r rhanbarth er mwyn cynyddu eu gallu i gael mynediad i gyfleoedd penodol mewn ardaloedd twf rhanbarthol.
Fel rhan o'r rôl hon, bydd y gweithrediad yn:-

- Ymgorffori amcanion Themâu sy'n Trawstorri yn y gwaith o ddatblygu proses gyfeirio i gyfranogwyr, cyflwyno a thrwy ei bartneriaeth â budd-ddeiliaid eraill.
- Annog cyfranogwyr i fod yn fwy hyblyg ac addasadwy mewn marchnad lafur sy'n newid.
- Sicrhau fod gweithgareddau ar gael i'r holl gyfranogwyr, waeth beth fo'u nodweddion.
- Herio rhagdybiaethau ac ystrydebau.

## Cyflwyno

Wrth gyflwyno, bydd yr holl ddarpariaeth a deunyddiau ar gael yn ddwyieithog, ac fe ystyrir materion hygyrchedd bob amser i sicrhau mynediad i bawb. Er mwyn cefnogi hyn, bydd y gweithrediad yn ymrwymo i:

- Ddefnyddio amrediad eang o ddelweddau cadarnhaol i gynrychioli rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd.
- Sicrhau ei fod yn ymgysylltu â phartneriaid a chyflwynwyr sydd wedi'u caffael yn ddwyieithog, os ydynt yn gofyn am hynny.
- Sicrhau fod yr holl leoliadau hyfforddi yn hygyrch yn ffisegol, a ble bo modd, yn agos at lwybrau cludiant cyhoeddus da.

Bydd Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn eu lle gyda buddiolwyr ar y cyd, gellir cefnogi pwysigrwydd yr uchod yn y cytundebau hynny. Bydd hyn yn cael ei adleisio mewn cytundebau eraill megis Cylch Gorchwyl y Bwrdd Prosiect, Cylch Gorchwyl Grŵp Llywio'r Prosiect.

**Cyfranogwyr Grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig/Ymfudwyr**
Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar adnabod cyfranogwyr posib yn y gweithrediad sy'n anabl ac o Grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig/Ymfudwyr - mae'n debygol mai niferoedd isel fydd y rhain ymysg poblogaeth Gogledd Orllewin Cymru a bydd angen ystyried y lefel o gefnogaeth sydd ar gael yn barod i'r grwpiau hyn drwy wasanaethau/elusennau cyfredol.

| Cyfranogwyr | Nifer Targed | Rhesymeg |
|---|---|---|
| Cyfanswm y Cyfranogwyr | 550 | Mae gweithrediad STEM Gogledd yn cynnig gweithio â 12% o'r garfan. |
| Cyfranogwyr Benywaidd | 302 | Mae STEM Gogledd yn bwriadu cynnig cefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer benywod; felly'n cynnig gweithio â 55% o gyfranogwyr benywaidd. |
| Cyfranogwyr Gwrywaidd | 248 | Yn seiliedig ar yr uchod, mae STEM Gogledd yn bwriadu gweithio gyda 45% o gyfranogwyr gwrywaidd. |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfranogwyr Grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig/Ymfudwyr | 6 | Mae STEM Gogledd yn bwriadu gweithio â 1% o Gyfranogwyr Grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig/Ymfudwyr yn seiliedig ar y cyfranogwyr gwirioneddol ar gyfer y prosiect Llwyddo'n Lleol. |
| Cyfranogwyr Anabl | 11 | Mae STEM Gogledd yn bwriadu gweithio â 2% o Gyfranogwyr Anabl yn seiliedig ar y cyfranogwyr gwirioneddol ar gyfer y prosiect Llwyddo'n Lleol. |

## b. Maen Prawf Strategol Pellach: Addasrwydd y Buddsoddiad

**Angen am y Gweithrediad:**

**Cyfranogwyr Targed**
Y cyfranogwyr targed yw pobl ifanc rhwng 11 a 19 mlwydd oed, o fewn darpariaeth addysgiadol.

Mae'r buddiolwyr targed ar gyfer y gweithrediad hwn wedi'u hadnabod drwy gynnal asesiad manwl o Ddata Gogledd Orllewin Cymru. Seiliwyd y wybodaeth isod ar ein set o ddata cyfredol, ond fe all newid os ydym yn derbyn set newydd o ddata gan ein partneriaid ar gyfer y flwyddyn academaidd ddiweddaraf. Mae’r dadansoddiad a ganlyn wedi'i gwblhau gyda data a gafwyd gan CBAC, gwefan My Local School[27] ac Awdurdodau Lleol.

Mae buddiolwyr targed wedi'u hadnabod gyda'r 3 rhesymeg a ganlyn:

1. **Lefelau Cyrhaeddiad Ysgol/Addysg Bellach**

   a. **TGAU (MAE'R CANRANNAU HYN YN CYNNWYS YSGOLION ANNIBYNNOL)**

   Yn ôl data Llywodraeth Cymru ar gyrhaeddiad mewn ysgolion uwchradd mewn TGAU a Lefel A ar gyfer blwyddyn academaidd 2014/15, roedd 4,383 o ddisgyblion 15 mlwydd oed yn sefyll arholiadau TGAU [gan gynnwys disgyblion ysgolion annibynnol] a 33 ysgol uwchradd prif lif wedi'u cynnal yng Ngogledd Orllewin Cymru (ac eithrio ysgolion annibynnol). Canran y disgyblion yng Ngogledd Cymru a enillodd raddau A*-C mewn TGAU craidd Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg oedd 82.7%. Ym Môn, roedd y ffigwr hwn yn 83.1%, 83.6% yng Nghonwy, 86% yn Sir Ddinbych ac 88.9% yng Ngwynedd.

   Yng Ngogledd Cymru, cyflawnodd 64.3% o ddisgyblion 15 oed raddau A*-C mewn TGAU Mathemateg. 85.2% mewn TGAU Gwyddoniaeth; a 61.1% mewn TGAU TGCh. Bydd STEM Gogledd yn defnyddio'r cyfartaleddau hyn fel gwaelodlin ar gyfer y gwaith

27 http://mylocalschool.wales.gov.uk

targedu arfaethedig mewn cysylltiad â Bwydlen Gwasanaethau STEM Gogledd i ymestyn, ychwanegu gwerth a dod â pherthnasedd galwedigaethol i sefydliadau penodol sy'n dymuno cynyddu lefelau cyrhaeddiad a'r niferoedd sy'n astudio pynciau STEM y tu hwnt i 14, 16 a 18 mlwydd oed.

Ar draws Gogledd Orllewin Cymru, roedd canlyniadau TGAU Mathemateg yn amrywio o 62.5% yng Nghonwy i 66.9% yng Ngwynedd; 63.6% yn Sir Ddinbych a 64.5% yn Ynys Môn. Mae hyn yn cymharu â'r ffigwr o 64.4% o ddisgyblion yn cyflawni A*-C mewn TGAU Mathemateg yng Nghymru.

O ran y canlyniadau TGAU Gwyddoniaeth, cyflawnodd 81.5% o ddisgyblion yn Sir Ddinbych radd A*-C.; 84.3% yng Nghonwy; 91.8% yn Ynys Môn a 94.2% o'r disgyblion yng Ngwynedd. Roedd y ffigwr ar gyfer Cymru mewn TGAU Gwyddoniaeth yn 84% yn cyflawni A*-C.

Yr amrywiad mwyaf mewn canlyniadau oedd TGAU TGCh gyda chyrhaeddiad o 36.2% o A*-C yng Ngwynedd ac 88.5% yn Sir Ddinbych; a 48.3% yn Ynys Môn a Chonwy. Roedd y ffigwr ar gyfer Cymru mewn TGAU TGCh oedd 74% o ddisgyblion yn cyflawni A*-C. Nid yw TGCh yn bwnc craidd ac nid ydyw'n cael ei gynnig fel TGAU ac/neu Lefel A ym mhob ysgol.

**TGAU - YSGOLION:**

Mewn 12 o'r 33 ysgol uwchradd yng Ngogledd Orllewin Cymru, roedd y cyrhaeddiad A*-C mewn Mathemateg yn is na'r cyrhaeddiad ar lefel Cymru gyfan yn 2015. Roedd cyrhaeddiad A*-C disgyblion mewn 21 ysgol ar draws yr isranbarth yn uwch na lefel gyfartalog cyrhaeddiad cenedlaethol ac roedd yn amrywio rhwng 64.9% a 78.5%. Roedd y lefelau cyrhaeddiad is yn y 12 ysgol yn amrywio rhwng 62.5% a 41.5% - roedd yr isaf 23.0 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Gwell perfformiad o ran cyrhaeddiad A*-C mewn Gwyddoniaeth ar draws Gogledd Orllewin Cymru; fodd bynnag, mewn pump o'r 33 ysgol uwchradd, roedd cyrhaeddiad A*-C mewn Gwyddoniaeth yn is na'r cyrhaeddiad ar lefel Cymru gyfan yn 2015. Roedd cyrhaeddiad A*-C disgyblion mewn 28 ysgol ar draws yr isranbarth yn uwch na lefel gyfartalog cyrhaeddiad cenedlaethol ac roedd yn amrywio rhwng 84.4% a 99%. Roedd y lefelau cyrhaeddiad is yn y pum ysgol yn amrywio rhwng 83.6% a 69.5% - roedd yr isaf 14.9 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae llai na hanner (15) y 33 ysgol yn cynnig TGCh fel pwnc TGAU. Roedd cyrhaeddiad o ran A*-C mewn 12 o'r 15 ysgol yn is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru ac roedd yn amrywio rhwng 68.4% a 14.8% - roedd yr ysgol â'r perfformiad isaf 59.2 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd. Dim ond tair ysgol gyflawnodd fwy na'r cyfartaledd, gan amrywio rhwng 75.6% a 96.7%.

**b. LEFEL A (MAE'R CANRANNAU HYN YN CYNNWYS YSGOLION ANNIBYNNOL)**

Yn 2014/15, roedd cyfanswm o 1,611 disgybl 17 mlwydd oed [gan gynnwys disgyblion ysgolion annibynnol] yn astudio Lefel A yng Ngogledd Orllewin Cymru (gan gofrestru ar gyfer pynciau cyfwerth â 2 Lefel A). Roedd cyfanswm o 602 disgybl yng Ngogledd Orllewin Cymru yn astudio pynciau gwyddor [gan gynnwys disgyblion ysgolion annibynnol], gan gynnwys Ffiseg, Cemeg, Gwyddorau Biolegol a Gwyddorau Eraill.

Yng Ngogledd Cymru, bu i ganran uwch o ddisgyblion (80.4%) gyflawni gradd A*-C mewn Mathemateg mewn Lefel A nag mewn TGAU (64.3%). Mewn Lefel A Ffiseg, cyflawnodd 57.9% o ddisgyblion 17 mlwydd oed raddau A*-C; 77.6% mewn Cemeg; 68.6% mewn Gwyddorau Biolegol; a 61.6% mewn Gwyddorau Eraill. Mewn Lefel A TGCh, cyflawnodd 64.1% o ddisgyblion raddau A*-C, roedd y gyfradd hon yn 61.1% mewn TGAU.

Mewn Lefel A Mathemateg, y ffigwr cyrhaeddiad isaf yng Ngogledd Orllewin Cymru o ran graddau A*-C oedd 79.3% yn Sir Ddinbych, a'r uchaf oedd 87.6% yng Ngwynedd, 83.8% yng Nghonwy a 84% yn Ynys Môn. Mae hyn yn cymharu â'r ffigwr o 85% o ddisgyblion yn cyflawni A*-C mewn TGAU Mathemateg yng Nghymru.

Mewn Lefel A Ffiseg, y ffigwr cyrhaeddiad isaf o ran graddau A*-C oedd 14.7% yng Ngwynedd, a'r uchaf oedd 84.6% yn Sir Ddinbych. O ran y siroedd eraill, cyflawnodd 40.5% o ddisgyblion yn Ynys Môn radd A*-C, a 77.5% yng Nghonwy. Y ffigwr ar gyfer Cymru mewn Lefel A Ffiseg oedd 74% o ddisgyblion yn cyflawni A*-C.

O ran Lefel A Cemeg, Ynys Môn oedd â'r gyfradd isaf o ddisgyblion yng Ngogledd Orllewin Cymru yn cyflawni gradd A*-C sef 63.3%, a Sir Ddinbych oedd â'r gyfradd uchaf sef 82.8%. Roedd gan Gonwy 77% gyda graddau A*-C a Gwynedd 81.6%. Y ffigwr ar gyfer Cymru mewn Lefel A Cemeg oedd 79% o ddisgyblion yn cyflawni A*-C.

Mewn Lefel A Gwyddorau Biolegol, y ffigwr cyrhaeddiad isaf o ran graddau A*-C yng Ngogledd Orllewin Cymru oedd 56.5% yng Nghonwy, a'r gyfradd uchaf yn Sir Ddinbych sef 81.4%. Roedd gan Ynys Môn 60.1% o ddisgyblion gyda gradd A*-C a 75.7% yng Ngwynedd. Y ffigwr ar gyfer Cymru mewn Lefel A Gwyddorau Biolegol oedd 71% o ddisgyblion yn cyflawni A*-C.

Cofrestrwyd nifer isel iawn o ddisgyblion ar gyfer Gwyddorau Eraill mewn Lefel A (cyfanswm o 15 yng Ngogledd Cymru) [gan gynnwys disgyblion ysgolion annibynnol], ond nid oes ffigyrau ar gael ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd. Yng Nghonwy, cyflawnodd 37.5% o ddisgyblion A*-C mewn Gwyddorau Eraill, a 85.7% yn Sir Ddinbych. Y ffigwr ar gyfer Cymru mewn Lefel A Gwyddorau Eraill oedd 71% o ddisgyblion yn cyflawni A*-C.

Cofrestrwyd nifer isel iawn o ddisgyblion ar gyfer TGCh mewn Lefel A (cyfanswm o 142 yng Ngogledd Cymru) [gan gynnwys disgyblion ysgolion annibynnol], ond nid oes ffigyrau ar gael ar gyfer Conwy. Ni chyflawnodd unrhyw ddisgyblion radd A*-C yng Ngwynedd; Cyflawnodd 58% radd A*-C yn Ynys Môn, a 62.9% yn Sir Ddinbych. Y ffigwr ar gyfer Cymru mewn Lefel A TGCh oedd 49% o ddisgyblion yn cyflawni A*-C.

**LEFEL A - YSGOLION:**

Dim ond mewn 22 o'r 33 ysgol uwchradd yng Ngogledd Orllewin Cymru mae Mathemateg yn cael ei gynnig. Mewn 12 o'r 22 ysgol uwchradd yng Ngogledd Orllewin Cymru, roedd y cyrhaeddiad A*-C mewn Mathemateg yn is na'r cyrhaeddiad ar lefel Cymru gyfan yn 2015. Roedd cyrhaeddiad A*-C disgyblion mewn 10 ysgol ar draws yr isranbarth yn uwch na lefel gyfartalog cyrhaeddiad cenedlaethol ac roedd yn amrywio rhwng 85.7% a 100%. Roedd y lefelau cyrhaeddiad is yn y 12 ysgol yn amrywio rhwng 84.6% a 75.0%- roedd yr isaf 10.0 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Dim ond mewn 13 o'r 33 ysgol uwchradd yng Ngogledd Orllewin Cymru mae Ffiseg yn cael ei gynnig. Mewn pump o'r 13 ysgol uwchradd yng Ngogledd Orllewin Cymru, roedd y cyrhaeddiad A*-C mewn Mathemateg yn is na'r cyrhaeddiad ar lefel Cymru gyfan yn 2015. Roedd cyrhaeddiad A*-C disgyblion yn yr wyth ysgol sy'n weddill ar draws yr isranbarth yn uwch na lefel gyfartalog cyrhaeddiad cenedlaethol ac roedd yn amrywio rhwng 75% a 84.6%. Roedd y lefelau cyrhaeddiad is yn y 13 ysgol yn amrywio rhwng 73.3% a 57.1%% - roedd y tair ysgol isaf 164.9 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Dim ond mewn 15 o'r 33 ysgol uwchradd yng Ngogledd Orllewin Cymru mae Cemeg yn cael ei gynnig. Mewn naw o'r 15 ysgol uwchradd yng Ngogledd Orllewin Cymru sy'n cynnig y pwnc, roedd y cyrhaeddiad A*-C yn is na'r cyrhaeddiad ar lefel Cymru gyfan yn 2015. Roedd cyrhaeddiad A*-C disgyblion yn y chwe ysgol sy'n weddill ar draws yr isranbarth yn uwch na lefel gyfartalog cyrhaeddiad cenedlaethol ac roedd yn amrywio rhwng 83.3% a 100%. Roedd y lefelau cyrhaeddiad is yn y 15 ysgol yn amrywio rhwng 76.5% a 33.3% - roedd yr isaf 45.7 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Dim ond mewn 18 o'r 33 ysgol uwchradd yng Ngogledd Orllewin Cymru mae Gwyddorau Biolegol yn cael ei gynnig. Mewn wyth o'r 18 ysgol uwchradd yng Ngogledd Orllewin Cymru sy'n cynnig y pwnc, roedd y cyrhaeddiad A*-C yn is na'r cyrhaeddiad ar lefel Cymru gyfan yn 2015. Roedd cyrhaeddiad A*-C disgyblion yn y 10 ysgol sy'n weddill ar draws yr isranbarth yn uwch na lefel gyfartalog cyrhaeddiad cenedlaethol ac roedd yn amrywio rhwng 74.4% a 91.3%. Roedd y lefelau cyrhaeddiad is yn yr wyth ysgol yn amrywio rhwng 66.7% a 16.7% - roedd yr isaf 54.3 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Dim ond mewn naw o'r 33 ysgol uwchradd yng Ngogledd Orllewin Cymru mae TGCh yn cael ei gynnig. Mewn pedair o'r naw ysgol uwchradd yng Ngogledd Orllewin Cymru sy'n cynnig y pwnc, roedd y cyrhaeddiad A*-C yn is na'r cyrhaeddiad ar lefel Cymru gyfan yn 2015. Roedd cyrhaeddiad A*-C disgyblion yn y pum ysgol sy'n weddill ar draws yr isranbarth yn uwch na lefel gyfartalog cyrhaeddiad cenedlaethol ac roedd yn amrywio rhwng 50.0% a 83.3%. Roedd y lefelau cyrhaeddiad is yn yr wyth ysgol yn amrywio rhwng 38.7% a 16.1% - roedd yr isaf 32.9 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

**LEFEL A - Nifer y Myfyrwyr wedi'u Cofrestru (Grŵp Llandrillo Menai)**

Yn ôl data LLWR gan Grŵp Llandrillo Menai ar gyrhaeddiad mewn Lefel A ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16, y pynciau STEM gyda'r nifer uchaf o fyfyrwyr wedi'u cofrestru ar eu cyfer yng Ngogledd Orllewin Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych) oedd Mathemateg (199 myfyriwr), Bioleg (114), Seicoleg (113), Cemeg (104) a Ffiseg (79). Y pynciau gyda'r nifer isaf o fyfyrwyr wedi cofrestru ar eu cyfer oedd Cyfryngau Creadigol/Astudiaethau Ffilm (43 myfyriwr), Electroneg (40), Dylunio a Thechnoleg (25), Gwyddorau Cyfrifiadurol (13), TGCh (11) a Chyfrifiadureg (8). Nid

yw Gwyddoniaeth Gymhwysol, Peirianneg na Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael eu cynnig fel cymwysterau Lefel A yng Ngrŵp Llandrillo Menai.

Wrth edrych ar y niferoedd o fyfyrwyr gwrywaidd a benywaidd, gwelir mai Mathemateg, Ffiseg, Gwyddorau Ffisegol, Cyfrifiadureg ac Electroneg oedd y pynciau STEM mwyaf poblogaidd ymysg bechgyn. Y pynciau gyda chyfran uwch o fyfyrwyr benywaidd oedd Bioleg (44 o fechgyn a 70 o ferched), Cemeg (49/55) a Seicoleg (20/93). Ni chofrestrodd unrhyw ferched ar gwrs Cyfrifiadureg, ond cofrestrodd wyth bachgen, a dim ond un fyfyrwraig fenywaidd gofrestrodd ar gwrs Gwyddorau Cyfrifiadurol allan o gyfanswm o 13 myfyriwr. Dim ond tair merch, allan o gyfanswm o 40 myfyriwr, gofrestrodd ar gwrs Electroneg. O ran Mathemateg, cofrestrodd 115 o fechgyn ac 84 o ferched ac o ran Ffiseg, cofrestrodd 59 o fechgyn ac 20 o ferched.

**LEFEL A2 (Grŵp Llandrillo Menai)**

Uwchgynllyn - Canolfan Hyffforddi byd-enwog ar gyfer Ynni a Pheirianneg.

**Magnox**

GORSAF PWER BRESENNOL WYLFA

460MW o Ynni Carbon Isel

Diwedd Cynhyrchu 2015.

PŴER NIWCLEAR **HORIZON** NUCLEAR POWER

GORSAF YNNI NIWCLEAR NEWYDD

arfaethedig gyda'r gallu i gynhyrchu oddeutu 2.7 GW o Ynni Carbon Isel.

**SPARC**

Parc Gwyddoniaeth Arfaethedig yn dennu ymchwilwyr academaidd ac arbenigwyr masnachol at eu gilydd 7.8 Hectar.

**Stena Line**

PORTHLADD CAERGYBI

Porth Rhyngwladol Strategol.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **29 Ionawr, 2018** |
| **Pwnc:** | **Yr A545 o Borthaethwy i Fiwmares** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Bob Parry** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dewi R Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Dewi R Williams**<br>**01248 752303**<br>**drwht@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Y Cynghorydd Carwyn Jones**<br>**Y Cynghorydd Lewis Davies**<br>**Y Cynghorydd Alun Roberts** |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Bod y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yn derbyn £95,000 i benodi peirianwyr ymgynghorol i ddylunio gwelliannau i gryfhau’r A545 rhwng Glyn Garth a Biwmares a hefyd i gyfrannu tuag at y gost o gryfhau'r llethr islaw Mynwent Biwmares, ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Chyngor Tref Biwmares. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Y dewis arall yn hytrach na gwella a chryfhau'r A545 fyddai adeiladu ffordd newydd ar gost o tua £30 miliwn. Byddai'r gost honno'n ormodol a byddai'r problemau'n parhau ar yr A545. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Er mwyn cael y cyllid. |

| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – Effaith ar ein Cenedlaethau i’r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae’r penderfyniad hwn yn cael effaith ar ein hanghenion tymor hir fel ynys?** | Mae’n sicrhau dyfodol yr A545, sef y brif ffordd strategol i mewn ac allan o Fiwmares. |

| | | |
|---|---|---|
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn rhwystro costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os ydyw, sut?** | Ydi. Bydd yn denu cyllid gan Lywodraeth Cymru ac yn atal tirlithriadau costus islaw'r A545 yn y dyfodol. |
| 3 | **Ydym ni wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os ydym, nodwch pa rai os gwelwch yn dda?** | Do. Llywodraeth Cymru a Chyngor Tref Biwmares. |
| 4 | **Ydi dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan mewn drafftio'r 'r ffordd hon ymlaen. Os ydynt, nodwch sut os gwelwch yn dda?** | Mae trigolion ardal Biwmares wedi bod yn galw am welliannau i'r ffordd hon. |
| 5 | **Pa effaith, os o gwbl, gaiff y penderfyniad hwn ar y Rhaglen Gydraddoldebau a'r iaith Gymraeg?** | Dim. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cefnogi cynwys yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Sylwadau wedi eu ateb. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A – Tirlithriadau ar yr A545. |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

## Atodiad A - Tirlithriadau ar yr A545

### Cefndir

Mae hanes o dirlithriadau ar hyd yr A545 rhwng Glyn Garth a Biwmares, gyda thirlithriadau mawr uwchben y ffordd yn 2004 (Casita) a 2015 (Mynwent Biwmares). ‘Roedd y tirlithriad diweddaraf ar 22 Tachwedd, 2017 yn un bychan, ond yn anffodus arweiniodd at flocio ceuffos sylweddol ac o’r herwydd cafwyd llif enfawr o ddŵr ar hyd yr A545 hyd nes iddo adael y ffordd trwy fwlch yn y wal yn Plas Menai. Yn ddiweddarach fe olchodd i ffwrdd ardd yr eiddo.

Dechreuodd gwaith yn syth i godi wal goncrid wedi ei hangori er mwyn cynnal y ffordd gerbydau a llwyddwyd i ailagor y ffordd o fewn wythnos. Bydd goleuadau traffig yn parhau yn y lleoliad hwn hyd nes y cwblheir y gwaith i ddarparu wal gynnal ar lefel y traeth ac i adfer yr ardd. Disgwylir y bydd y gwaith hwn wedi ei gwblhau yn gynnar ym mis Chwefror.

Cafodd y tirlithriad ym Mynwent Biwmares ei glirio, ond erys angen i wneud gwaith i sefydlogi'r llethr. Gobeithir y bydd modd bwrw ymlaen i ddechrau gwneud y gwaith ym mis Chwefror os bydd Llywodraeth Cymru (LlC), Cyngor Tref Biwmares a Chyngor Sir Ynys Môn yn darparu cyllid. Amcangyfrifir y bydd yn costio £180k i angori a rhwydo'r llethr hon.

Yn ystod 2016, ariannodd y Gwasanaeth Priffyrdd waith i angori a rhwydo rhan ansefydlog posib o'r A545 tua 200m i'r dwyrain o Plas Menai. Roedd tirlithriadau bach i’w gweld o dan y ffordd yn y lleoliad hwn, felly cymerwyd camau cynnar i osgoi problemau yn y dyfodol am gost o £150k.

### Cynigion

Mae trafodaethau cychwynnol a gafwyd gyda Ken Skates, Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Economi ac Isadeiledd, ynghyd â swyddogion Llywodraeth Cymru, yn nodi y byddai cyllid ar gael dros y blynyddoedd nesaf i symud ymlaen i sefydlogi’r llethrau a lledu’r troadau ar y ffordd i gryfhau a gwella rhannau o'r A545 o Glyn Garth i Fiwmares. Os oes modd, byddai’r ffordd yn cael ei lledu fel bod lle ar gyfer llwybr beiciau fel rhan o Ddeddf Teithio Llesol Cymru hefyd. Fel y gellir bwrw ymlaen â’r cynlluniau hyn, bwriedir cyflogi peirianwyr ymgynghorol addas, sy'n arbenigo mewn sefydlogi llethrau, i ddarparu cynlluniau priodol ar gyfer cynlluniau yn y lleoliadau hyn.

Mae trafodaethau eisoes wedi digwydd gyda Syr Richard Williams-Buckley sef perchennog y tir sydd uwchlaw ac islaw'r A545. Mae'n gefnogol iawn o’r bwriad i wella'r A545 a bydd yn cytuno i ryddhau'r tir angenrheidiol.

Rhagwelir y bydd y cyllid ar gyfer y dyluniadau hyn, ynghyd â’r cyfraniad tuag at waith ym Mynwent Biwmares, tua £95k.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **29 Ionawr, 2018** |
| **Pwnc:** | **Cael Gwared ar y Rovacabin** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Bob Parry** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dewi R Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Dewi R Williams**<br>**01248 752303**<br>**drwht@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau |
|---|
| Darparu £48k i gael gwared ar y Rovacabin ac i glirio ac ailwynebu’r tir o danodd i greu mwy o lecynnau parcio. Dylai'r cyllid hwn fod ar gael o’r arbediad sydd wedi ei greu o'r broses Drawsnewid. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Cafwyd trafodaethau eisoes i wagio a chael gwared ar y Rovacabin fel rhan o’r broses drawsnewid. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Gan fod y cyllid ar gyfer hyn angen ei ddyrannu o arbedion Gweithio'n Gallach. |

| CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| DD – Effaith ar ein Cenedlaethau i’r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae’r penderfyniad hwn yn cael effaith ar ein hanghenion tymor hir fel ynys?** | Mae’n cwblhau’r Rhaglen Drawsnewid. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn rhwystro costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os ydyw, sut?** | Ydi. Ni fydd angen talu costau cynnal a chadw ar gyfer y Rovacabin yn y dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **Ydym ni wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os ydym, nodwch pa rai os gwelwch yn dda?** | Cynhaliwyd ymgynghoriadau cyhoeddus cyn cychwyn y broses Drawsnewid. |
| **4** | **Ydi dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan mewn drafftio'r 'r ffordd hon ymlaen. Os ydynt, nodwch sut os gwelwch yn dda?** | Fel 3 uchod. |
| **5** | **Pa effaith, os o gwbl, gaiff y penderfyniad hwn ar y Rhaglen Gydraddoldebau a'r iaith Gymraeg?** | Dim. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Ar ôl cwblhau'r prosiect Gweithio'n Gallach, trosglwyddwyd unrhyw danwariant i falansau'r Cyngor. Pe bai'r gost yma wedi ei chynnwys yn y cynllun gwreiddiol byddai'r swm a drosglwyddwyd i falansau'r Cyngor wedi bod gymaint llai. Felly mae'n rhesymol i ariannu'r gost ychwanegol yma o falansau'r Cyngor. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A – Cael Gwared ar y Rovacabin |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

# Atodiad A – Cael Gwared ar y Rovacabin

## Cefndir

Fel rhan o'r broses Drawsnewid, symudwyd staff o'r Rovacabin i Brif Swyddfeydd y Cyngor. Arbedodd hyn oddeutu £17k y flwyddyn ar gostau gwresogi, goleuo a dŵr, ynghyd â thua £9k ar gynnal yr hyn a oedd mewn gwirionedd yn adeilad a oedd yn dirywio. Nid yw costau glanhau a threthi wedi'u cynnwys yn y ffigwr hwn. Yn ogystal, roedd symud staff o'r Rovacabin yn golygu eu bod yn gallu gweithio mewn amgylchedd gwaith gwell, gan y gallai'r Rovacabin fod yn oer iawn yn y gaeaf ond yn boeth iawn yn yr haf.

Yn sgil cau adeiladau eraill y Cyngor megis Parc Mount, mae rhagor o staff wedi symud i'r prif swyddfeydd ac o'r herwydd mae problemau parcio yn codi ar adegau. Bydd darparu llecynnau parcio ychwanegol ar ôl-troed y Rovacabin yn lleddfu'r problemau hyn.

Marchnatwyd adeilad y Rovacabin ond ychydig iawn o ddiddordeb a ddangoswyd ynddo. Gwerthwyd y rhan mwy newydd am £5k a'i thynnu oddi yno, ond nid oes diddordeb yn y rhan hŷn ac felly bydd yn costio £28k i gael gwared ar y rhan honno. Bydd angen £20k pellach i roi wyneb ar yr ardal cyn iddi fod ar gael ar gyfer parcio.

Felly mae angen balans o £48k i gwblhau'r gwaith hwn. Maer swm yma ar gael o'r arbedion a grëwyd gan broses Trawsnewid ac yn benodol Gweithio'n Gallach.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Y Pwyllgor Gwaith a’r Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 29 Ionawr a 28 Chwefror 2018 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor - Dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Tai) |
| **ADRODDIAD GAN:** | Lynn Ball - Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>01248 752586 / lbxcs@ynysmon.gov.uk |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Diwygio Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn hwyluso menter tai newydd |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae'r Cyngor yn bwriadu caffael tai cymdeithasol ychwanegol trwy becynnau dylunio ac adeiladu. Derbyniwyd a chymeradwywyd adroddiad i'r perwyl hwn gan y Pwyllgor Gwaith ar 18 Rhagfyr 2017. (Gweler **Atodiad A** sydd ynghlwm am gopi o'r adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith a chofnod o’r penderfyniad)

1.2 Ar dudalen 5 yr adroddiad yn **Atodiad A** tynnwyd sylw at y ffaith, er mwyn hwyluso'r fenter arfaethedig hon, y byddai'n ddymunol diwygio Cynllun Dirprwyo'r Cyngor trwy ymestyn y pwerau sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaeth (Tai).

## 2. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD

2.1 Er mwyn diwygio'r Cyfansoddiad, mae'n rhaid i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r gwelliannau a awgrymir; ar ôl i’r Pwyllgor Gwaith fod wedi cael cyfle’n gyntaf i fynegi barn.

2.2 Mae **Atodiad B** sydd ynghlwm yn cynnwys y Cynllun Dirprwyo cyfredol i'r Pennaeth Gwasanaeth (Tai), gyda'r newid y bwriedir ei wneud i baragraff 3.5.3.12.2 ynghyd â pharagraffau ychwanegol sy'n dechrau yn 3.5.3.12.46.

3. **RHESYMAU**

3.1 Ar hyn o bryd, mae swyddogaethau i gaffael a chael gwared ar dir / eiddo wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) o dan y Cynllun Dirprwyo a'r Cynllun Rheoli Asedau.

3.2 Fodd bynnag, nid yw'r pwerau hynny yn ymestyn i dai cymdeithasol a'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae hyn yn golygu bod angen i’r Pennaeth Gwasanaeth (Tai) gael awdurdod dirprwyedig tebyg er mwyn hwyluso'r fenter a fabwysiadwyd ar 18 Rhagfyr 2017. Mae'r newidiadau a gynigir yn **ATODIAD B** wedi'u cynllunio i'r perwyl hwnnw.

**4. ARGYMHELLION**

4.1 Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig a nodir yn **Atodiad B** ac yn cymeradwyo'r fath newidiadau i'r Cyngor llawn.

4.2 Bod y Cyngor llawn yn cymeradwyo'r newidiadau a awgrymir yn **Atodiad B** ac yn awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol sy'n codi ohono.

Eitem 7 ar y Rhaglen

Atodiad A

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **18fed o Ragfyr 2017** |
| **Pwnc:** | **Datblygu Tai Cyngor Newydd drwy Becyn Dylunio ac Adeiladu gan Ddatblygwr sydd berchen Tir** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Alun Mummery** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Shan Lloyd Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Ned Michael, Rheolwr Busnes Tai** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Etholedig** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau**

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith ar y 18fed o Ragfyr yn cymeradwyo:-

Prynu tai Cyngor newydd wedi eu hadeiladu gan ddatblygwyr preifat drwy becynnau dylunio ac adeiladu ar diroedd sydd ym mherchnogaeth datblygwyr preifat.

Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn bod Cynllun Hawliau Dirprwyol y Cyngor i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai yn cael ei addasu i adlewyrchu'r hawliau ychwanegol byddai eu hangen i weithredu trosglwyddiadau o'r math hyn.

**<u>Cefndir</u>**

Mae prynu tai newydd wedi eu hadeiladu gan ddatblygwyr preifat drwy becynnau dylunio ac adeiladu yn cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru fel dull derbyniol tuag at ddatblygu tai cymdeithasol newydd ac yn cael ei ddefnyddio yn rheolaidd gan Gymdeithasau Tai.

Mae'n ddull sy'n cael ei weld fel ffordd o gyflenwi tai newydd yn gymharol gyflym gyda'r risgiau cysylltiedig â datblygu tai newydd yn aros gyda'r datblygwr.

O ran sicrhau gwerth am arian mae Llywodraeth Cymru wedi pennu canllawiau cost derbyniol, sy'n seiliedig ar brisiau tendrau cystadleuol sydd wedi eu derbyn i adeiladu tai cymdeithasol, ar gyfer y gwahanol fathau o unedau fel fflatiau, byngalos a thai o wahanol faint ac ystafelloedd gwely a rhain ar draws pob rhan o Gymru.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn manteisio ar y dull hwn o ddatblygu tai Cyngor newydd ond os ydym am wireddu ein targed i gynyddu ein stoc tai rhent gan 195 uned dros y 4 mlynedd nesaf byddai’r dull yma yn ffordd effeithiol iawn o alluogi hyn ac yn cyfrannu tuag at y targed o 20,000 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth.

**Rheolau Pwrcasu**

Ar yr amod nad yw gwerth y cynllun yn uwch na’r trothwy cyfredol o £4,104,394, ni fydd y weithdrefn gaffael gyhoeddus lawn, sy’n golygu bod angen Rhybudd OJEU yn berthnasol i’r cynnig i brynu tir gyda chaniatâd cynllunio gan berchennog / datblygwr ac i sefydlu cytundeb gyda’r perchennog / datblygwyr hwnnw, yn berthnasol. Lle mae’r gwerth yn is na’r trothwy cyfredol, bydd angen i unrhyw gytundeb y deuir iddo gyda’r datblygwr/perchennog gael ei sefydlu’n unol ag arfer orau caffael a hefyd yn unol ag egwyddorion Cytundeb yr UE er mwyn sicrhau tegwch, cystadleuaeth a hefyd er mwyn cydymffurfio gyda Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor ei hun.

**Dethol Safleoedd**

Y cam cyntaf byddwn yn ei ddilyn fel Gwasanaeth Tai byddai gwirio beth yw’r angen am dai rhent ar draws yr Ynys ac yn fwy penodol beth yw’r angen am y mathau penodol o unedau.

Byddwn yn dewis safleoedd mewn cydweithrediad ar Grŵp Tir ac Asedau fel rhan allweddol o gyflawni ein Strategaeth Cynllunio Lle.

Wedi adnabod ble mae’r angen am dai newydd byddwn yn gallu llunio hysbyseb a chreu lansiad o’n rhaglen ddatblygu tai cyngor Newydd dros y 4 mlynedd nesaf gan wahodd cwmnïau/ddatblygwyr sydd gyda safleoedd a chaniatâd cynllunio i gysylltu gyda’r Gwasanaeth Tai er mwyn ystyried cyfleon.

Byddai’r hysbyseb yn nodi'r nifer o dai Cyngor newydd rydym yn bwriadu prynu drwy’r dull hyn fesul blwyddyn dros y 4 mlynedd.

Drwy ddilyn y trywydd uchod byddwn yn cael ein gweld i fod yn dryloyw mewn perthynas â dewis datblygwyr i weithio gydag.

Byddai blaenoriaeth yn cael ei roi i ddatblygwyr sydd gyda cynlluniau yn barod i gychwyn, ond yn amlwg wrth gyhoeddi rhaglen 4 mlynedd byddai cwmnïau/datblygwyr yn gwybod ein bod yn chwilio am gynlluniau a byddai hyn yn rhoi amser iddynt chwilio am gyfleon addas i’w cyflwyno.

Dros gyfnod y 4 mlynedd nesaf disgwyliwn bydd 400 o dai cymdeithasol ychwanegol yn cael eu datblygu ar yr Ynys, 195 o’r rhain gan y Gwasanaeth Tai a 205 gan y Cymdeithasau Tai sy’n gweithredu ar yr Ynys.

**Trafod Telerau**

Byddwn yn cytuno'n gofynion mewn perthynas â dyluniad a manyleb unrhyw ddatblygiad tai Cyngor newydd a byddai rhaid i unrhyw dai Cyngor newydd gan ddatblygwr fod yn cydymffurfio gyda Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru ar gyfer tai cymdeithasol.

Mae canllawiau cost derbyniol wedi cael eu llunio gan Lywodraeth Cymru i adlewyrch prisiau tiroedd a thai drwy ledled Cymru ac yn cael eu derbyn i fod yn rhoi gwerth am arian ar gyfer y fanyleb sydd wedi ei gosod o fewn y gofynion ansawdd datblygu.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gynlluniau pecyn gyda datblygwyr preifat byddwn yn disgwyl i bris terfynol y datblygiad gorffenedig fod o fewn i'r canllawiau cost derbyniol.

Byddwn yn penodi maint fesurwyr fel arbenigwyr proffesiynol ym maes costau adeiladu i'n cynghori ar y costau adeiladu ac i dystio bod y gost y byddwn yn ei dalu i'r datblygwyr yn adlewyrchiad o bris y farchnad ac yn rhoi gwerth am arian.

Byddwn yn cytuno pris gyda'r datblygwr am ddatblygiad gorffenedig gyda rhan daliadau yn cael ei wneud i'r datblygwr wrth i'r datblygiad fynd ymlaen yn unol â chytundebau adeiladu safonol JCT Design & Build Contract 2016 (Building Contract Design and Build).

Bydd manyleb y gwaith, pris terfynol ac amserlen datblygu wedi ei gytuno ac wedi ei gynnwys fel rhan o'r cytundeb adeiladu.  Mae hyn yn rhoddi'r holl risgiau mewn perthynas â chost ac amserlen y datblygiad yn gyfrifoldeb ar y datblygwr.

Bydd y taliad cyntaf i'r datblygwr yn seiliedig ar werth marchnad agored y tir, fel y tystir gan adroddiad prisiwr proffesiynol, ac ar dderbyn y taliad hwn bydd perchnogaeth y tir yn cael ei drosglwyddo i berchnogaeth y Cyngor.  Byddwn yn defnyddio prisiad y Gwasanaeth Eiddo pan nad oes angen allanol am y prisiad, pe byddwn yn derbyn unrhyw grantiau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru tuag at y datblygiad fe fyddwn yn defnyddio prisiwr allanol.

Wrth i'r datblygiad fynd ymlaen bydd y Maintfesurwyr yn tystiolaethu'n fisol gwerth y gwaith adeiladu sydd wedi ei wneud yn ystod y mis er mwyn rhyddhau taliadau i'r datblygwr.

Cyn cytuno'n ffurfiol gydag unrhyw ddatblygwr i symud ymlaen gyda datblygiad byddwn yn cynnal asesiad hyfywdra ariannol ar y datblygiad yn unol â'r broses sydd eisoes wedi ei gyflwyno i'r UDA a'r BGT ac wedi ei gymeradwyo gan y Swyddog Adran 151.

Cyn cytuno'n ffurfiol gydag unrhyw ddatblygwr i symud ymlaen gyda datblygiad byddwn hefyd yn cynnal asesiad diwydrwydd dyladwy ar y datblygwr, hynny yw a oes gan y datblygwr y gallu ariannol ac adnoddau i fod yn ymgymryd â datblygiad o'r maint hyn ar yr adeg hon.  Y Tîm Cyllid byddai'n cynnal yr asesiad hwn.

**Gwerth yr Ased o'i gymharu â Chost**

Yn aml iawn wrth ddatblygu tai cymdeithasol mae cost y ddarpariaeth i'r fanyleb a'r ansawdd disgwyliedig yn uwch na beth fyddai gwerth marchnad agored y tai.

Ni ddylai hyn gael ei weld yn rhwystr rhag symud ymlaen i wneud y datblygiad gan na fydd yr ased byth yn mynd ar werth ar y farchnad agored.  Mae’r ased yn cael ei weld ar gyfer defnydd cymdeithasol ac yn talu am ei hun drwy incwm rhent i’r Cyngor dros gyfnod tymor hir o oddeutu 45 mlynedd.

Mae’r egwyddor hwn yn cael ei dderbyn a’i gydnabod fel ffordd ddilys o ddatblygu tai fforddiadwy gan yr RICS (Sefydliad y Syrfewyr Siartredig) yn eu canllawiau prisio ‘Valuation of Land for Affordable Housing’, Ebrill 2016.

Beth sy’n hanfodol bwysig yw ein bod yn gallu ardystio ein bod yn cael gwerth am yr arian cyhoeddus sy’n cael ei dalu am yr ased.

Rydym yn gallu gwneud hyn drwy'r gyfundrefn canllawiau cost derbyniol sydd wedi ei osod gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu tai cymdeithasol ac yr ardystiad gwerth am arian byddwn yn ei dderbyn gan Faint Fesurwyr byddai’n gweithredu ar ein rhan mewn unrhyw ddatblygiad newydd.

**<u>Polisïau’r Cyngor Mewn Perthynas a Gweithredu’r Uchod</u>**

Mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Mon (Medi 2016) yn caniatáu dirprwyo cyfrifoldebau i Swyddogion y Cyngor ac yn diffinio’r cyfrifoldebau sydd wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion.

Nodwyd yng Nghyfansoddiad y Cyngor mai’r Pennaeth Gwasanaeth Tai sydd a chyfrifoldeb am arwain Strategaeth Tai Cyngor y Sir yn ogystal a’r Cyfrif Refeniw Tai.

Mae’r Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau’r Cyngor (Mai 2016) hefyd yn nodi gweithdrefnau mewn perthynas a ychwanegu a gwaredu asedion y Cyngor sy’n benodol yn eithrio Tai Cymdeithasol a’r Cyfrif Refeniw Tai.  Mae’r Polisi hwn yn eistedd o dan y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

Ar adeg llunio Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau’r Cyngor nid oedd y Gwasanaeth Tai wedi cychwyn datblygu tai Cyngor newydd ac yn sicr nid oes darpariaeth o’r math yma o gaffael tiroedd ac asedau wedi ei gynnwys o fewn y polisi nac ychwaith o fewn y polisïau a chanllawiau caffael corfforaethol.

Bydd rhaid addasu Cyfansoddiad y Cyngor os ydym am fabwysiadu’r dull hwn o ddatblygu tai Cyngor newydd er mwyn sicrhau bod ein Gwasanaeth Cyfreithiol yn cael eu bodloni ein bod yn cydymffurfio a’n polisïau a gweithdrefnau perthnasol.

Byddai unrhyw ddatblygiad tai Cyngor newydd a tai cymdeithasol yn eistedd o fewn y Cyfrif Refeniw Tai felly dylid datgan o fewn y Cyfansoddiad mai dan gyfrifoldeb y Pennaeth Gwasanaethau Tai fyddai unrhyw ychwanegu neu waredu o asedion o’r fath yn eistedd.

Addasiadau byddai yn cael eu cynnig i Gyfansoddiad y Cyngor byddai i ychwanegu’r pwyntiau isod i Hawliau Dirprwyol y Pennaeth Gwasanaethau Tai:-

1. I weithredu pwerau a dyletswyddau’r Cyngor ar gyfer pryniannau plotiau tir i’r pwrpas o dai Cyngor newydd a datblygiadau tai cymdeithasol mewn ymgynghoriad gydag Aelodau Lleol a’r Deilydd Portffolio Tai yn unol â Strategaeth a Chynlluniau Tai'r Cyngor.

2. I gymeradwyo a gyrru cynlluniau tai Cyngor newydd a datblygiadau tai cymdeithasol.

Mae’r BGT eisoes wedi cytuno bod rhaid i unrhyw ddatblygiadau tai Cyngor newydd o fwy na 10 uned gael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Gwaith am gymeradwyaeth.

Byddai’r Pennaeth Gwasanaeth Tai ynghyd a’r Swyddog Adan 151 gyda’r hawl i gymeradwyo datblygiadau llai na 10 uned yn amodol ar fod darpariaeth gyllidebol wedi ei gynnwys o fewn y Cynllun Busnes a chyllideb flynyddol y CRT.

**<u>Casgliadau</u>**

Bydd angen cyngor cyfreithiol pellach pan fyddwn wedi cytuno’r nifer o unedau a’r ardaloedd byddwn yn chwilio am ddatblygu trwy’r dull hwn rhag gadel y Cyngor yn agored i sialens gyfreithiol o ran dewis datblygwyr i weithio gyda.

Byddwn wedyn yn llunio hysbyseb yn nodi’r nifer o dai Cyngor newydd fesul blwyddyn byddwn yn dymuno ddatblygu trwy’r dull hwn er mwyn bod yn hollol dryloyw wrth ddewis cwmnïau/ddatblygwyr i weithio gyda.

Byddwn yn ymgynghori’n briodol gyda Gwasanaethau eraill ac adrodd yn rheolaidd i’r Bwrdd Gwasanaethau Tai a’r Grŵp Tir ac Asedau mewn perthynas â unrhyw gyfleon sydd wedi eu cyflwyno gan gwmnïau/ddatblygwyr.

Cyn cytuno’n ffurfiol gydag unrhyw ddatblygwr i symud ymlaen gyda datblygiad byddwn yn cynnal asesiad hyfywdra ariannol ar y datblygiad yn unol â’r broses sydd eisoes wedi ei gyflwyno i’r UDA a’r BGT ac wedi ei gymeradwyo gan y Swyddog Adran 151.

Cyn cytuno’n ffurfiol gydag unrhyw ddatblygwr i symud ymlaen gyda datblygiad byddwn hefyd yn cynnal asesiad diwydrwydd dyladwy ar y datblygwr, hynny yw a oes gan y datblygwr y gallu ariannol ac adnoddau i fod yn ymgymryd â datblygiad o’r maint hyn ar yr adeg hon.

Wrth ddilyn y dull hwn o ddatblygu tai Cyngor newydd mae’r risgiau cysylltiedig â datblygu yn eistedd gyda’r datblygwyr ac mae’n cael ei weld yn ddull diogel o ddatblygu nifer uchel o dai newydd o’r ansawdd disgwyliedig ac yn gymharol gyflym.

Os na fyddwn yn llwyddo i ddefnyddio ein cap benthyca sydd oddeutu £13m mae peryg bydd Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo hwn i Awdurdod Lleol arall yng Nghymru.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

| |
|---|
| Mae llwybrau eraill o ran datblygu tai Cyngor newydd eisoes wedi eu cymeradwyo, mae'r rhain yn cynnwys prynu cyn dai Cyngor yn ôl, adeiladu tai Cyngor newydd ar diroedd yr CRT ac adeiladu tai Cyngor newydd ar diroedd sydd eisoes ym mherchnogaeth y Cyngor.<br><br>Mae'r dull hwn yn ychwanegol i'r dulliau hyn. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| **C1.** Mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn ddull newydd o bwrcasu/datblygu tai Cyngor newydd. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Mae'r Cyngor llawn wedi cymeradwyo Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai sy'n cynnwys rhaglen ddatblygu tai Cyngor newydd. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| **D1.** Ydi – o fewn Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2017-47 sydd wedi ei gymeradwyo. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cyflwynwyd yr adroddiad i gyfarfod yr UDA ar ur 20fed o Dachwedd. Yn gefnogol i'r argymhelliad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Mae'r Swyddog Adran 151 yn hapus gyda'r rhagdybiaethau ariannol sydd wedi eu defnyddio ar gyfer asesu hyfywdra ariannol datblygiadau newydd. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Yn gefnogol i'r argymhelliad. Maent wedi cynnig addasiadau i Gyfansoddiad y Cyngor fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Heb ymgynghori. |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Heb ymgynghori. |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Mae Cynlluniau Cyfalaf y Cyngor yn mynd drwy drefniadau caffael y Cyngor ac yn defnyddio Value Wales i fesur buddiannau Cymunedol gan felly |

| | | |
|---|---|---|
| | | dderbyn cefnogaeth y Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol. |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Mi fydd darpariaeth o dai newydd yn cynnig cartrefi clud ar gyfer y mwyaf anghenus o fewn ein cymunedau. |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Dim. |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

This page is intentionally left blank

# RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 18 Rhagfyr, 2017

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 21 Rhagfyr, 2017. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Mawrth, 2 Ionawr, 2018. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Mercher, 3 Ionawr, 2018.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, John Griffith, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Ieuan Williams, Alun W Mummery a Carwyn Jones

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Aled Morris Jones, R. Owain Jones, Bryan Owen, Shaun Redmond, Peter Rogers

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas

(10:00 y. b. tan 10:55 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd, 2017, fel cofnod cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Flaen Raglen Waith am y cyfnod Ionawr, 2017 i fis Awst, 2018 yn amodol ar y newid ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw.** |

| | |
|---|---|
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Adolygiad Canol Blwyddyn – Rheoli Trysorlys 2017/18**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys 2017/18 ac anfon yr adroddiad ymlaen i'r Cyngor Llawn heb unrhyw sylw ychwanegol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cydymffurfio gyda gofynion Cod Ymarfer CIPFA** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Bydd y mater yn cael ei ystyried gan y Cyngor Sir.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgelloedd**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Mabwysiadu Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022**<br>• **Bod y newidiadau arfaethedig yn Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022 yn cael eu gweithredu fel a ganlyn -**<br>• **Cau Llyfrgell Cemaes, Llyfrgell Moelfre a Llyfrgell Niwbwrch gan barhau i ymchwilio i gamau lliniaru fel pwyntiau mynediad cymunedol a/neu gynyddu darpariaeth symudol yn yr ardaloedd a effeithir gan benderfyniadau i gau.**<br>• **Datblygu model gydweithredol gyda Chanolfan** |

| | |
|---|---|
| | **Biwmares o ran Llyfrgell Biwmares.**<br><br>• **Derbyn ymrwymiad cadarn gan Gyngor Cymuned Llanfaelog mewn perthynas â Llyfrgell Rhosneigr erbyn 31 Ionawr, 2018. Os na ddarperir unrhyw ymrwymiad cadarn, yna mynd ymlaen i'w chau fel yn y pwynt bwled cyntaf.**<br><br>• **Gweithredu Opsiwn C o fewn costau drafft y Gwasanaeth Llyfrgell (Atodiad 5 yr adroddiad) - cadw 22 awr, sef ⅔ y staffio o'r llyfrgelloedd caeëdig o fewn y strwythur staffio newydd i helpu i liniaru a chynnal perfformiad yn erbyn safonau staffio'r WPLS.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Bwrw ymlaen gyda thrawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgell** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Llwybr Datblygu ar gyfer Tai Cyngor – Pecynnau Dylunio ac Adeiladu gan Ddatblygwyr**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Cymeradwyo prynu tai newydd wedi'u hadeiladu gan ddatblygwyr preifat drwy becynnau dylunio ac adeiladu ar diroedd sydd ym mherchnogaeth datblygwyr preifat.**<br>• **Argymell i'r Cyngor Llawn bod Cynllun Hawliau Dirprwyol y Cyngor i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai yn cael ei addasu i adlewyrchu'r hawliau ychwanegol byddai eu hangen i weithredu trosgwlyddiadau o'r math hyn.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn hwyluso datblygu tai Cyngor** |

| | |
|---|---|
| | **newydd** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni – Achos Strategol Amlinellol / Achos Busnes Amlinellol** Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd gohirio ystyried y mater i ddyddiad yn ddiweddarach.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Bwrw ymlaen gyda'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

**3.5.3.12 Pennaeth Gwasanaeth (Tai)**

3.5.3.12.1 arwain strategaeth tai Cyngor Sir Ynys Môn a rheoli'r stoc dai; darparu arweiniad strategol a gweithredol ar draws y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod stoc dai cyhoeddus Ynys Môn yn dangos rhagoriaeth yn erbyn y Safon Ansawdd Tai Cymru. Datblygu'r strategaeth a sicrhau darpariaeth effeithiol o ystod o fentrau a rhaglenni yn ymwneud â'r gymuned (yn cynnwys diogelwch cymunedol a chydlyniad cymdeithasol)

3.5.3.12.2 darparu arweiniad strategol i'r ystod wahanol ganlynol o wasanaethau, prosiectau a mentrau sy'n canolbwyntio adnoddau ar ddatblygu sefydliad effeithiol ac effeithlon

**Yn Gyffredinol**

- Strategaeth Tai
- Cyllid / Refeniw Tai
- Gosodiadau / Digartrefedd
- Rheoli Tenantiaid
- Rheoli Stad Dai
- Cefnogi Pobl
- Uned Cynnal Tai ~~a Chadw Adeiladau~~
- Diogelwch Cymunedol, Cydlyniant Cymdeithasol (sipsiwn teithwyr ac ati), Polisi Atal Tlodi, Cymunedau'n Gyntaf
- Datblygiadau Tai Cymdeithasol (gan gynnwys caffael a / neu gael gwared ar dir a / neu unedau tai er mwyn cynyddu / rheoli stoc y Cyngor o dai cymdeithasol)

**Yn Benodol**

3.5.3.12.3 arwain y rhaglen dai strategol a gweithredol ar draws y Cyngor; sicrhau bod negeseuon tai allweddol yn cael eu cydlynu a'u bod yn gyson ar draws Ynys Môn a'u bod yn adlewyrchu'r rhaglen datblygiad cymunedol a chymdeithasol

3.5.3.12.4 datblygu ystod o fentrau cymunedol effeithiol ac integredig i daclo diogelwch, cydlyniant, tlodi a grymuso cymunedau fel rhan o agwedd "lle" cydlynus tuag at dai

3.5.3.12.5 sicrhau bod swyddogaethau statudol yn cael eu gwneud yn unol â deddfwriaeth digartrefedd a grantiau cyfleusterau i'r anabl, ac yn cefnogi cyfrifoldebau gofal cymdeithasol eraill o amgylch ansawdd a mynediad at ddarpariaeth

3.5.3.12.6 rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf tai ar gyfer sectorau tai cyhoeddus a phreifat, gan yrru gwerth o gyllido a chynhyrchu incwm ehangach lle bo hynny'n bosibl

Rheoli, cynnal, dosbarthu, datblygu, cymeradwyo, gweinyddu, penderfynu a gweithredu ar y gwasanaethau canlynol:-

3.5.3.12.7 rheoli o ddydd i ddydd stoc dai'r Cyngor, gan gynnwys garejys

3.5.3.12.8 o ddydd i ddydd rheoli gwaith trwsio a chynnal-a-chadw ar stoc tai'r Cyngor, gan gynnwys garejys

3.5.3.12.9 rhaglen cynnal a chadw cyfalaf/refeniw gynlluniedig

3.5.3.12.10 rhestr Aros y Cyngor

3.5.3.12.11 gosod tenantiaethau

3.5.3.12.12 gosod tai dros dro gan gynnwys llety argyfwng (hyd at 2 flynedd)

3.5.3.12.13 trosglwyddo

3.5.3.12.14 cyfnewid

3.5.3.12.15 cynlluniau Symudedd Cenedlaethol / Lleol

3.5.3.12.16 dilyniant yn unol ag Adrannau 87/89 o Ddeddf Tai 1985

3.5.3.12.17 digartrefedd (Rhan VII Deddf Tai 1996)

3.5.3.12.18 addasu eiddo'r Cyngor er budd pobl anabl

3.5.3.12.19 awdurdodi terfynu tenantiaethau

3.5.3.12.20 rhoi Rhybuddion sy'n Ceisio Meddiant a Rhybuddion i Ymadael ac awdurdodi cychwyn achosion cyfreithiol i adfeddiannu eiddo'r Cyngor

3.5.3.12.21 ceisiadau gan denantiaid neu berchnogion (yn ôl yr Hawl i Brynu) am waith altro, gwaith trwsio a gwelliannau ar gyfer eu heiddo

3.5.3.12.22 materion Tenantiaeth a Rheoli Stadau

3.5.3.12.23 enwi ystadau'r Cyngor ar ôl ymgynghori â'r aelod(au) lleol a'r Cyngor Cymuned

3.5.3.12.24 cyhoeddi'r holl wybodaeth sy'n ofynnol naill ai dan statud neu dan bolisi'r Cyngor

3.5.3.12.25 adnewyddu yn y Sector Preifat - Ardaloedd Adnewyddu a Chynlluniau Grwp gan gynnwys cyfraniadau gan gyfranogion yn unol â Deddf Grantiau, Adeiladau ac Adnewyddu Tai 1996

3.5.3.12.26 symud, storio, cael gwared o neu ddinistrio (ar ôl 3 mis) yr holl nwyddau a symudir o lety Cyngor ar ôl marwolaeth denant neu os tybir, ar ôl ystyried y mater mewn modd rhesymol, bod yr eiddo wedi'i adael

3.5.3.12.27 hawlio costau yn ôl gan unrhyw denant neu ystad y tenant ymadawedig

3.5.3.12.28 Hawl i Brynu, gan gynnwys prisiadau ac arfer hawliau rhagbrynu lle y mae angen tai, gan gynnwys plotiau ar werth ac unrhyw eiddo arall a werthwyd gan y Cyngor yn y gorffennol

3.5.3.12.29 yr Hawl i Reoli

3.5.3.12.30 yr Hawl i Iawndal

3.5.3.12.31 trosglwyddiadau/gwarantau i gymdeithasau adeiladu mewn cysylltiad â chynlluniau perchnogaeth tai rhad

3.5.3.12.32 mynd i mewn i unrhyw eiddo at ddibenion arolygu ac archwilio (Adran 54 Deddf Tai 1985)

3.5.3.12.33 cyflwyno'r holl rybuddion dan Adran 54 Deddf Tai 1985

3.5.3.12.34 Cyflwyno Rhybuddion a gweithredu pwerau mewn cysylltiad â Rhybuddion Trwsio (Rhan VI Deddf Tai 1985), Gwella'r Ardal (Rhan VIII Deddf Tai 1985), Tai Amlbreswyliaeth (Rhan XI Deddf Tai 1985 fel y cafodd ei diwygio), Darpariaethau Ariannol Cyffredinol (Rhan VI Deddf Tai a Llywodraeth Leol 1989), Benthyciadau ar gyfer Prynu neu Wella Tai (Rhan XIV Deddf Tai 1985), Grantiau ar gyfer gwaith gwella, trwsio neu addasu (Rhan XV Deddf Tai 1985),Cymorth ar gyfer perchenogion tai diffygiol (Rhan XVI Deddf Tai 1985), Pryniant Gorfodol ac Iawndal Tir (Rhan XVII Deddf Tai 1985), Darpariaethau Amrywiol a Chyffredinol (Rhan XVIII Deddf Tai 1985)

3.5.3.12.35 cynllun Perchnogaeth Tai Rhad

3.5.3.12.36 casglu Rhenti a Rheoli Dyledion a chasglu dyledion cyn-denantiaid

3.5.3.12.37 cydgysylltu Gofal Cymunedol a Chyfranogi gan Denantiaid

3.5.3.12.38 grantiau adnewyddu, strategaethau, datblygu polisi, ardaloedd adnewyddu a chynlluniau trwsio fesul grwp

3.5.3.12.39 Eiddo Gwag, tai, eiddo gwag yn fenthyciadau cartref

3.5.3.12.40 benthyciadau perchnogion cartrefi tro cyntaf a grantiau i brynwyr tro cyntaf

3.5.3.12.41 benthyciadau ecwiti prynu cartref a phartneriaethau gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

3.5.3.12.42 partneriaethau tai

3.5.3.12.43 Tai Fforddiadwy – gweinyddu grant tai cymdeithasol / grant dal cymdeithasol; grant eiddo bychan a refeniw gan Lywodraeth Cymru, datblygiadau tai fforddiadwy, cyllideb symiau cymudol a gosodiadau fel yn TAN 2

3.5.3.12.44 Yn arwain ar ran yr Adran Dai ar ddatblygiadau Ynys Ynni

3.5.3.12.45 Pwerau gorfodaeth yng nghyswllt tai gwag

3.5.3.12.46 ymarfer pwerau a dyletswyddau'r Cyngor i gaffael / cael gwared ar dir / unedau tai i bwrpas datblygiadau tai cymdeithasol newydd mewn ymgynghoriad gydag Aelodau Lleol, yr Aelod o'r Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am Dai, - y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) ac yn unol â Strategaeth, Cynlluniau a Pholisïau Tai'r Cyngor o bryd i'w gilydd;

3.5.3.12.47 cymeradwyo a chyflawni cynlluniau datblygu tai Cyngor / tai cymdeithasol newydd, un ai mewn partneriaeth gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, datblygwyr neu fel arall.

3.5.3.12.48 cydymffurfio gyda'r holl ofynion cyfreithiol mewn perthynas â gweithdrefnau tendro a chaffael, p'un a ydynt yn fewnol neu'n allanol, i'r graddau y maent yn berthnasol i unrhyw gynlluniau a / neu ddatblygiadau tai newydd

3.5.312.49 cadw cyfrif a bod yn gyfrifol am gaffael neu gael gwared ar asedau trwy'r Cyfrif Refeniw Tai

3.5.3.12.50 adrodd i'r Pwyllgor Gwaith a cheisio ei gymeradwyaeth i fwrw ymlaen os bydd cynllun datblygu tai yn cynnwys mwy na deg uned. Gall y Pennaeth Gwasanaeth (Tai) gymeradwyo cynlluniau sy'n llai na 10 uned mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog Adran 151- ar yr amod bod cyllid ar gael yn y cynllun busnes a'r gyllideb flynyddol ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai.

3.5.3.12.~~46~~51 pwerau isod y Cyngor fel y cânt eu cynnwys yn y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014;

a) y pwerau sy'n ymwneud â gwaharddebau fel y cânt eu cynnwys yn Rhan 1;

b) y pwerau sy'n ymwneud â rhybuddion diogelwch cymunedol fel y cânt eu cynnwys ym Mhennod 1, Rhan 4;

c) y pwerau sy'n gysylltiedig â chau eiddo am resymau'n gysylltiedig â niwsans neu anhrefn fel y cânt eu cynnwys ym Mhennod 3, Rhan 4

d) y pwerau i adennill a meddiannu tai annedd am resymau sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol fel y cânt eu cynnwys yn Rhan 5 y Ddeddf.

3.5.3.12.~~47~~52 i cyflawni'r dyletswyddau yn unol â chyfarwyddyd y Prif Weithredwr, neu swyddog a enwebwyd ganddo/ganddi ac yn y modd a ddisgrifir yn y disgrifiad swydd perthnasol fel y caiff ei ddiwygio o bryd i'w gilydd

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

**Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid / *Deprivation of Liberty Safeguards (DOLS)***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
***PUBLIC INTEREST TEST***

| | | |
|---|---|---|
| Paragraff(au) | 16 | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 |
| *Paragraph(s)* | *16* | *Schedule 12A Local Government Act 1972* |

[un neu fwy o /one or more of ~~12,13,14,15~~,16,~~17,18,18A,18B,18C~~]

Y PRAWF – *THE TEST*

| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / *There is a public interest in disclosure as:-* | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / *The public interest in not disclosing is:-* |
|---|---|
| Disgwyliad am dryloywder mewn perthynas â chyflawni cyfrifoldebau statudol y Cyngor.<br><br>*Expectation for transparency in relation to the discharge of the Council's statutory responsibilities.* | Mae'r adroddiad yn cynnwys cyngor cyfreithiol breintiedig sy'n nodi dyletswyddau a rhwymedigaethau'r Cyngor, yr opsiynau sydd ar gael a'r potensial i'w herio.<br><br>Gall cyhoeddi'r adroddiad, a'r rhesymeg gyfreithiol y tu ôl i'r cyngor, gynyddu'r potensial i herio a gwanhau gallu'r Cyngor i amddiffyn unrhyw heriau.<br><br>Mae rhagdybiaethau cydnabyddedig hefyd gan y Llysoedd sy'n diogelu braint broffesiynol gyfreithiol yn wyneb dadleuon eraill a allai gefnogi datgeliad.<br><br>*The report contains privileged legal advice which sets out the Council's duties and obligations, available options and potential for challenge.*<br><br>*Publication of the report, and the legal reasoning behind the advice, may increase the potential for challenge and weaken the Council's ability to defend any challenges.*<br><br>*There is also a recognised presumption by the Courts which protects legal professional privilege in the face of other arguments that may support disclosure.* |

| | |
|---|---|
| | |
| Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys na budd~~ y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs~~/does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate] | |

16749/415865

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

**UNEDAU DIWYDIANNOL NEWYDD YM MHENRHOS / NEW INDUSTRIAL UNITS AT PENRHOS**

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) 14<br>Paragraph(s) | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Schedule 12A Local Government Act 1972 |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Dylai'r Cyngor anelu i fod yn glir ac agored ynglyn â'i faterion cyllidol ac ar benderfyniadau sy'n ymrwymo'r Cyngor i wariant yn y dyfodol. /<br><br>The Council should aim to be open and transparent in respect of its finances and on decisions that commit the Council to future expenditure. | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae yna gytundeb masnachol yn ymwneud a Menter ar y Cyd gyda thrydydd parti sydd wedi nodi'n glir nad ydynt yn awyddus i dermau'r cytundeb gael ei gwneud yn gyhoeddus ar hyn o bryd. /<br><br>There is a commercial agreement relating to a Joint Venture with a third party who have clearly stated that they would not wish the terms of the agreement to be made public at this point. |
| Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate] | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank